RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL: 73/2021
DYDDIAD CYHOEDDI: 18/11/2021

# Gwerthusiad o'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu, arweinyddiaeth a chynorthwyo addysgu: Adroddiad blwyddyn 1

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80391-314-8

**Gwerthusiad o'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu, arweinyddiaeth a chynorthwyo addysgu**

Awduron: Hefin Thomas, Brett Duggan, Tanwen Grover ac Eluned Glyn, Ymchwil Arad. Nia Bryer a Heledd Bebb, Ymchwil OB3.

Adolygwyr: Dr Carmel Conn a Dr Matthew Hutt, Prifysgol De Cymru

Adroddiad Ymchwil Llawn: Thomas, Hefin; Duggan, Brett; Grover, Tanwen; Glyn, Eluned, Bryer, Nia; a Bebb, Heledd (2021*). Gwerthusiad o'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu, arweinyddiaeth a chynorthwyo addysgu: Adroddiad blwyddyn 1.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif:73/2021.
https://llyw.cymru/gwerthusiad-or-safonau-proffesiynol-ar-gyfer-addysgu-arwain-chynorthwyo-gwaith-addysgu-blwyddyn-1

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Cangen Ymchwil Ysgolion

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 03000256812

E-bost: YmchwilYsgolion@Llyw.Cymru

## Tabl cynnwys

Rhestr o'r ffigurau ........................................................ 2
Rhestr o'r tablau ........................................................ 2
Geirfa ........................................................ 3
1. Cyflwyniad ........................................................ 4
2. Methodoleg ........................................................ 20
3. Canfyddiadau: ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r safonau........................ 28
4. Y defnydd o'r safonau ........................................................ 39
5. Y cymorth sydd ar gael i ddefnyddio'r safonau ........................................ 79
6. Effaith ganfyddedig a disgwyliedig ........................................................ 89
7. Casgliadau ........................................................ 98
8. Materion i'w hystyried........................................................ 104
Atodiad A: Offer ymchwil ........................................................ 106
Llyfryddiaeth ........................................................ 127

## Rhestr o'r ffigurau

Ffigur 1. Trosolwg o'r safonau a phum elfen hanfodol addysgu a dysgu effeithiol.... 7
Ffigur 2. Llinell amser cerrig milltir allweddol yn ymwneud â'r safonau................... 18
Ffigur 3. Ymatebion athrawon ysgol i'r cwestiwn: 'Ydych chi wedi defnyddio safonau "Athrawon wrth eu Gwaith" neu safonau "Arweinyddiaeth" Llywodraeth Cymru, wrth osod eich amcanion, cynllunio eich datblygiad proffesiynol neu adolygu eich perfformiad, yn ystod y 12 mis diwethaf? (dewiswch un)'. ... 40
Ffigur 4. Nifer a chanran yr athrawon sydd wedi creu eu PDP eu hunain .............. 43
Ffigur 5. Nifer yr athrawon a greodd eu PDP eu hunain 2017-2021: ANG a'r holl athrawon eraill........................................................................................ 44
Ffigur 6. Nifer a chanran y gweithwyr cymorth dysgu sydd wedi creu eu PDP eu hunain ................................................................................................... 45
Ffigur 7. Cyfanswm yr asedau a uwchlwythwyd / a grëwyd gan ymarferwyr sydd wedi creu eu PDP eu hunain 2019-21 ....................................................... 47

## Rhestr o'r tablau

Tabl 1. Datblygiadau allweddol sy'n berthnasol i'r safonau..................................... 15
Tabl 2. Nifer / math o leoliadau a nifer / rôl yr ymarferwyr sy'n cymryd rhan ym Mlwyddyn 1 ........................................................................................... 24
Tabl 3. Cyfwelwyd â chyfanswm o 71 o randdeiliaid yn ystod Blwyddyn 1 y gwerthusiad ........................................................................................... 25
Tabl 4. Nifer a chanran y troeon y bu i ymarferwyr sydd wedi creu eu PDP eu hunain fewngofnodi........................................................................... 46
Tabl 5. Nifer a chanran defnyddwyr y PDP yn ôl sector addysg*............................ 48

**Geirfa**

| **Acronym/Allweddair** | **Diffiniad** |
|---|---|
| ADY | Anghenion dysgu ychwanegol |
| AGA | Addysg Gychwynnol i Athrawon |
| ANG | Athrawon Newydd Gymhwyso |
| CA | Cynorthwywyr Addysgu |
| CALU | Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch |
| CGA | Cyngor y Gweithlu Addysg |
| CPCP | Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth |
| DPP | Datblygiad proffesiynol parhaus |
| GCA | Gwasanaeth Cyflawni Addysg ar gyfer De-ddwyrain Cymru |
| Gweithiwr cymorth dysgu | Fe'i defnyddir i gyfeirio at Gynorthwywyr Addysgu a Chynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch |
| HCA | Hyfforddiant cychwynnol athrawon |
| HMS | Diwrnod Hyfforddiant Mewn Swydd |
| MDaPh | Maes dysgu a phrofiad |
| OECD | Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd |
| OLEP | Rhaglen Arweinyddiaeth Ragorol mewn Addysg |
| OTAP | Rhaglen Cynorthwywyr Addysgu Rhagorol |
| OTP | Rhaglen Athrawon Rhagorol |
| PDP | Pasbort Dysgu Proffesiynol |
| PYPC | Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol |
| SAC | Statws Athro Cymwysedig |
| SAU | Sefydliadau Addysg Uwch |
| Y safonau | Safonau proffesiynol: fe'u defnyddir i gyfeirio at y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth a'r safonau proffesiynol ar gyfer cynorthwyo addysgu |
| Ysgol ganol | Ysgol 3 - 16 / 19 oed |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu cwmni ymchwil Arad, mewn partneriaeth ag OB3 a Phrifysgol De Cymru, i werthuso'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth a'r safonau proffesiynol ar gyfer cynorthwyo addysgu (y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon fel y 'safonau proffesiynol' neu'r 'safonau'). Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau blwyddyn gyntaf y gwerthusiad hwn.

1.2 Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r fethodoleg werthuso (Adran 2) a chanfyddiadau'r flwyddyn gyntaf (Adrannau 3-6). Amlinellir y casgliadau a'r materion i'w hystyried yn Adrannau 7 ac 8. Disgrifir yr offer ymchwil yn Atodiad A.

### Nodau ac amcanion y gwerthusiad

1.3 Nod y gwerthusiad yw 'gwerthuso gweithrediad, effeithiolrwydd ac effeithiau disgwyliedig y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu, arweinyddiaeth a chynorthwyo addysgu o ran eu gallu i gefnogi'r gwaith o ddatblygu gweithlu sy'n meddu ar y sgiliau priodol ac sy'n barod i ymateb i heriau diwygio addysg yng Nghymru' (Llywodraeth Cymru, 2019).

1.4 Amcanion y gwerthusiad yw:

- Asesu ymgysylltiad â'r safonau ymhlith ymarferwyr;
- Adolygu gweithrediad y safonau ymysg ymarferwyr;
- Deall pa ffactorau a/neu amodau sy'n cefnogi neu'n rhwystro'r broses o weithredu ac ymgysylltu'n effeithiol â'r safonau;
- Ystyried a yw'r safonau wedi bod yn effeithiol o ran eu bwriad i:
    - Osod disgwyliadau clir am ymarfer effeithiol yn ystod gyrfa ymarferwr gan gynnwys, lle bo hynny'n berthnasol, mynediad i'r proffesiwn;

    - Galluogi ymarferwyr i fyfyrio ar eu hymarfer, yn unigol ac ar y cyd, yn erbyn safonau ymarfer effeithiol y cytunwyd arnynt yn genedlaethol, a chadarnhau a dathlu eu llwyddiannau;
    - Cefnogi ymarferwyr i nodi meysydd ar gyfer datblygiad proffesiynol pellach;
    - Cael eu defnyddio fel rhan o'r broses rheoli perfformiad.
- Archwilio effeithiau disgwyliedig gweithredu'r safonau ar lefel yr ymarferwr, yr ysgol a'r system.
- Gwneud argymhellion ar gyfer polisi ac ymarfer ar draws y system gyfan i gefnogi gweithrediad ac effeithiolrwydd y safonau yn y dyfodol. (Llywodraeth Cymru, 2019).

**Trosolwg o'r safonau**

1.5 Cyhoeddwyd y safonau ym mis Medi 2017 ac mae'n ofynnol i ANG sy'n dechrau eu cyfnod sefydlu o'r dyddiad hwnnw weithio yn unol â'r safonau. Roedd ANG a ddechreuodd ar eu cyfnod sefydlu cyn y dyddiad hwn wedi cwblhau eu cyfnod sefydlu gan ddefnyddio'r un safonau â phan ddechreusant ar eu hyfforddiant. Dechreuodd yr holl athrawon ac arweinwyr eraill ddilyn y safonau newydd o fis Medi 2018 ymlaen.

1.6 Mae'r safonau'n cynnwys tair adran rhyng-gysylltiedig:

- Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth;
- Safonau proffesiynol ar gyfer arweinyddiaeth ffurfiol;
- Safonau proffesiynol ar gyfer cynorthwyo addysgu.

1.7 I gyd-fynd â'r safonau mae gwerthoedd ac ymagweddau cyffredin sydd wedi'u bwriadu 'i gefnogi ymarferwyr i fod y gorau y gallwch':

- Iaith a diwylliant Cymru;
- Hawl broffesiynol;
- Rôl yn y system;
- Dysgwr proffesiynol;
- Llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol;

- Hawliau dysgwyr.

1.8 Mae'r tair Trosolwg o'r safonau a phum elfen hanfodol addysgu a dysgu effeithiol.


- Addysgeg;
- Arweinyddiaeth;
- Dysgu proffesiynol;
- Arloesi;
- Cydweithredu.

1.9 Rhennir pob safon yn elfennau sy'n cynnwys disgrifyddion sy'n dangos sut y gellid cymhwyso'r safonau, yn dibynnu ar ba gam y mae unigolyn yn ei yrfa a'i rôl.

- Safonau ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth - mae'r disgrifyddion yn amlinellu'r disgwyliadau y dylid eu cyflawni ar gyfer (1) sicrhau dyfarniad statws athro cymwysedig (SAC) a (2) cwblhau'r cyfnod sefydlu statudol yn llwyddiannus, yn y drefn honno. Mae'r drydedd lefel o ddisgrifyddion yn dangos enghreifftiau o arferion effeithiol iawn a pharhaus ac yn ffocws ar gyfer dysgu proffesiynol gydol gyrfa.
- Safonau ar gyfer arweinyddiaeth ffurfiol - mae'r disgrifyddion yn dangos y disgwyliadau ar gyfer (1) rôl arweinyddol ffurfiol a (2) arferion effeithiol iawn mewn rôl arweinyddol ffurfiol.
- Safonau ar gyfer cynorthwyo addysgu - mae'r disgrifyddion yn disgrifio arferion effeithiol fel CA ac arferion effeithiol iawn fel CA. Dylai CA sy'n ceisio statws CALU fod yn dangos arferion effeithiol iawn a pharhaus yn y disgrifyddion perthnasol cyn iddynt ymgymryd â'r cynllun CALU ac os ydynt yn llwyddiannus, cyflawni statws CALU.

1.10 Mae Ffigur 1 isod yn rhoi trosolwg o'r safonau a phum elfen hanfodol addysgu a dysgu effeithiol.

**Ffigur 1. Trosolwg o'r safonau a phum elfen hanfodol addysgu a dysgu effeithiol.**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2018

**Cyd-destun a chefndir**

1.11 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu proffesiwn addysg o ansawdd uchel fel y nodir yn ei strategaeth ar gyfer y sector addysg hyd at 2021, *Cenhadaeth Ein Cenedl* (y Strategaeth) a'i chynllun gweithredu mwy diweddar sydd wedi'i ddiweddaru. Er mwyn cyflawni'r nod hwn, mae'r

strategaeth yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn 'cefnogi athrawon yng Nghymru i fod yn ddysgwyr proffesiynol gydol oes sy'n myfyrio ar eu hymarfer eu hunain a'i wella er mwyn cymell ac ysbrydoli'r plant a'r bobl ifanc yn eu gofal'.[1] Mae'r Strategaeth hefyd yn amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru i ddiwygio systemau'r cwricwlwm ac arholiadau, gwella hyfforddiant i athrawon, sefydlu Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol ac adolygu'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth. Mae *Cenhadaeth Ein Cenedl* hefyd yn nodi'r amcan o ddatblygu, ymgynghori a lansio 'safonau proffesiynol newydd ar gyfer athrawon ac aelodau eraill o'r gweithlu addysg a fydd yn canolbwyntio ar elfennau hanfodol addysgu llwyddiannus'. Mae hefyd yn ymrwymo i ddatblygu safonau ar gyfer 'staff cymorth a fydd yn eu galluogi i wella eu sgiliau ac ymrwymo i ddysgu proffesiynol ac yn hwyluso llwybrau cliriach i rôl cynorthwyydd addysgu lefel uwch'.[2]

1.12 Datblygwyd y safonau ar ôl cyhoeddi cyfres o adolygiadau a fu'n sail i ddull gweithredu Llywodraeth Cymru ar ddysgu proffesiynol yn y gweithlu addysg.

1.13 Cydnabu *Adolygiad o Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru* fod Llywodraeth Cymru wedi cynnig adolygu Safonau Athrawon Wrth eu Gwaith, gan gyflwyno'r achos y dylai unrhyw safonau yn y dyfodol fod yn seiliedig ar un fframwaith y gellid ei gymhwyso i ymarferwyr sy'n ennill Statws Athro Cymwysedig (SAC) ar ôl cwblhau eu Haddysg Gychwynnol i Athrawon (AGA); i'r cyfnod sefydlu ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG) ac i athrawon newydd eraill sy'n gweithio yn y 'tair i bum mlynedd cyntaf o addysgu'. Pwysleisiodd yr adroddiad bwysigrwydd sicrhau bod safonau yn y dyfodol yn cael eu 'halinio fel eu bod yn rhoi llwybr eglur i arwain dilyniant gyrfa gynnar athrawon'.

1.14 Ystyriodd adroddiad yr Athro Donaldson, *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*, ddibenion

[1] Ibid., tud.25
[2] Ibid., tud.25

sylfaenol addysg gan argymell trefniadau cwricwlwm ac asesu sy'n gallu cyflawni'r dibenion hynny orau. Amlygodd yr Adolygiad yr angen i greu 'cwricwlwm sy’n cynnal ac yn hwyluso addysgu a dysgu o’r radd flaenaf yn yr unfed ganrif ar hugain'. Sbardunodd yr Adolygiad raglen fawr o ddiwygio'r cwricwlwm yng Nghymru, gan sefydlu Cwricwlwm newydd i Gymru y bwriedir ei weithredu o 2022 ymlaen. Argymhellodd Dyfodol Llwyddiannus hefyd y dylid datblygu rhaglenni dysgu proffesiynol cychwynnol a thrwy gydol gyrfa sy'n meithrin gallu athrawon i gefnogi'r ystod lawn o ddibenion cwricwlwm.

1.15 Cydnabu *Addysgu Athrawon Yfory* y byddai proses o ddiwygio addysg wedi'i harwain gan Lywodraeth Cymru, a weithredwyd yn dilyn yr argymhellion yn Adolygiad Donaldson, yn 'codi'r safon yn sylweddol' o ran yr hyn a ddisgwylid gan athrawon. O ganlyniad, mae Adolygiad Furlong a gyhoeddwyd yn 2015 yn nodi y 'bydd ar Gymru angen math gwahanol o athro ac athrawes broffesiynol; un sy’n ysgwyddo cryn dipyn yn fwy o gyfrifoldeb, un sy’n deall dulliau addysgu a’r rhesymau drostyn nhw yn ogystal â chynnwys yr addysgu... [a fydd yn arwain at] oblygiadau pwysig ar gyfer addysg gychwynnol athrawon ac ar gyfer DPP'.[3]

1.16 Canfu'r adroddiad *Datblygu Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu yng Nghymru,* er bod y rhan fwyaf o ysgolion yn cymryd camau tuag at ddatblygu fel sefydliadau sy'n dysgu, bod 'cyfran sylweddol' yn 'dal i fod yn bell iawn o gyflawni'r amcan hwn'. Daeth yr adroddiad i'r casgliad fod y dull presennol yn dibynnu ar nifer fawr o safonau addysgu ac arweinyddiaeth gwahanol a chymharol statig. Roedd yn argymell symleiddio safonau proffesiynol i athrawon yng Nghymru o fewn un fframwaith i gwmpasu pob cam gyrfa a'r holl staff. Nododd y dylai Cymru ystyried symleiddio a lleihau nifer y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth a'u seilio ar weledigaeth o safonau yr athro a'r arweinydd Cymreig a sicrhau bod safonau'n cwmpasu'r holl staff proffesiynol, gan gynnwys y staff cymorth, yn

[3] Ibid., tud.38

ogystal â darparu eglurder ac arweiniad ar y disgwyliadau proffesiynol ar bob cam gyrfa.[4]

1.17 Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar safonau proffesiynol drafft ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth rhwng mis Mawrth a mis Mai 2017. Teimlai'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad fod y safonau yn briodol o uchelgeisiol ac yn cyd-fynd â diwygiadau eraill ar draws y dirwedd addysg. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn croesawu'r ymreolaeth gynyddol i ymarferwyr. Mynegodd rhai ymatebwyr bryder y gallai llwyth gwaith athrawon fod yn rhwystr i gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth. Mewn ymateb i hyn, nododd Llywodraeth Cymru fod y cynnig yn cynnwys llai o safonau nag o dan y trefniadau presennol (bryd hynny) a bod ystyriaeth ofalus yn cael ei rhoi i sicrhau na fyddai safonau newydd yn cynyddu'r llwyth gwaith. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno bod strwythur y safonau proffesiynol (y gwerthoedd a'r ymagweddau, y pum dimensiwn a'u helfennau) yn amlinellu pwrpas cyffredin ar gyfer pob athro ac arweinydd ysgol. Teimlai rhai fod strwythur a chynnwys y safonau yn gymhleth gan gwestiynu'r berthynas rhwng elfennau'r model. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno bod y disgrifyddion yn briodol, gan gefnogi dysgu proffesiynol drwy gydol gyrfa a deialog broffesiynol barhaus.

1.18 Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar y safonau proffesiynol drafft ar gyfer cynorthwyo addysgu yn 2019. Roedd y safonau hyn ar gyfer yr holl gynorthwywyr addysgu (CA) a chynorthwywyr addysgu lefel uwch (CALU) sy'n gweithio gyda dysgwyr. Amlygodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad fanteision cyflwyno safonau proffesiynol ar gyfer CA a CALU, gan gynnwys cydnabod statws proffesiynol a gwerth y rhai sy'n cynorthwyo addysgu. Nododd yr ymatebwyr y gallai safonau helpu i egluro rolau CA a CALU a darparu ffocws cyffredin i'r rhai sy'n cynorthwyo addysgu (ynghyd ag athrawon ac arweinwyr) ar y pum safon: addysgeg, cydweithredu, dysgu proffesiynol, arweinyddiaeth ac arloesi. Nododd yr ymatebion i'r ymgynghoriad bryderon ynghylch yr amser a'r hyfforddiant sy'n ofynnol i

[4] Ibid., tud.108

gyflwyno'r safonau a'r posibilrwydd y gallai'r safonau newid canfyddiadau o rolau CA a CALU. Yn ei hymateb, nododd Llywodraeth Cymru fod y safonau'n cael eu cyflwyno fesul cam ac mewn partneriaeth â rhanddeiliaid cenedlaethol a rhanbarthol. Nodwyd hefyd bod y safonau'n debygol o fod fwyaf effeithiol pan gânt eu defnyddio fel dull galluogi yn hytrach na dull o fesur perfformiad.

1.19 Mae *Buddsoddi mewn rhagoriaeth: Ein cynllun cenedlaethol i ddatblygu'r gweithlu 2019–21* yn tynnu sylw at y safonau fel elfen allweddol o 'gadw athrawon a chamu ymlaen mewn gyrfa' ochr yn ochr â 'rheoli perfformiad', 'dysgu proffesiynol a’r rhwydweithiau cenedlaethol' ac 'arweinyddiaeth, gan gynnwys cynllunio ar gyfer olyniaeth'. Mae'r cynllun hwn yn nodi'r gofynion i ANG 'fyfyrio ar eu hymarfer a chasglu tystiolaeth i ddangos eu bod yn cyrraedd y safonau proffesiynol gofynnol a’r disgrifyddion perthnasol' yn ystod eu blwyddyn sefydlu. Mae'r cynllun hefyd yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu safonau proffesiynol ar gyfer Cynghorwyr Herio rhanbarthol a'r rhai sy'n cefnogi gwella ysgolion. Mae'n cynnwys y maen prawf llwyddiant canlynol sy'n ymwneud â'r safonau: 'Mae pob ymarferydd yn myfyrio ar y safonau proffesiynol i lywio eu hadolygiadau o ddatblygiad proffesiynol'.[5]

1.20 Mae'r safonau yn un o wyth elfen sy'n rhan o'r Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol. Lansiwyd y dull cenedlaethol yn 2018, gyda'r nod o greu gweledigaeth ar gyfer dysgu proffesiynol sy'n addas ar gyfer y system addysg sy'n esblygu yng Nghymru. Mae elfennau eraill yn cynnwys gwneud y defnydd gorau o rwydweithiau cydweithredol, cymryd rhan mewn Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu, modelau achredu/cydnabod a darparu cyfuniad dysgu proffesiynol i sicrhau mynediad a hyblygrwydd. Yn y cyd-destun hwn, bwriad y safonau yw ategu'r cwricwlwm dysgu proffesiynol.

1.21 Fel rhan o'r Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol, ac i gefnogi datblygiad y cwricwlwm newydd, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda

[5] Ibid., tud.35.

chonsortia rhanbarthol a phartneriaid sefydliadau addysg uwch (SAU) i ddatblygu'r Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol. Caiff ysgolion sy'n cymryd rhan eu cefnogi i arwain ymholiadau yn eu lleoliad eu hunain i ymchwilio i ofynion dysgu proffesiynol ar gyfer y cwricwlwm newydd. Cynhaliwyd cam treialu a datblygu cynnar yn 2018-19, lle bu ysgolion yn gweithio mewn grwpiau ymholi cenedlaethol gan ganolbwyntio ar themâu o fewn y meysydd trosfwaol 'cynllunio ar gyfer cwricwlwm a yrrir gan ddiben', 'addysgeg a sut mae dysgu'n gweithio', 'dysgu ar sail prosiectau' a 'goblygiadau o ran arwain a rheoli'. Cynlluniwyd gweithgareddau cryfhau a chyfoethogi i ddechrau ar gyfer 2019-20 a'r gwaith ehangu a datblygu pellach yn 2020-21.

1.22 Er mwyn helpu i arwain ysgolion drwy'r agweddau dysgu strwythurol a phroffesiynol ar baratoi ar gyfer Cwricwlwm Cymru, datblygwyd y Daith Dysgu Proffesiynol. Fe'i cyhoeddwyd ym mis Mai 2020, ac mae'n ymgorffori'r Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol, Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu a'r rhaglen gymorth draws-ranbarthol a ddatblygwyd gan y consortia. Ei bwriad yw gwneud y modelau a'r dulliau hyn yn haws i gael gafael arnynt, a'i gwneud yn haws i bobl ddod o hyd i'w ffordd o'u hamgylch a'u defnyddio wrth gynllunio. Mae'r elfen o'r daith ddysgu broffesiynol sy'n cyfeirio'n benodol at y safonau yn dangos y gallai ymarferwyr fod eisiau ystyried: creu cyfleoedd dysgu parhaus i staff; dysgu mewn tîm a chydweithio; a chreu systemau ar gyfer casglu a chyfnewid gwybodaeth ar gyfer dysgu.

1.23 Mae Estyn wedi ceisio cefnogi lefelau cyson o waith gwella ysgolion o ansawdd uchel ymhellach drwy ddatblygu Adnodd Gwerthuso a Gwella Cenedlaethol. Bwriad yr adnodd hwn yw cefnogi a chryfhau'r broses hunanwerthuso mewn ysgolion. Mae diweddariad a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2020 yn nodi cynnydd a chynlluniau ar gyfer datblygu'r adnodd (gyda'r llinell amser derfynol ar gyfer ei gyflwyno eto i'w phenderfynu). Bydd yr adnodd yn canolbwyntio ar bum ysgogiad; addysgu, arweinyddiaeth, gweledigaeth, llesiant, cwricwlwm a dysgu cyfunol. Mae'r awgrymiadau

addysgu ac arweinyddiaeth yn cyd-fynd â'r safonau ac yn cynnwys ysgogiad deialog sy'n cyfeirio'n benodol at y safonau:

> ‘I ba raddau y mae'r holl athrawon yn defnyddio'r Safonau proffesiynol ar gyfer addysg ac arweinyddiaeth i arwain eu dysgu proffesiynol?’

1.24 Amlygodd adroddiad yr OECD, *Achieving the New Curriculum for Wales* a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2020, y rôl ganolog y dylai dysgu proffesiynol ei chwarae wrth weithredu'r cwricwlwm newydd yn llwyddiannus. Yn fwy penodol, trafododd yr adroddiad hefyd y gwaith a wnaed gan Lywodraeth Cymru i gysoni safonau proffesiynol â'r cwricwlwm ehangach a'r broses diwygio dysgu proffesiynol. Noda fod y safonau'n dechrau annog mwy o alluedd ar ran athrawon, a mwy o "gyd-alluedd" ar ran arweinwyr ac athrawon ysgol, yn unol â myfyrdodau rhyngwladol cyfredol. Yn ystod y cyfweliadau, darganfu OECD: fod y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid wedi croesawu'r safonau; bod y safonau'n annog arloesi, cydweithredu, a dysgu ac ymholi dilys; ond bod gan randdeiliaid haen ganol a Llywodraeth Cymru ran allweddol i'w chwarae o ran cynnig rhagor o eglurder ac arweiniad ynghylch sut y gellir rhoi'r safonau ar waith.

1.25 Ym mis Tachwedd 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adolygiad annibynnol o drefniadau sefydlu statudol athrawon, a gynhaliwyd gan yr Athro Mick Waters. Roedd yr adroddiad yn feirniadol o lawer o'r ddarpariaeth gyfredol, gan nodi 'prin y gallai adolygiad o agwedd ar addysgu fod wedi derbyn ton gystal o unfrydedd' a mynegiant o rwystredigaeth gyda'r prosesau cyfredol. Mae'r rhwystredigaeth hon ymysg ymarferwyr yn ymestyn i lawer o'r strwythurau dysgu proffesiynol presennol. Mae'r adroddiad yn gwneud nifer o awgrymiadau ar wella dysgu proffesiynol yn ystod cyfnod sefydlu athrawon, gan gynnwys: yr angen i Estyn adolygu'r broses yn rheolaidd; rhaglen genedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol wedi'i datblygu gan gonsortia sy'n canolbwyntio ar dwf effeithiol yn y safonau; a darpariaeth ddysgu wahaniaethol a ddarperir gan gonsortia i ategu cyfleoedd dysgu ar lefel ysgol, gyda phwyslais ar gydweithredu proffesiynol, arloesi ac arweinyddiaeth. Mae'r adroddiad yn ei gwneud yn glir:

'Dylai'r pum safon broffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth arwain profiad a dysgu proffesiynol yr athro ymrestredig o ddechrau'r rhaglen addysg gychwynnol i athrawon hyd at ddiwedd y cyfnod sefydlu a'r tu hwnt, a dylid defnyddio disgrifyddion i ddarparu tystiolaeth o addasrwydd yr unigolyn ar gyfer ei gynnwys ar gofrestr athrawon Cymru.' [6]

1.26 Yn ddiweddar, ariannwyd CGA i adolygu sut mae ymarferwyr yn ymgysylltu â'r safonau ac i ddatblygu adnoddau newydd i gynorthwyo ymarferwyr i ymgysylltu â'r safonau.[7] Er bod adolygiad cychwynnol a gynhaliwyd gan CGA fel rhan o'r gwaith hwn wedi nodi pocedi o arfer da o ran ymgysylltiad ymarferwyr â'r safonau, canfu hefyd fod y patrymau ymgysylltu'n amrywio'n sylweddol ar draws y gweithlu, gydag ymarferwyr sydd â rhwymedigaeth statudol i ymgysylltu â'r safonau (megis ANG) yn fwy tebygol o wneud hynny. Amlygodd yr adolygiad hefyd yr angen i addysgu ymarferwyr ymhellach ynghylch sut y gellir defnyddio'r safonau ac i ddarparu adnoddau pellach i gefnogi ymgysylltiad. Nododd yr adolygiad dri grŵp o ymarferwyr y dylid eu blaenoriaethu o fewn ail gam gwaith CGA, sef: athrawon ôl-sefydlu; penaethiaid ac uwch arweinwyr; a chynorthwywyr dysgu. Mae unrhyw adnoddau a gynhyrchir yn:

‘debygol o gynnwys rhyw fath o enghreifftiau i helpu ymarferwyr i ddehongli’r safonau, astudiaehau achos i ddarparu enghreifftiau y gellir uniaethu â nhw o sut y gellir eu defnyddio i wella ymarfer ymarferwyr ac offer hunanwerthuso sy’n caniatáu i ymarferwyr fesur eu cynnydd a myfyrio arno.’[8]

1.27 MaeTabl 1 yn rhoi trosolwg o'r gyfres o adolygiadau a mentrau a amlinellir uchod a datblygiadau a cherrig milltir allweddol eraill sy'n berthnasol i'r safonau. Cyflwynir crynodeb diagramatig o'r rhain yn Ffigur 2.

[6] Ibid t. 48.
Cyngor y Gweithlu Addysg (2021), adolygiad o safonau proffesiynol ar gyfer addysgu, arweinyddiaeth a chynorthwyo addysgu yng Nghymru
[8] Ibid t. 23.


**Tabl 1. Datblygiadau allweddol sy'n berthnasol i'r safonau**

| Dyddiad | Datblygiad allweddol |
|---|---|
| 2009 | Safonau Statws Athro Cymwysedig Cymru - roedd y rhain yn disodli safonau 2006 ac yn seiliedig ar ddatganiadau deilliant, yn nodi'r hyn y mae'n rhaid i hyfforddeion ei wybod - Gwerthoedd ac arferion proffesiynol; Gwybodaeth a dealltwriaeth; Addysgu. |
| 2011 | Safonau proffesiynol diwygiedig ar gyfer ymarferwyr addysg yng Nghymru<br><br>Safonau ar gyfer - Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch, Athrawon wrth eu Gwaith ac Arweinyddiaeth. Roedd y safonau'n canolbwyntio ar - Nodweddion a gwerthoedd proffesiynol; Gwybodaeth a dealltwriaeth; Sgiliau. |
| 2013 | Adolygiad o Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru cynigiwyd 15 o argymhellion i wella ansawdd yn y sector gan y canfuwyd bod angen gwella hyfforddiant cychwynnol athrawon yng Nghymru mewn sawl maes. Ymatebodd Llywodraeth Cymru i'r argymhellion gan gynnwys 'system integredig o safonau proffesiynol'. |
| 2013 | Cymunedau dysgu proffesiynol - trosolwg o'r model cenedlaethol ar gyfer cymunedau dysgu proffesiynol |
| 2013 | Cynllun gweithredu i hyrwyddo rôl a hybu datblygiad staff cymorth mewn ysgolion yng Nghymru sy'n amlygu ymrwymiad i holl staff cymorth ysgolion gael mynediad at hyfforddiant, gyda chymwysterau sy'n addas at y diben, gan gynnwys safonau proffesiynol sy'n darparu cysondeb cenedlaethol. |
| 2014 | Cymwys am Oes: Cynllun Gwella Addysg ar gyfer Dysgwyr 3-19 oed yng Nghymru - Amcan Strategol 1 - Gweithlu proffesiynol rhagorol gydag addysgeg gref yn seiliedig ar ddealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio, a chryfhau'r safonau a diwygio safonau arweinyddiaeth wedi'u nodi, a sicrwydd y bydd y safonau'n parhau i fod yn addas at y diben. |
| 2014 | Improving Schools in Wales (OECD) – argymhellwyd safonau wedi'u symleiddio ac yn seiliedig ar weledigaeth Cymru o'r ymarferydd a'r arweinydd, sy'n cwmpasu pob cam gyrfa ac yn cynnwys staff cymorth dysgu. |
| Mehefin 2014 | Cyhoeddwyd y 'Fargen newydd i'r gweithlu addysg', gyda manylion pellach yn cael eu cyhoeddi ym mis Mawrth 2015. Sefydlu llwybrau datblygu gydol gyrfa ac adnewyddu safonau proffesiynol. |
| 2015 | Argymhellodd Addysgu Athrawon Yfory 'gysyniadau sylfaenol newydd' o ran y safonau ar gyfer Addysg Gychwynnol Athrawon fel bod y safonau'n adlewyrchu'n well y sgiliau gofynnol ar gyfer newydd-ddyfodiaid i'r proffesiwn a'r angen i integreiddio AGA â dysgu proffesiynol gydol gyrfa |
| 2015 | Nododd Dyfodol Llwyddiannus fod angen i'r strategaeth newid effeithiol sy'n ofynnol gael ei chefnogi gan ddull strategol o ddatblygu capasiti, gan gynnwys addysg gychwynnol briodol i athrawon a datblygiad proffesiynol parhaus. |

| | |
|---|---|
| Tach 2015 | Sefydlwyd Rhwydwaith Ysgolion Arloesol, gan gynnwys arloeswyr dysgu proffesiynol (a elwid gynt yn 'fargen newydd') |
| Hydref 2016 | Lansiodd Cyngor y Gweithlu Addysg y Pasbort Dysgu Proffesiynol |
| 2017 | Cydnabuwyd bod yr adroddiad The Welsh Education Reform Journey (OECD) yn brif ysgogydd ar gyfer gwella, gan sicrhau cyfatebiaeth rhwng safonau arweinyddiaeth a'r safonau addysgu newydd a argymhellir a chysylltu'r safonau â rhaglenni HCA, gyda'r holl gamau gyrfa yn cael sylw. |
| Mehefin 2017 | Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth. |
| Medi 2017 | Mae Addysg yng Nghymru: cenhadaeth ein cenedl: cynllun gweithredu 2017-21 yn cynnwys 'safonau proffesiynol newydd ar gyfer athrawon ac aelodau eraill o’r gweithlu addysg a fydd yn canolbwyntio ar elfennau hanfodol addysgu llwyddiannus'. |
| Medi 2017 | Cafodd Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth eu lansio a'u mabwysiadu gan ANG yn ystod y cyfnod sefydlu. |
| Tach 2017 | Cyflwynwyd Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu yng Nghymru. |
| 2018 | Mae Datblygu Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu yng Nghymru (OECD) yn cefnogi Cymru ac yn asesu i ba raddau y mae ysgolion wedi datblygu fel sefydliadau sy'n dysgu |
| 2018 | Lansiwyd y Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol a chyflwynwyd elfennau ar gyfer ysgolion, rhanbarthau a'r genedl. |
| 2018 | Cam cyntaf Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol yn dechrau. |
| Mai 2018 | Lansiwyd Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, gyda'r nod o sicrhau bod pob ymarferydd yn gallu ymgysylltu â dysgu proffesiynol. |
| Medi 2018 | Cyflwynwyd Safonau newydd gorfodol i bob athro ac arweinydd ysgol, a safonau Arweinyddiaeth sy'n cael eu defnyddio fel sail i'r CPCP |
| Tach 2018 | Cyhoeddwyd Safonau drafft ar gyfer CA a CALU ar gyfer ymgynghori.<br>Prosiect ymholi proffesiynol cenedlaethol Cam 1 - treialu a datblygiad cynnar |
| Chwef 2019 | Ailbwysleisiodd Buddsoddi mewn gweithlu rhagorol y byddai safonau newydd yn cael eu sefydlu i ategu datblygiad y proffesiwn addysgu. |
| Mai 2019 | Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar safonau proffesiynol drafft ar gyfer cynorthwyo addysgu. |

| | |
|---|---|
| Medi 2019 | Y ddarpariaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon yn mabwysiadu safonau.<br>Safonau proffesiynol ar gyfer cynorthwyo addysgu ar gael i'r holl gynorthwywyr addysgu a chynorthwywyr addysgu lefel uwch. |
| Tach 2019 | Mae Buddsoddi mewn rhagoriaeth: Ein cynllun cenedlaethol i ddatblygu'r gweithlu 2019–21 yn cynnwys datblygu Pecyn Cymorth Gyrfa Gynnar, pwysleisir trefniadau sefydlu statudol, a'r cynllun i ddatblygu safonau proffesiynol ar gyfer Cynghorwyr Herio rhanbarthol.<br>Lansiwyd Rhaglen Ymholi Proffesiynol Athrawon Cam 2: Cryfhau a Chyfoethogi. |
| Mai 2020 | Cyhoeddwyd y Daith Dysgu Proffesiynol |
| Hydref 2020 | Cyhoeddwyd adroddiad yr OECD, Achieving the New Curriculum for Wales |
| Tachwedd 2020 | Dysgu bod yn athro yng Nghymru: sefydlu athrawon yn y proffesiwn. Adroddiad annibynnol gan yr Athro Mick Waters. |
| Mawrth 2021 | Cyngor y Gweithlu Addysg (2021), adolygiad o safonau proffesiynol ar gyfer addysgu, arweinyddiaeth a chynorthwyo addysgu yng Nghymru |

**Ffigur 2. Llinell amser cerrig milltir allweddol yn ymwneud â'r safonau**



**I bwy y mae'r safonau'n berthnasol: y gweithlu**

1.28 Mae'n ofynnol i athrawon ysgol a gweithwyr cymorth dysgu gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA) a thalu ffi flynyddol er mwyn parhau i fod yn gofrestredig. Mae CGA yn cyhoeddi 'Crynodeb Ystadegau' blynyddol yn seiliedig ar y data a gedwir yn y Gofrestr Ymarferwyr Addysg. Dengys data o ystadegau blynyddol y gweithlu addysg ar gyfer Cymru 2021 (CGA, 2021) y canlynol:

- Roedd 78,626 o unigolion cofrestredig (roedd 12.1 y cant o'r rhain wedi'u cofrestru mewn categorïau lluosog);
- Roedd 38,668 o unigolion cofrestredig yn gymwys i ymarfer fel gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgol;[9]
- Roedd 38,668 o unigolion cofrestredig yn gymwys i ymarfer fel gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgol;[10]
- Gwelwyd lleihad graddol yn nifer yr athrawon ysgol cofrestredig rhwng 2017 a 2021, sy'n cyfateb i ostyngiad o 4.6 y cant;
- Gwelwyd cynnydd o 16 y cant yn nifer y gweithwyr cymorth dysgu cofrestredig mewn ysgolion o 33,424 yn 2017 i 38,668 yn 2021;
- Roedd dros dri chwarter yr athrawon ysgol (75.7 y cant) a mwyafrif y gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion (86.3 y cant) yn fenywod;
- Nododd mwyafrif yr athrawon ysgol (91.6 y cant) fod eu hethnigrwydd yn wyn.

1.29 Datganodd traean (33.5 y cant) o athrawon ysgol eu bod yn siaradwyr Cymraeg, ac roedd ychydig dros chwarter yr athrawon ysgol yn gallu gweithio drwy gyfrwng Cymraeg (27.1 y cant) sy'n uwch na chanran y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru (19 y cant).

[9] Roedd 4,889 o'r rhain hefyd wedi'u cofrestru fel gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgol.
[10] Roedd 4,889 o'r rhain hefyd wedi'u cofrestru fel athrawon ysgol.

## 2. Methodoleg

2.1 Mae'r adran hon yn rhoi manylion y fethodoleg a fabwysiadwyd yn ystod Blwyddyn 1 y gwerthusiad. Mae hyn yn cynnwys y rhesymeg dros y dull, manylion y gwaith maes, yr heriau a chyfyngiadau'r fethodoleg.

2.2 Mae'r fethodoleg werthuso yn cynnwys ymchwil ansoddol hydredol gyda rhanddeiliaid ac ymarferwyr ochr yn ochr ag adolygiad o'r data sydd ar gael ar weithredu'r safonau.

**Trosolwg o fethodoleg y gwerthusiad a'r sail resymegol drosti**

2.3 Mae ein dull yn seiliedig ar fodel proses sy'n archwilio pob un o'r camau rhesymegol sy'n ofynnol er mwyn i'r safonau gael eu gweithredu'n effeithiol. Yn y lle cyntaf, mae hyn yn cynnwys golygu edrych ar **ymwybyddiaeth a dealltwriaeth** o'r safonau ymhlith ymarferwyr ysgol a rhanddeiliaid. Yna rydym yn edrych ar **sut mae ymarferwyr a rhanddeiliaid wedi defnyddio neu ymateb** i'r safonau o ddydd i ddydd, er enghraifft mewn cynlluniau ysgol neu adrannol ac mewn gweithgaredd dysgu proffesiynol. Mae cam nesaf y dull yn edrych ar **ba mor effeithiol y gweithredwyd y** safonau, gan gynnwys ffactorau ac amodau sy'n eu galluogi ac yn eu rhwystro rhag cael eu gweithredu'n effeithiol.[11] Yna rydym yn edrych ar y farn ynghylch y **cymorth** a ddarperir i hwyluso gweithredu. Yn olaf, mae'r gwerthusiad wedi casglu barn rhanddeiliaid ac ymarferwyr ar yr **effeithiau disgwyliedig** yn sgil gweithredu'r safonau (ynghyd ag unrhyw ddeilliannau cychwynnol a welwyd).

2.4 Datblygwyd model proses drafft ar gyfer y gwerthusiad, yn seiliedig ar amcanion y gwerthusiad. Ei nod yw amlinellu'r elfennau allweddol y mae angen iddynt fod ar waith er mwyn i'r safonau gael eu gweithredu'n llwyddiannus ar wahanol lefelau.

2.5 Yn bennaf, mae'r gwerthusiad wedi mabwysiadu dull ansoddol o gasglu data. Y rhesymeg dros hyn oedd galluogi'r gwerthusiad i gasglu tystiolaeth

[11] Mae canfyddiadau sy'n ymwneud â pha mor effeithiol y gweithredwyd y safonau wedi'u hintegreiddio â chanfyddiadau ar sut y defnyddir y safonau yn Adran 4.

gyfoethog, fanwl i helpu i ddeall ymwybyddiaeth y cyfranogwyr a'r rhanddeiliaid o'r safonau a'u profiadau o ymgysylltu â nhw. Nid yw'r gwerthusiad wedi ceisio casglu data cyffredinol, sy'n ystadegol ddibynadwy o leoliadau ar y safonau, er bod rhywfaint o dystiolaeth feintiol eilaidd o ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad wedi'i chynnwys yn Adran 4 o'r adroddiad hwn.

2.6 Yn ystod y cyfweliadau â'r rhanddeiliaid, ymchwiliwyd i'r posibilrwydd bod data meintiol eilaidd ar gael ar yr ymgysylltiad â'r safonau. Gofynnwyd i'r rhanddeiliaid pa wybodaeth yr oeddent yn ei chasglu ar y defnydd o'r safonau. Er nad oedd y rhanddeiliaid yn gallu darparu data meintiol ar y defnydd o'r safonau gan ysgolion ac ymarferwyr, darparodd y Consortia Addysg Rhanbarthol a CGA ddata ar gymryd rhan mewn digwyddiadau dysgu proffesiynol yn ymwneud â'r safonau. Yn benodol, fe wnaethant ddarparu data ar nifer yr ysgolion sy'n cymryd rhan mewn digwyddiadau hyfforddi ar y 'proffil sefydlu'; dyma un o elfennau allweddol y Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP) ac mae'n seiliedig ar y safonau. Yn dilyn cyfweliadau â'r rhanddeiliaid, gwnaed cais am ddata a gasglwyd gan CGA ar ymgysylltiad ymarferwyr â'r safonau drwy'r PDP ac ar yr hyfforddiant a drefnwyd gan y Consortia Addysg Rhanbarthol mewn perthynas â defnyddio'r proffil sefydlu. Cyflwynir y data hyn yn Adran 4 o'r adroddiad hwn.

**Gwaith maes**

2.7 Yn ystod cyfnod cwmpasu'r prosiect (Ionawr-Ebrill 2020) cynhaliwyd wyth cyfweliad a phedair trafodaeth grŵp gyda chyfanswm o 22 o unigolion o sefydliadau rhanddeiliaid cenedlaethol a rhanbarthol. Roedd y rhain yn cynnwys cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, Estyn, Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA), yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, Darparwyr AGA a'r Consortia Addysg Rhanbarthol. Helpodd y cyfweliadau hyn i lywio datblygiad yr offer ymchwil (Gweler Atodiad A) ar gyfer gwaith maes Blwyddyn 1. Bydd cyfweleion y cam cwmpasu yn cael eu hailgyfweld yn ystod Blwyddyn 2 y gwerthusiad.

Cynhaliwyd gwaith maes Blwyddyn 1 rhwng mis Hydref 2020 a mis Ebrill 2021.[12] Cyfwelwyd â chyfanswm o 83 o ymarferwyr ar draws 20 o ysgolion (gweler Tabl 2), gyda chyfanswm o 49 o randdeiliaid wedi'u cyfweld hefyd.[13] Cynhaliwyd y cyfweliadau o bell dros y ffôn neu ar blatfform rhithwir. Cynhaliwyd y mwyafrif o'r cyfweliadau yn unigol, gyda rhai yn cael eu cynnal mewn parau neu grwpiau bach, yn seiliedig ar ddewisiadau'r cyfweleion.

*Gwaith maes gydag ysgolion*

2.8 Yn ystod y cam cwmpasu, gofynnodd y tîm gwerthuso am farn rhanddeiliaid ar sut i sicrhau y gellid nodi a recriwtio lleoliadau a oedd wedi ymgysylltu â'r safonau mewn amrywiol ffyrdd. Cytunwyd, yn absenoldeb data meintiol ar lefelau ymgysylltu â'r safonau, y byddai angen dull pwrpasol o nodi ysgolion, gan ddefnyddio tystiolaeth ansoddol gan randdeiliaid.

2.9 Yn dilyn y cam cwmpasu, gofynnodd y tîm gwerthuso am restrau o 12 lleoliad gan bob Consortia Addysg Rhanbarthol - chwech yr ystyriwyd eu bod wedi ymgysylltu â'r safonau 'yn helaeth' a chwech yr ystyriwyd eu bod ar 'gam ymgysylltu cynharach' â'r safonau. Rhannwyd nodyn briffio yn egluro'r categorïau hyn â'r Consortia Addysg Rhanbarthol.

| **Grŵp A: Ymgysylltu'n helaeth â'r safonau** | **Grŵp B: Cam ymgysylltu cynharach â'r safonau** |
|---|---|
| Ysgolion yr ystyrir eu bod yn ymgysylltu'n helaeth â'r safonau. Gall hyn gynnwys:<br>• Lefelau uchel o ymgysylltiad â rhaglenni rhanbarthol gyda'r nod o gefnogi'r defnydd o'r safonau;<br>• Ymgorffori'r safonau yn eu dysgu proffesiynol;<br>• Defnyddio iaith y safonau yn ddyddiol;<br>• Athrawon yn cyfleu eu hanghenion dysgu proffesiynol drwy'r safonau;<br>• Athrawon ac arweinwyr yn defnyddio'r safonau i hunanwerthuso a myfyrio ar eu hymarfer. | Ysgolion yr ystyrir eu bod ar gam cynharach o ran eu hymgysylltiad â'r safonau.<br>• Efallai y bydd ambell enghraifft o nodweddion Grŵp A, ond mae'r defnydd o'r safonau yn llai systematig ar draws yr ysgol;<br>• Lefelau is o ymgysylltiad â rhaglenni rhanbarthol gyda'r nod o gefnogi'r defnydd o'r safonau.<br>• Hefyd, mae lefelau cymharol is o wybodaeth a dealltwriaeth o'r safonau ar lefel ysgol gyfan. |

[12] Bwriadwyd dechrau ar y gwaith maes ym mis Mai 2020, ond cafodd ei ohirio o ganlyniad i'r pandemig COVID-19.
[13] O blith y rhain, roedd 40 yn rhanddeiliaid 'cenedlaethol' neu 'ranbarthol' a nodwyd yn ystod y cam cwmpasu ac roedd 9 yn 'rhanddeiliaid sy'n rhoi cymorth i ymarferwyr' a nodwyd gan leoliadau.

2.10 Dewisodd y tîm gwerthuso 20 ysgol o'r 'rhestrau hir' a ddarparwyd gan y Consortia Addysg Rhanbarthol (10 o grŵp A a 10 o grŵp B uchod), a gwahoddwyd lleoliadau i gymryd rhan drwy gysylltu â'r pennaeth. Os nad oedd ysgol yn gallu cymryd rhan yn y gwerthusiad, neu os nad oedd wedi ymateb i'r gwahoddiad, dewiswyd lleoliad arall a oedd â nodweddion tebyg (h.y. rhanbarth, sector, math, cyfrwng) i'r lleoliad a ddewiswyd yn wreiddiol. Dewiswyd y lleoliadau newydd hyn o blith y rhestrau hir i ddechrau ac yna, os nad oedd dewis arall addas ar y rhestrau hyn, fe'u dewiswyd ar hap o restrau o ysgolion a oedd â nodweddion tebyg.

2.11 Dangosir dadansoddiad o'r 20 lleoliad a gymerodd ran ym Mlwyddyn 1 yn ôl categori yn Nhabl 2 isod. Yn ddaearyddol, roedd y lleoliadau o ardal pob Consortiwm Addysg Rhanbarthol wedi'u gwasgaru'n eithaf cyfartal, gyda chwe lleoliad yn cymryd rhan o un rhanbarth, pump yr un o ddau ranbarth a phedwar o ranbarth arall.[14]

2.12 Gofynnwyd i leoliadau a allai 8-10 ymarferydd o amrywiaeth o rolau gymryd rhan mewn cyfweliadau, er nad oedd hyn yn bosibl ym mhob lleoliad. Cyfwelwyd ag o leiaf un uwch arweinydd ym mhob un o'r 20 lleoliad. Mewn 14 o blith yr 20 lleoliad, cyfwelwyd â staff o amrywiaeth o rolau; mewn chwe lleoliad dim ond y pennaeth neu uwch arweinydd yr oedd yn bosibl ei gyfweld.[15] Dangosir dadansoddiad o rolau ymarferwyr hefyd yn Nhabl 2 isod.

[14] Bwriadwyd sicrhau niferoedd cyfartal ym mhob rhanbarth, ond nid oedd hyn yn bosibl am resymau ymarferol yn ymwneud â recriwtio'r sampl.
[15] Yn y lleoliadau hyn, roedd uwch arweinwyr wedi bwriadu i staff eraill gymryd rhan i ddechrau, ond nid oedd yn bosibl trefnu hyn yn ystod cyfnod y gwaith maes.

**Tabl 2. Nifer / math o leoliadau a nifer / rôl yr ymarferwyr sy'n cymryd rhan ym Mlwyddyn 1**

| Math o leoliad | Cyfanswm nifer y lleoliadau | Cyfanswm yr ymarferwyr a gafodd eu cyfweld | Math o rôl ymarferydd | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Uwch arweinwyr | Arweinwyr canol | Athrawon | CA | ANG |
| Ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg | 2 | 5 | 2 | 0 | 1 | 1 | 1 |
| Ysgol gynradd cyfrwng Saesneg | 2 | 7 | 3 | 1 | 1 | 2 | 0 |
| Ysgol gynradd dwy ffrwd | 1 | 7 | 2 | 0 | 2 | 1 | 2 |
| Ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg | 4 | 9 | 5 | 4 | 0 | 0 | 0 |
| Ysgol uwchradd ddwyieithog | 1 | 9 | 3 | 2 | 1 | 2 | 1 |
| Ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg | 3 | 21 | 7 | 4 | 4 | 3 | 3 |
| Ysgol ganol | 2 | 13 | 4 | 5 | 2 | 2 | 0 |
| Ysgol arbennig | 3 | 3 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Uned Cyfeirio Disgyblion | 2 | 9 | 3 | 1 | 2 | 3 | Ddim yn berthnasol |
| **Cyfanswm** | **20** | **83** | **32** | **17** | **13** | **14** | **7** |

2.13 Mae Tabl 2 yn dangos bod cyfweleion o'r mwyafrif o rolau ymarferwyr wedi cael eu cyfweld ym mhob math o leoliad. Yr eithriadau i hyn oedd na chyfwelwyd ag unrhyw athrawon, CA nac ANG mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg ac ysgolion arbennig ym Mlwyddyn 1. Dylid nodi bod arweinwyr canol a gafodd eu cyfweld mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg hefyd yn athrawon wrth eu gwaith, tra bod athrawon yn yr ysgol uwchradd ddwyieithog a gymerodd ran yn dysgu i raddau helaeth drwy gyfrwng Cymraeg. Roedd heriau penodol wrth ymgysylltu ag ysgolion arbennig oherwydd y pandemig Covid-19 (gweler hefyd Adran 2.17), a bydd y gwerthusiad yn ceisio ymgymryd â gwaith maes gydag athrawon a chynorthwywyr addysg mewn ysgolion arbennig (ac ysgolion uwchradd Cymraeg) yn ystod ail flwyddyn yr ymchwil.

*Gwaith maes gyda rhanddeiliaid*

2.14 Cyfwelwyd â chyfanswm o 71 o randdeiliaid yn ystod Blwyddyn 1 y gwerthusiad. Roedd y rhain yn cynnwys: 62 o unigolion o sefydliadau rhanddeiliaid 'cenedlaethol' a 'rhanbarthol' yn ystod y cyfnod cwmpasu, a 9 'rhanddeiliad sy'n rhoi cymorth i ymarferwyr' arall, a awgrymwyd gan leoliadau. Roedd y 71 o randdeiliaid a gafodd eu cyfweld yn ystod Blwyddyn 1 yn cynnwys cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, Estyn, CGA, Consortia Addysg Rhanbarthol, yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysg, undebau addysgu, awdurdodau lleol, SAU, cyrff llywodraethu ysgolion ac eraill.

**Tabl 3. Cyfwelwyd â chyfanswm o 71 o randdeiliaid yn ystod Blwyddyn 1 y gwerthusiad**

| Math o sefydliad rhanddeiliaid | Y nifer a gyfwelwyd |
|---|---|
| Cynrychiolwyr Consortia Addysg Rhanbarthol ac awdurdodau lleol | 28 |
| Llywodraeth Cymru | 9 |
| Cynrychiolwyr AU | 10 |
| Undebau Addysg | 9 |
| Eraill* | 15 |
| **Cyfanswm** | **71** |

*Yn cynnwys CGA, Estyn, yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, llywodraethwyr ysgolion a rhanddeiliaid eraill sy'n ymwneud â llywodraethu ysgolion.

### Dadansoddiad

2.15 Mabwysiadwyd dull fframwaith tuag at ddadansoddi data gwaith maes Blwyddyn 1. Mae hyn yn caniatáu allbynnau strwythuredig o ddata cryno sy'n mynd i'r afael â'r amcanion gwerthuso yn ogystal â'n galluogi i ystyried materion a ddaeth i'r amlwg o'r data ei hun ac nad oeddent efallai wedi'u hystyried o'r blaen. Adolygwyd tystiolaeth i ddechrau yn ystod sesiwn friffio a oedd yn cynnwys yr ymchwilwyr a gynhaliodd y gwaith maes. Fe wnaeth hyn alluogi'r ymchwilwyr i ddod i gytundeb ar y themâu allweddol sy'n deillio o'r dystiolaeth, a fu'n sail i'r dadansoddiad dilynol.

### Heriau a chyfyngiadau methodolegol

2.16 Wrth ddadansoddi'r canfyddiadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn, mae'n bwysig cofio rhai o'r heriau a gafwyd yn ystod Blwyddyn 1 a chyfyngiadau'r dull. Gwnaed gwaith maes Blwyddyn 1 yn ystod y pandemig COVID-19 ac amharwyd yn sylweddol ar ei gynnydd gan yr heriau a'r newidiadau mynych a oedd yn effeithio ar y sector addysg. Nododd llawer o leoliadau nad oeddent yn gallu cymryd rhan yn y gwaith maes, yn aml oherwydd pwysau amser, ansicrwydd a heriau o ddydd i ddydd yn ymwneud â COVID-19. Yn ogystal â hyn, roedd y pandemig yn amlwg yn cyfyngu ar allu lleoliadau ac ymarferwyr i ymgysylltu â'r safonau yn ystod 2020 a 2021; dywedodd yr ymarferwyr yn aml eu bod wedi 'gohirio' llawer o'u gweithgaredd arfaethedig yn ymwneud â'r safonau. Gall natur hydredol y gwerthusiad hwn helpu i liniaru rhai o'r heriau hyn, gan fod cyfle i ailymweld â lleoliadau ym Mlwyddyn 2.

2.17 Amlygwyd diffyg data meintiol er mwyn nodi lleoliadau sydd ar wahanol gamau o ran eu hymgysylltiad â'r safonau yn ystod y cam cwmpasu. Roedd hyn yn cyflwyno heriau wrth nodi a dewis ysgolion i gymryd rhan yn ystod Blwyddyn 1 yn seiliedig ar dystiolaeth o'u hymgysylltiad â'r safonau.

2.18 Mae'n bwysig cydnabod y risg o ragfarn wrth ddethol y sampl o ysgolion sydd wedi cymryd rhan ym Mlwyddyn 1 y gwerthusiad. Efallai y byddai lleoliadau sydd wedi ymgorffori'r safonau'n llawnach yn eu gweithgareddau dysgu proffesiynol wedi bod yn fwy tebygol o gytuno i gymryd rhan yn y gwerthusiad.

2.19 Ceisiodd y gwerthusiad liniaru'r risg hon drwy ofyn am 'restrau hir' o ysgolion gan bob Consortiwm Addysg Rhanbarthol, gan gynnwys lleoliadau yr ystyriwyd eu bod wedi ymgysylltu'n 'helaeth' â'r safonau a'r rhai ar 'gam ymgysylltu cynharach'. Fodd bynnag, cytunodd llai o'r lleoliadau yr ystyriwyd eu bod ar gam ymgysylltu cynharach â'r safonau i gymryd rhan yn y gwerthusiad. Disodlwyd ysgolion nad oeddent yn gallu cymryd rhan yn y sampl gan ysgolion â nodweddion tebyg a ddewiswyd ar hap. Mae risg, ymhlith lleoliadau a ddewisir ar hap, y gallai'r rhai a gytunodd i gymryd rhan

fod wedi ymwneud yn fwy helaeth â'r safonau na'r ysgolion a ddisodlwyd ganddynt yn y sampl. Amlygir hyn i raddau gan y ffaith bod lleoliadau yr ystyriwyd eu bod ar gam ymgysylltu cynharach â'r safonau yn llai tebygol o gytuno i gymryd rhan yn y gwerthusiad.

2.20 Mae risg hefyd o ragfarn wrth ddethol y sampl o ymarferwyr sy'n cymryd rhan. Er bod y tîm gwerthuso wedi gofyn am gyfweliadau ag ystod o ymarferwyr mewn gwahanol rolau ym mhob lleoliad, efallai y byddai uwch arweinwyr wedi bod yn fwy tebygol o ddewis staff yr oeddent yn ystyried eu bod wedi ymwneud yn fwy helaeth â'r safonau. At hynny, mewn rhai lleoliadau mynegodd uwch arweinwyr eu parodrwydd i staff gymryd rhan yn y gwerthusiad a chymryd rhan mewn cyfweliadau eu hunain, ond wedi hynny ni wnaethant ddarparu manylion ymarferwyr eraill yn yr ysgol.[16]

2.21 Mae canfyddiadau Blwyddyn 1 y gwerthusiad yn seiliedig i raddau helaeth ar ddata hunangofnodedig. Mae hyn yn golygu y gallai fod gwahaniaethau yn y ffordd yr oedd ymarferwyr yn dehongli'r cwestiynau a ofynnwyd. Ymysg y problemau'n ymwneud â data hunangofnodedig mae gorliwio neu dan-adrodd ar faterion, a allai gael eu dylanwadu gan amseriad casglu data, sut roedd ymatebwyr yn teimlo ar y pryd neu fethiant i gofio gwybodaeth berthnasol. Felly mae'r canfyddiadau yn aml yn seiliedig ar farn hunangofnodedig oddrychol yr ymarferwyr yn hytrach na mesurau mwy systematig, gwrthrychol sydd wedi'u dilysu.

2.22 Mae hefyd yn bwysig cofio bod natur ansoddol y gwaith maes yn golygu efallai na fydd pob cyfwelai wedi gwneud sylwadau ar yr holl faterion a drafodwyd yn yr adroddiad. Mae hyn yn golygu, pe bai'r rhan fwyaf o'r cyfweleion yn nodi eu bod yn teimlo bod agwedd benodol ar y safonau yn effeithiol, nid yw hynny o reidrwydd yn awgrymu bod eraill yn teimlo bod yr agwedd hon ar y safonau yn aneffeithiol. Dylid cofio hyn wrth ddehongli'r canfyddiadau.

[16] Cytunodd uwch arweinwyr yn yr ysgolion hyn i ddarparu manylion ar gyfer staff i ddechrau, ond ni wnaethant ymateb i geisiadau dilynol am fanylion a threfniadau ar gyfer cyfweliadau.

## 3. Canfyddiadau: ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r safonau

3.1 Mae adrannau 3-6 o'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau Blwyddyn 1 y gwerthusiad mewn perthynas ag:

- ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r safonau ymhlith ymarferwyr ysgol a rhanddeiliaid;
- sut mae ymarferwyr a rhanddeiliaid wedi defnyddio'r safonau neu wedi ymateb iddynt;
- pa mor effeithiol y gweithredwyd y safonau;
- y cymorth a ddarperir i hwyluso eu gweithredu;
- yr effeithiau disgwyliedig yn sgil gweithredu'r safonau (ynghyd ag unrhyw ddeilliannau cychwynnol a welwyd).

3.2 Mae'r adran hon yn amlinellu canfyddiadau'r gwerthusiad mewn perthynas ag ymwybyddiaeth a gwybodaeth o'r safonau. Yn gyntaf, mae'n ystyried barn ymarferwyr ysgol (gan gynnwys arweinwyr ysgol, athrawon dosbarth a staff cymorth) cyn troi i ystyried barn rhanddeiliaid.

**Barn lleoliadau**

*Gwybodaeth a chanllawiau yn ymwneud â'r safonau proffesiynol*

3.3 Nododd arweinwyr ac ymarferwyr ysgol ystod o ffynonellau gwybodaeth a chanllawiau yr oeddent wedi'u defnyddio yn ymwneud â'r safonau. Roedd y rhain yn cynnwys ffynonellau allanol, fel y rhai sydd ar gael ar wefan Hwb, yn ogystal â gwybodaeth fewnol a ddarperir gan arweinwyr ysgol. Ystyriwyd bod ffynonellau gwybodaeth a chanllawiau allanol ar y safonau ar gael yn gyfleus ac yn hygyrch i'r sector. Roedd sawl arweinydd ysgol ac ymarferydd yn cofio cael sesiwn hyfforddi ar y Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP) gan CGA pan gyflwynwyd y safonau gyntaf.

3.4 Cyfeiriodd llawer o ymarferwyr ysgol at yr offeryn ar-lein sydd ar gael ar Hwb gan gofio eu bod wedi cael cyflwyniad ar hyn, boed hynny gan sefydliadau allanol neu gan uwch arweinwyr yn eu hysgol. Er yr ystyriwyd bod yr offeryn rhyngweithiol hwn o ansawdd uchel, nododd rhai ymarferwyr y bu angen 'rhestr' o ddisgrifyddion wedi'i

hargraffu arnynt er mwyn caniatáu iddynt weld y set gyflawn, gan nad oedd yr offeryn rhyngweithiol yn caniatáu hyn.

3.5 Darparodd ysgolion amrywiol enghreifftiau o ffyrdd y cafodd gwybodaeth am y safonau ei lledaenu i ymarferwyr, gan gynnwys:

- yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol: nododd dau bennaeth a oedd yn Gymdeithion yr Academi eu bod wedi meithrin dealltwriaeth ddyfnach o'r safonau drwy eu cyfarfodydd rhwydwaith. Roedd un o'r ysgolion hyn yn Ysgol Arloesi ac wedi chwarae rhan uniongyrchol yn y gwaith o ddatblygu'r safonau.
- Cyfarfodydd clwstwr ysgolion: roedd sawl arweinydd ysgol yn cofio trafod y safonau yn ystod cyfarfodydd clwstwr ysgolion ac wedi cael amryw o gyflwyniadau arnynt.
- Adroddodd mentoriaid sefydlu ANG mewn ysgolion eu bod wedi cael gwybodaeth a chyflwyniadau am y safonau gan y Consortia Addysg Rhanbarthol fel rhan o'u rôl.
- Mewn un ysgol, soniodd CA eu bod wedi cael gwybod am y safonau yn ystod sesiynau hyfforddi'r Consortiwm Addysg Rhanbarthol (hyfforddiant Llwybr Dysgu Cynorthwyydd Addysgu, GCA) a oedd wedi rhoi gwybodaeth iddynt ddychwelyd i'w hysgol i raeadru'r hyn yr oeddent wedi'i ddysgu i CA eraill, gan gynnwys gwybodaeth am y safonau.

*Rôl arweinwyr ysgol o ran hysbysu ymarferwyr am y safonau*

3.6 Mae arweinwyr ysgol wedi chwarae rhan ganolog o ran codi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth o'r safonau ymhlith ymarferwyr. Dywedodd sawl arweinydd ysgol ei fod wedi paratoi a rhannu gwybodaeth wedi'i theilwra i'w staff ar y safonau, gan gynnwys cyflwyniadau a deunyddiau ysgrifenedig. Er enghraifft, roedd un lleoliad wedi paratoi dogfen Excel yn rhestru'r holl safonau gan fod ymarferwyr wedi'i chael hi'n anodd cofio'r wybodaeth o'r model ar-lein sydd ar gael drwy Hwb. Nododd eraill eu bod yn defnyddio ac yn mabwysiadu adnoddau penodol (megis

Xlence, Teaching Continua a deunyddiau a ddarperir gan y Consortia Addysg Rhanbarthol) i gynorthwyo ymarferwyr gyda hunanwerthuso.

3.7 Mae ysgolion yn aml wedi hwyluso sesiynau ar y safonau yn ystod diwrnodau HMS, sesiynau gyda'r hwyr ac wedi dyrannu amser i'w trafod yn ystod cyfarfodydd staff. Canfu’r gwaith maes fod llawer o ysgolion wedi mabwysiadu dull ysgol gyfan o gyflwyno’r safonau i ymarferwyr, yn enwedig y rhai sydd wedi eu hymgorffori mewn trefniadau rheoli perfformiad ers hynny. Roedd llawer o ymarferwyr yn cofio eu bod wedi derbyn cyflwyniadau ar y safonau gan uwch arweinwyr. Nododd llawer hefyd eu bod wedi cael cyfleoedd i drafod y safonau gydag uwch arweinwyr a chydweithwyr, mewn lleoliadau ffurfiol ac anffurfiol. Dywedodd sawl arweinydd ysgol fod y safonau'n darparu fframwaith defnyddiol i ddechrau sgyrsiau am ddatblygiad proffesiynol gyda'u staff.

*Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r safonau*

3.8 Roedd yr ymarferwyr a gyfrannodd at yr astudiaeth yn gyfarwydd â'r safonau. Roedd arweinwyr ysgol yn credu bod ymwybyddiaeth ar draws eu hysgolion yn dda, yn enwedig mewn lleoliadau lle roedd y safonau wedi'u hymgorffori'n llawn yn arferion rheoli perfformiad yr ysgol. Fodd bynnag, nid oedd rhai arweinwyr ysgol o'r farn bod gan yr holl staff ddealltwriaeth fanwl o'r safonau ac awgrymwyd y byddai llawer o ymarferwyr yn ei chael hi'n anodd dwyn i gof y pum safon neu'r chwe gwerth ac ymagwedd.

3.9 Nododd arweinwyr ac ymarferwyr ysgol fod Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG) a'r rhai ar gyrsiau Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) yn gyfarwydd iawn â'r safonau, gan fod dangos sut y maent yn cyrraedd y safonau yn un o ofynion eu rhaglen sefydlu neu eu cwrs, drwy ddefnyddio'r Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP) i gofnodi tystiolaeth. Nododd un cyfwelai fod ANG 'wedi'u trwytho yn y safonau'. Ategwyd hyn yn ystod cyfweliadau ag athrawon a oedd wedi ymuno â'r proffesiwn yn ddiweddar a nododd lefelau uchel o ymwybyddiaeth o'r safonau, gan eu bod wedi gorfod eu defnyddio yn ystod eu cyfnod sefydlu.

3.10 Nodwyd hefyd bod mentoriaid sefydlu ANG a dilyswyr allanol yn dra chyfarwydd â disgrifyddion y safonau, oherwydd yr angen i adolygu cyflawniadau a chynnydd ANG yn eu herbyn. Dywedodd un mentor sefydlu y bu'n ofynnol iddo osod targedau a oedd yn cyd-fynd â'r safonau ar gyfer ei ANG ac adolygu'r dystiolaeth a uwchlwythwyd i'r PDP:

> *'Mae'r safonau'n rhoi ffocws i mi ar gyfer y cyfarfodydd gyda'r ANG ac rydym yn eu defnyddio i gynllunio a thargedu gwahanol agweddau. Mae hyn yn helpu i'w gwneud yn athrawon mwy cyflawn oherwydd rhaid iddyn nhw ddangos eu bod nhw'n eu cyrraedd.'*
>
> **(Uwch arweinydd, Ysgol Uwchradd Ddwyieithog)**

3.11 Adroddodd arweinwyr ac ymarferwyr ysgol yn aml fod llai o ymwybyddiaeth ac adnabyddiaeth o'r safonau ymhlith staff cymorth ac athrawon dosbarth a fu'n gweithio ers tro o'i gymharu ag ymarferwyr eraill. Mewn rhai achosion, roedd y diffyg ymwybyddiaeth ac adnabyddiaeth ymhlith staff cymorth i'w briodoli i'r ffaith nad oedd yr ysgol wedi cyflwyno'r safonau i'r garfan hon fel rhan o brosesau datblygu staff a rheoli perfformiad ffurfiol. Ystyriwyd bod athrawon dosbarth a fu'n gweithio ers tro ac nad oeddent ganddynt uchelgais i gael rôl arweinyddiaeth ffurfiol yn ymgysylltu i raddau llai â'r safonau. Awgrymodd rhai cyfweleion mai'r rheswm am hyn oedd oherwydd bod yr athrawon hyn yn aml yn gweld bod y safonau'n canolbwyntio ar ddilyniant gyrfa a chyfleoedd am ddyrchafiad, yn hytrach na'u dysgu personol a phroffesiynol eu hunain.

*Cymhariaeth â'r safonau blaenorol*

3.12 Roedd arweinwyr ac ymarferwyr ysgol yn croesawu'r safonau ac yn eu hystyried yn welliant sylweddol ar y safonau blaenorol. Nodwyd bod y safonau:

- yn ystyried cryfderau ymarferwyr fel man cychwyn, gan nodi'r pethau y maent yn eu gwneud yn dda ac adeiladu ar y rheini, yn hytrach nag edrych ar wendidau a sut i fynd i'r afael â hwy;
- wedi cael eu crynhoi yn nifer hylaw o ddisgrifyddion, gan ei gwneud yn haws i ymarferwyr eu hystyried yn eu cyfanrwydd;

- yn amlinellu meini prawf a disgrifyddion perthnasol a phriodol.

3.13 Roedd sylwadau a chymariaethau pellach â'r safonau blaenorol a wnaed gan ymarferwyr yn cynnwys y canlynol:

> *'Mae'r safonau newydd yn rhoi ychydig mwy o fanylion ac ychydig mwy o ffocws... roedd yr hen safonau'n fwy beichus, mae'r rhain o leiaf yn teimlo fel eu bod yn haws eu defnyddio.'* **(Arweinydd canol, ysgol uwchradd Saesneg)**

> *'Maen nhw'n well na'r safonau blaenorol... nad oeddent fawr mwy nag ymarfer ticio blychau. Mae'r safonau newydd yn amlinellu'r disgwyliadau, yn glir ac yn syml.'* **(Uwch arweinydd, Uned Cyfeirio Disgyblion)**

> *'Nid yw'r safonau yn rhestr ticio blychau, maen nhw'n ymwneud â nodi'ch cryfderau a'ch gwendidau. Maen nhw wedi'u hanelu at eich gwerthoedd, a dyma sy'n eu gwneud yn wahanol i'r rhai blaenorol.'* **(Athro ysgol gynradd)**

3.14 Roedd cynrychiolwyr o Unedau Cyfeirio Disgyblion yn croesawu'r safonau newydd. Roeddent yn credu bod y safonau'n cynnig mwy o gydraddoldeb rhwng ymarferwyr sy'n gweithio mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion a lleoliadau prif ffrwd ac felly byddent yn ei gwneud yn haws trosglwyddo o un lleoliad i'r llall, ac yn ôl eto. Fe wnaethant egluro ymhellach fod y safonau wedi cael eu croesawu gan staff ac y gwelwyd eu bod yn proffesiynoli eu proffesiwn.

3.15 Dim ond un uwch arweinydd ysgol a ddadleuodd ei bod yn well gan eu hymarferwyr yr hen safonau a'u bod yn teimlo'n fwy cyfforddus â'r rheini. Yn yr achos hwn, credai'r arweinydd ysgol y byddai mwy o cymorth a hyfforddiant i ymarferwyr yn ddefnyddiol i oresgyn y problemau hyn. Nododd uwch arweinwyr ac ymarferwyr eraill fod y safonau newydd yn fwy heriol ond eu bod hefyd yn hyrwyddo sgyrsiau manylach ac ystyrlon ynghylch dysgu proffesiynol (Gweler hefyd Adran 4).

*Geiriad a therminoleg y safonau*

3.16 Roedd un mater allweddol a godwyd gan arweinwyr ac ymarferwyr ysgol yn ymwneud â'r derminoleg a ddefnyddir yn y safonau, gyda sawl un yn dweud bod y

safonau'n 'amleiriog'. Dywedodd sawl ymarferydd, yn enwedig CA, eu bod wedi cael eu llethu gan y gwerthoedd a'r ymagweddau ar y dechrau, gan ychwanegu bod eu deall a'u dirnad wedi bod yn her i ddechrau. Roedd rhai termau, fel arloesi, yn newydd i ymarferwyr, ac esboniodd arweinwyr ysgol eu bod wedi chwarae rhan allweddol o ran helpu ymarferwyr i ddeall y rhain. Cyfeiriodd sawl ymarferydd at yr angen i drafod disgrifyddion y safonau gyda chydweithwyr er mwyn gwella eu dealltwriaeth. Dros amser, nododd yr ymarferwyr eu bod wedi dod yn fwy cyfarwydd ac yn hyderus â'r derminoleg a ddefnyddir ar draws y safonau:

> *'Mae'r safonau'n eithaf cymhleth i'w deall. Rhaid i chi dreulio amser yn edrych arnyn nhw pan fyddan nhw'n newydd i chi. Mae'r iaith yn anodd iawn mewn mannau.'* **(Uwch arweinydd, Ysgol Uwchradd Ddwyieithog)**

3.17 Dywedodd sawl arweinydd ysgol fod y safonau wedi codi ofn ar y staff i ddechrau, yn anad dim oherwydd eu bod wedi cael eu cyflwyno fel model ar-lein a'i bod wedi bod yn anodd iddynt eu gweld ar ffurf rhestr mewn un man. Dywedodd un Cynghorydd Herio fod ymarferwyr wedi cael eu llethu i ddechrau gan yr angen i raddio'u hunain yn erbyn pob disgrifydd o ystyried mai dim ond dau ddiffiniad a ddarparwyd ar gyfer pob un. Fodd bynnag, dros amser ac yn dilyn trafodaethau gyda chydweithwyr, mae ymarferwyr wedi gallu goresgyn y mater hwn drwy 'lenwi'r bylchau' a phenderfynu ble y maent mewn perthynas â'r disgrifyddion.

3.18 Awgrymodd arweinwyr ysgol ei bod wedi bod yn fwy heriol annog CA i ymgysylltu â'r safonau, yn rhannol oherwydd y materion yn ymwneud â'r geiriad a'r derminoleg, ond hefyd oherwydd natur datblygiad proffesiynol ymhlith y garfan hon. Yn hanesyddol mae datblygiad proffesiynol wedi'i gyfyngu i gyrsiau neu ddigwyddiadau hyfforddi penodol ac adroddwyd bod newid meddylfryd staff cymorth ac annog mwy o berchnogaeth a chyfrifoldeb am eu datblygiad yn her. Dadleuodd un uwch arweinydd:

> *'mae'r datganiadau'n ffurfiol iawn. Gallaf werthfawrogi bod angen iddynt fod yn ffurfiol, oherwydd maent i fod yn broffesiynol, ond mae'n golygu bod yn rhaid i chi dreulio llawer o amser yn eu troi'n iaith arferol, bob dydd [ar gyfer CA]'.* **(CALU, Uned Cyfeirio Disgyblion)**

3.19 Roedd CA a gyfrannodd at yr astudiaeth hon yn cydnabod y materion hyn, gan ychwanegu eu bod yn aml wedi cael eu 'brawychu' gan y safonau ar y cychwyn, gan eu bod yn 'eithaf amleiriog' ac yn ymddangos yn fwy perthnasol i athrawon nag i CA. Fodd bynnag, roedd y rhai a oedd wedi bod yn eu defnyddio am gyfnod ac wedi dod yn fwy cyfarwydd â nhw, bellach yn teimlo'n fwy hyderus yn eu defnyddio ac yn eu hystyried yn berthnasol i'w gwaith.

3.20 Canfu’r gwaith maes fod trafodaethau a arweinir gan ysgolion (e.e. yn ystod cyfarfodydd staff a sesiynau HMS) ynghyd â thrafodaethau proffesiynol anffurfiol rhwng ymarferwyr wedi bod yn bwysig o ran gwella dealltwriaeth o’r safonau, a hwyluso dehongliad cyffredin o’u hystyr.

*Barn ar y cydweddiad strategol â datblygiadau polisi eraill*

3.21 Roedd arweinwyr ac ymarferwyr ysgol o'r farn bod y safonau'n cyd-fynd yn dda ag agweddau eraill ar yr agenda ddiwygio, yn enwedig cyflwyno'r cwricwlwm newydd, y ffocws ar ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu a'r ymgyrch i sicrhau mwy o ddysgu proffesiynol ymhlith ymarferwyr. Roedd uwch arweinwyr o'r farn bod y safonau'n 'fwy datblygiadol' na'r safonau blaenorol gan nodi bod hyn yn cyd-fynd ag ethos diwygio'r cwricwlwm.

> *'Rwy'n credu eu bod yn sicr yn well na'r hen safonau - maen nhw'n fwy datblygiadol ac rwy'n hoffi'r ffordd maen nhw'n cysylltu â'i gilydd. Mae'r iaith yn gyson â diwygiadau eraill.'* **(Uwch arweinydd, Ysgol Arbennig)**

3.22 Roedd arweinwyr ac ymarferwyr ysgol fel ei gilydd o'r farn bod cyfatebiaeth dda rhwng y safonau a'r Cwricwlwm i Gymru, o ystyried ei ffocws ar arloesi ac addysgeg, a bod defnydd cyson o iaith a therminoleg gyffredin ar draws y safonau a'r Cwricwlwm fel ei gilydd. Aeth un cyfrannwr o'r fath cyn belled ag awgrymu:

> *'Nid wyf yn credu y gallech fod wedi gweithredu'r cwricwlwm newydd gyda'r hen safonau. Roeddent yn fwy addas ar gyfer 'sialc a siarad' ac mae'r cwricwlwm newydd yn newid dull ac athroniaeth yn llwyr.'* **(Uwch arweinydd, Uned Cyfeirio Disgyblion)**

3.23 Fodd bynnag, roedd rhywfaint o awgrym bod cyflwyno a gweithredu'r safonau wedi cael ei fwrw i'r cysgod gan ddatblygiadau eraill, mwy strategol. Dadleuodd rhai arweinwyr ysgol fod y safonau wedi cael anhawster i gynnal eu hamlygrwydd yn yr hyn a ystyriwyd yn amgylchedd a oedd yn llawn mentrau eraill.

3.24 Er y canolbwyntiwyd yn fwy ar ddatblygiadau eraill, awgrymodd yr ymarferwyr serch hynny fod y gyfatebiaeth a'r gorgyffwrdd helaeth rhwng y safonau a datblygiadau allweddol eraill yn golygu:

> *'hyd yn oed os nad ydym yn siarad amdanynt yn uniongyrchol, maent wedi'u hymgorffori yn ein trafodaethau am y cwricwlwm a'r Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol.'* **(Uwch arweinydd, Uned Cyfeirio Disgyblion)**

3.25 Yn ogystal â hynny, dywedodd arweinwyr ac ymarferwyr ysgol yn gyson y byddai'r ymgysylltiad cynyddol â dysgu proffesiynol ar draws y sector ers y pandemig COVID-19 yn helpu i hyrwyddo ymgysylltiad ymarferwyr â'r safonau. Dywedodd uwch arweinwyr ac ymarferwyr fod y cynnydd mewn gweithgaredd dysgu proffesiynol wedi digwydd oherwydd yr angen uniongyrchol i wella sgiliau a gwybodaeth addysgu digidol ac i ddelio â materion yn ymwneud ag iechyd a llesiant meddyliol disgyblion, yn ogystal ag (yn achos rhai ymarferwyr fel CA) gwneud defnydd da o'r amser nad oeddent yn ei dreulio mewn ystafelloedd dosbarth. Roedd uwch arweinwyr yn disgwyl y byddai eu staff, ymhen amser, yn myfyrio ar y profiadau dysgu proffesiynol hyn, ac yn eu cysylltu â'r safonau.

### Barn rhanddeiliaid

3.26 Mae ymwneud rhanddeiliaid â'r safonau yn amrywio. Mae rhai, yn enwedig Consortia Addysg Rhanbarthol a phartneriaethau AGA, yn chwarae rhan fawr tra bod eraill, gan gynnwys undebau llafur a rhai awdurdodau lleol, yn chwarae llai o ran wrth gynorthwyo ymarferwyr i ymgysylltu â'r safonau.

3.27 Roedd y rhanddeiliaid o'r farn eu bod yn chwarae rhan bwysig o ran codi ymwybyddiaeth o'r safonau a chefnogi ymarferwyr i ymgysylltu â nhw. Mae'r rhain yn cynnwys:

- chwarae rhan allweddol mewn codi ymwybyddiaeth o'r safonau pan gawsant eu cyflwyno gyntaf, gydag Chonsortia Addysg Rhanbarthol ac awdurdodau lleol er enghraifft yn hyrwyddo'r safonau drwy amrywiol gyflwyniadau;
- sicrhau bod safonau wedi'u hymgorffori'n llawn yn y ddarpariaeth AGA, gyda phartneriaethau AGA yn chwarae rhan lawn yn y broses o'u cyflwyno;
- sicrhau bod y safonau wedi'u hymgorffori'n llawn yn narpariaeth ANG, gyda Chonsortia Addysg Rhanbarthol yn cefnogi ANG, mentoriaid sefydlu a dilyswyr allanol i ddeall y safonau;
- sicrhau bod y safonau wedi'u hymgorffori yn narpariaeth hyfforddi arweinwyr canol Consortia Addysg Rhanbarthol megis cyrsiau CPCP, arweinwyr canol, uwch arweinwyr a darpar benaethiaid;
- sicrhau bod y safonau wedi'u hymgorffori yn narpariaeth y Consortia Addysg Rhanbarthol ar gyfer hyfforddiant CALU;
- darparu cymorth drwy Gynghorwyr Herio i arweinwyr ysgol archwilio a gweithredu'r safonau yn eu lleoliadau.

3.28 Croesawyd y safonau gan fwyafrif helaeth y rhanddeiliaid, a oedd o'r farn eu bod yn cynnig agwedd fwy cyfannol, datblygiadol ac uchelgeisiol tuag at y proffesiwn o'i gymharu â safonau blaenorol, yr ystyriwyd eu bod yn canolbwyntio mwy ar atebolrwydd addysgu. Nodwyd mai un o gryfderau'r safonau oedd eu bod yn darparu continwwm datblygu a gwella i'r proffesiwn, a ystyriwyd yn briodol i athrawon newydd yn ogystal ag uwch arweinwyr profiadol.

3.29 Fodd bynnag, roedd nifer fach o randdeiliaid yn fwy beirniadol o'r safonau, gan nodi eu bod, yn eu barn hwy, wedi gwyro oddi wrth y dulliau a ddefnyddir yn y proffesiwn addysgu mewn gwledydd fel Lloegr, yr Alban, Seland Newydd ac Awstralia. Dadleuodd y rhanddeiliaid hyn fod y safonau braidd yn anghyson â'r dulliau rhyngwladol eraill hyn. Gwelwyd bod y modelau a ddefnyddir yn gyffredin ar draws y gwledydd hyn (y cyfeirir atynt fel y model 'gwybod, deall, gwneud' neu'r model 'gwybod, sut a gwneud') yn haws eu defnyddio na'r safonau, a oedd, o'u cymharu, yn cael eu hystyried yn 'fodel cymhleth'. Er eu bod yn cytuno â'r angen i osgoi 'dull

ticio blychau', awgrymodd y rhanddeiliaid hyn fod y safonau wedi 'mynd braidd yn rhy bell i'r cyfeiriad arall'.

3.30 Teimlai rhai rhanddeiliaid fod llunio'r safonau fel model datblygiadol, cyfannol ac uchelgeisiol wedi creu problemau ar gyfer darpariaeth AGA. Nododd y rhanddeiliaid hyn fod y safonau'n rhy eang i ddarparwyr eu defnyddio'n effeithiol wrth wneud penderfyniadau ynghylch a ddylai myfyriwr gyflawni SAC ar ddiwedd y cwrs. Credai rhai bod defnyddio'r safonau i asesu deilliannau dysgu yn mynd yn groes i ethos y safonau gan ddadlau y byddai meini prawf mwy penodol â throthwyon clir yn ei gwneud yn haws i ddarparwyr ddyfarnu SAC.

3.31 Roedd y rhanddeiliaid o'r farn, er bod ymwybyddiaeth o'r safonau ar draws ysgolion wedi cynyddu dros amser ers iddynt gael eu cyflwyno gyntaf, roedd eu dealltwriaeth ohonynt yn amrywio. Credwyd bod rhai ysgolion yn defnyddio'r safonau'n dda iawn, yn enwedig ysgolion Arloesi ac ysgolion Partneriaeth AGA, ond gallai eraill fod yn ymwybodol o'r safonau ond heb ymgysylltu'n helaeth â nhw'n eto. Dywedodd y rhanddeiliaid fod COVID-19 wedi gohirio cynlluniau gweithredu dros y flwyddyn ddiwethaf, er bod rhai datblygiadau, yn enwedig gweithgaredd dysgu proffesiynol yn ymwneud ag arloesi, wedi'u cyflymu. Nododd y rhanddeiliaid mai'r carfannau mwyaf gwybodus oedd myfyrwyr AGA, ANG, mentoriaid sefydlu, dilyswyr allanol, arweinwyr ysgol a'r rhai sy'n datblygu eu gyfa'n rhagweithiol o fewn y proffesiwn. Dywedodd y rhanddeiliaid mai athrawon dosbarth profiadol a chynorthwywyr addysgu oedd yn ymgysylltu leiaf â'r safonau.

**Crynodeb o'r canfyddiadau: ymwybyddiaeth a gwybodaeth**

- Mae ystod o wybodaeth, canllawiau ac offer hunanwerthuso ar gael o wahanol ffynonellau i hysbysu ymarferwyr am y safonau, a chaiff y rhain eu defnyddio'n eang. Mae ymarferwyr hefyd yn dibynnu'n fawr ar wybodaeth ac adnoddau ar lefel ysgol wrth ymgysylltu â'r safonau.
- Mae arweinwyr ysgol yn chwarae rhan allweddol o ran codi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth o'r safonau ymhlith staff ac mae ysgolion yn cynnal sesiynau HMS a chyfarfodydd staff ar y safonau.

- Roedd arweinwyr ac ymarferwyr ysgol a gyfrannodd at yr astudiaeth yn gyfarwydd iawn â'r safonau, er bod adborth gan randdeiliaid yn awgrymu bod lefelau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth yn fwy amrywiol nag ymysg sampl yr astudiaeth.
- Yr ymarferwyr sydd fwyaf cyfarwydd â'r safonau yw ANG, myfyrwyr AGA, mentoriaid sefydlu ANG a dilyswyr allanol. Staff cymorth ac athrawon dosbarth profiadol, hirsefydlog yw'r lleiaf cyfarwydd â nhw.
- At ei gilydd, mae barn ymarferwyr am y safonau'n fwy cadarnhaol na'u barn am safonau blaenorol ac maent yn ystyried eu bod yn fwy hylaw ac yn caniatáu iddynt adeiladu ar eu cryfderau fel ymarferwyr. Mae'r rhanddeiliaid yn eu hystyried yn ddull mwy cyfannol, datblygiadol ac uchelgeisiol na'r safonau blaenorol.
- Mae ymgysylltu â'r safonau wedi bod yn llethol i rai ymarferwyr, yn enwedig cynorthwywyr addysgu, oherwydd y defnydd o derminoleg ac iaith anghyfarwydd, ond dywedwyd bod rhai ymarferwyr wedi magu hyder gyda'r derminoleg dros amser.
- Mae'r safonau wedi'u cysoni'n dda iawn â datblygiadau polisi allweddol eraill, yn enwedig y Cwricwlwm i Gymru, ond mae'r broses o'u hyrwyddo a'u gweithredu wedi cael ei bwrw i'r cysgod gan y datblygiadau strategol eraill hyn.
- Mae cymhwyso'r safonau ar draws darpariaeth AGA wrth ddyfarnu SAC yn creu heriau i ddarparwyr, gan eu bod yn rhy eang i'w defnyddio fel mecanwaith pasio neu fethu effeithiol wrth benderfynu dyfarnu SAC i fyfyriwr.

## 4. Y defnydd o'r safonau

4.1 Mae'r adran hon yn amlinellu canfyddiadau'r gwerthusiad mewn perthynas â defnyddio'r safonau. Mae'n defnyddio data eilaidd gan CGA a chanfyddiadau cyfweliadau ansoddol Blwyddyn 1 gydag ysgolion a rhanddeiliaid.

**Data ar yr ymgysylltiad â'r safonau**

4.2 Cyfyngedig yw'r data sydd ar gael ar ymgysylltiad ymarferwyr â'r safonau. Ar lefel genedlaethol, casglwyd data ar yr ymgysylltiad â'r safonau blaenorol drwy Arolwg Cenedlaethol o'r Gweithlu Addysg (CGA, 2017), ac roedd rhywfaint o ddata hefyd yn cael eu casglu drwy'r Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP). Rhoddir trosolwg o ddata'r Arolwg Cenedlaethol o'r Gweithlu Addysg a data ar ddefnydd PDP isod yn ogystal â data ar ymgysylltu â hyfforddiant a ddarperir gan randdeiliaid.


*Arolwg Cenedlaethol o'r Gweithlu Addysg* [17]

4.3 Gofynnodd Arolwg Cenedlaethol o'r Gweithlu Addysg 2017 i athrawon ysgol a oeddent wedi defnyddio'r safonau 'Athrawon wrth eu Gwaith' blaenorol neu safonau 'Arweinyddiaeth' yn ystod y 12 mis diwethaf.[18] Gwnaed gwaith maes ym mis Ionawr 2017, cyn i'r safonau newydd fod ar gael i'r holl athrawon. Canfu'r ymchwil y canlynol:

- Nododd 34.9 y cant o athrawon ysgol nad oeddent wedi defnyddio'r safonau 'Athrawon wrth eu Gwaith' neu'r safonau arweinyddiaeth presennol wrth osod amcanion, cynllunio datblygiad neu adolygu perfformiad yn ystod y 12 mis diwethaf.
- Roedd 34.9 y cant o athrawon ysgol a ymatebodd wedi defnyddio'r safonau 'Athrawon wrth eu Gwaith' neu'r safonau arweinyddiaeth presennol wrth osod amcanion, cynllunio datblygiad neu adolygu perfformiad yn ystod y 12 mis diwethaf o'i gymharu â 57.9 y cant nad oeddent wedi defnyddio'r safonau.[19]

[17] Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn (Mai 2021), roedd Arolwg Cenedlaethol o'r Gweithlu Addysg 2021 yn cael ei gynnal gan CGA. Disgwylir y bydd data o'r arolwg hwn ar gael yn ystod ail flwyddyn y gwerthusiad.
[18] Cyngor y Gweithlu Addysg (2017). *Arolwg Gweithlu Addysg Cenedlaethol: Adroddiad Ymchwil.*
[19] Cafwyd ymatebion gan 10,408 o unigolion (14.4 y cant o ymarferwyr).

**Ffigur 3. Ymatebion athrawon ysgol i'r cwestiwn: 'Ydych chi wedi defnyddio safonau "Athrawon wrth eu Gwaith" neu safonau "Arweinyddiaeth" Llywodraeth Cymru, wrth osod eich amcanion, cynllunio eich datblygiad proffesiynol neu adolygu eich perfformiad, yn ystod y 12 mis diwethaf? (dewiswch un)'.**




N=5,115[20]

Ffynhonnell: Adroddiad Ymchwil Arolwg Gweithlu Addysg Cenedlaethol (CGA, 2017).

4.4 Er bod y data uchod yn seiliedig ar sampl o athrawon, ac yn seiliedig ar y safonau blaenorol, mae'n darparu gwybodaeth gyd-destunol ddefnyddiol am ganfyddiad athrawon o'u hymgysylltiad â'r safonau hynny.

*Hyfforddiant*

4.5 Mae'r Consortia Addysg Rhanbarthol wedi cyflwyno digwyddiadau briffio a hyfforddiant i ymarferwyr yn ymwneud â'r safonau. Mae'r rhain wedi canolbwyntio ar godi proffil y safonau yn ogystal â hyfforddi ymarferwyr ac eraill i ymgysylltu â'r safonau fel rhan o'u datblygiad proffesiynol. Mewn rhai achosion, cyflwynwyd sesiynau briffio neu raglenni penodol yn ymwneud â'r safonau.[21] Yn ogystal, mae

[20] Yn 2017, roedd 36,426 o athrawon ysgol cofrestredig. Byddai'r 5,115 o ymatebion i'r cwestiwn hwn wedi cynrychioli 14 y cant o'r holl athrawon ysgol cofrestredig ar y pryd.
[21] Er enghraifft, cyflwynodd Consortiwm Canolbarth y De weithgaredd dysgu proffesiynol fel rhaglen benodol mewn perthynas â'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysg ac Arweinyddiaeth i 139 o ymarferwyr mewn traean (35 y cant) o ysgolion yn ystod 2018/19.

cyrsiau a ddarperir gan y Consortia Addysg Rhanbarthol wedi'u strwythuro i gynnwys ymgysylltu â'r safonau.

4.6 Mae CGA yn cynnal arddangosiadau o'r Pasbort Dysgu Proffesiynol (gweler 5.3.3 isod) i ysgolion. Mae ysgolion yn gwneud cais am yr arddangosiadau hyn a chânt eu trefnu drwy'r Consortia Addysg Rhanbarthol. Cyflwynwyd arddangosiadau o'r PDP i gyfanswm o 51 o sefydliadau, gan gynnwys 45 o ysgolion yn 2019/20 ac i 10 sefydliad, gan gynnwys 9 ysgol, yn 2020/21.[22] Mae sesiynau arddangos hefyd wedi'u cyflwyno i sefydliadau eraill gan gynnwys undebau addysgu a darparwyr AGA, gyda gwybodaeth am y PDP hefyd wedi'i darparu i sefydliadau drwy CGA sy'n mynychu marchnadoedd mewn cynadleddau cenedlaethol. Yn ogystal â hynny, cyflwynwyd arddangosiadau o'r proffil sefydlu, elfen allweddol o'r PDP, gan y Consortia Addysg Rhanbarthol i 39 grŵp o ymarferwyr (e.e. ANG, dilyswyr allanol) yn 2019/20 a 43 o grwpiau o'r fath yn 2020/21. Er nad yw'r sesiynau arddangos hyn yn canolbwyntio'n benodol ar y safonau, mae'r PDP yn cynrychioli un o'r prif ffyrdd y gall athrawon ymgysylltu â'r safonau.

*Y defnydd o'r Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP)*

4.7 Mae CGA yn cynnig pasbort dysgu proffesiynol ar-lein (PDP) i ymarferwyr cofrestredig er mwyn myfyrio ar eu hymarfer a chofnodi eu gweithgaredd dysgu proffesiynol. Ariennir y PDP gan Lywodraeth Cymru, a gall unigolion cofrestredig gael mynediad ato drwy eu cyfrif ar-lein neu drwy'r ap 'Pebblepad'. Mae PDP pob defnyddiwr yn cynnwys templedi dysgu proffesiynol a 'gweithlyfr safonau' lle y gall ymarferwyr fapio eu profiadau dysgu proffesiynol ac uwchlwytho tystiolaeth yn erbyn pob un o'r safonau. Mae'n bwysig cydnabod nad yw defnyddio'r PDP o reidrwydd yn adlewyrchu lefelau ymgysylltiad â'r safonau, oherwydd gall ymarferwyr fewngofnodi i'r platfform i gofnodi tystiolaeth o'u gweithgaredd dysgu proffesiynol heb ei fapio i'r safonau. Fodd bynnag, mae data ar ddefnyddio'r platfform, a ddyluniwyd i hwyluso ymgysylltiad â'r safonau, yn rhoi dealltwriaeth ddefnyddiol o ymddygiad athrawon o ran cofnodi eu datblygiad.

[22] Er bod CGA yn cynnig sesiynau rhithiol i ysgolion yn ystod 2019/20 a 2020/21, effeithiwyd yn sylweddol ar nifer y sesiynau a gyflwynwyd gan y pandemig COVID-19, yn enwedig yn 2020/21.

*Athrawon a gweithwyr cymorth dysgu sy'n defnyddio'r PDP*

4.8 Mae CGA yn cadw data ar nifer yr athrawon ysgol a gweithwyr cymorth dysgu cofrestredig sy'n defnyddio'r PDP. Dadansoddir y data hyn isod yn cynnwys cyfanswm yr unigolion cofrestredig sydd wedi:

- creu eu PDP eu hunain;
- mewngofnodi i'r PDP yn ystod y tri mis, y chwe mis neu'r deuddeg mis diwethaf;
- creu neu uwchlwytho 'asedau' (tystiolaeth o'u datblygiad proffesiynol) ar y PDP.


4.9 Dengys y data ar gyfer mis Mawrth 2021 fod 13,923 o athrawon cofrestredig (gan gynnwys penaethiaid ac ANG) a 10,652 o weithwyr cymorth dysgu wedi creu eu PDP eu hunain.[23] Mae hyn yn cynrychioli 40 y cant o'r holl athrawon cofrestredig a 28 y cant o'r holl weithwyr cymorth dysgu cofrestredig ym mis Mawrth 2021. Dadansoddir data ar gyfer y ddau grŵp hyn o ymarferwyr ar wahân isod.

4.10 Dengys y data y bu cynnydd o 25 pwynt canran yng nghanran yr athrawon ysgol sydd wedi creu eu PDP eu hunain rhwng 2017 (pan ddechreuwyd defnyddio'r PDP fel rhan o raglen sefydlu athrawon) a 2021. Yn ystod y cyfnod hwn, cynyddodd nifer yr athrawon ysgol sydd wedi creu eu PDP eu hunain o:

- 4,876 o blith 36,426 (13.4 y cant o'r holl athrawon ysgol) yn 2017; i
- 13,923 o blith 34,766 (40.0 y cant o'r holl athrawon ysgol) yn 2021.

[23] Mae 2,783 o ddefnyddwyr PDP wedi'u cofrestru fel athrawon yn ogystal â gweithwyr cymorth dysgu, ac maent wedi'u cynnwys yn y ddau gategori.

**Ffigur 4. Nifer a chanran yr athrawon sydd wedi creu eu PDP eu hunain**





Ffynhonnell: CGA.

4.11 Nid yw'n bosibl cyfrifo cyfran yr athrawon cwbl gymwys (h.y. yn seiliedig ar y rhai sydd wedi cwblhau eu cyfnod sefydlu yn unig) sydd wedi creu eu PDP eu hunain. Fodd bynnag, mae'n bosibl archwilio'r cofnodion PDP a nodweddion y rhai sydd wedi creu cyfrifon. Mae data ar gyfer mis Mawrth 2021 yn dangos, o blith yr ymarferwyr hynny sydd wedi creu eu PDP eu hunain, bod y mwyafrif helaeth (83 y cant) wedi cyflawni SAC cyn mis Medi 2018; byddai'r grŵp hwn yn cynnwys athrawon a gwblhaodd eu blwyddyn sefydlu yn ystod 2017/18 neu 2018/19, neu'n gynharach. Fe wnaeth yr 16 y cant o'r ymarferwyr sy'n weddill ac sydd wedi creu eu PDP eu hunain gyflawni SAC o fis Medi 2018 ymlaen, gan gynnwys y garfan gyfredol o ANG. Mae cyfrannau'r ymarferwyr mwy profiadol (h.y. y rhai sydd wedi bod yn gofrestredig am gyfnod hwy) sydd wedi creu PDP yn debygol o gynyddu dros amser, oherwydd mae athrawon sy'n gorfod creu un yn ystod eu cyfnod sefydlu yn cynrychioli cyfran gynyddol o'r rhai sydd wedi creu eu PDP eu hunain.

4.12 Dengys Ffigur 5 isod, o blith yr ymarferwyr sydd wedi creu eu PDP eu hunain, fod y mwyafrif yn athrawon cwbl gymwysedig, a bod cyfran yr ymarferwyr sydd wedi creu eu PDP eu hunain sy'n ANG wedi lleihau dros amser, wrth i gyfanswm y defnyddwyr gynyddu. Gellir priodoli'r cynnydd yn nifer yr ymarferwyr sydd wedi creu eu PDP eu hunain dros amser i fwy o athrawon cwbl gymwysedig yn creu eu PDP eu hunain; fodd bynnag, mae'n debygol y gellir priodoli canran fawr o'r twf hwn i'r ffaith bod ANG sy'n defnyddio'r PDP wedi cymhwyso'n llawn, ac felly'n newid categori yn y data. Cynyddodd nifer yr athrawon newydd gymhwyso (ANG) o 1,533 i 1,979 rhwng 2017 a 2021, a chynyddodd nifer yr athrawon cwbl gymwysedig sydd wedi creu eu PDP eu hunain o 3,343 i 11,994 dros yr un cyfnod. Os tybiwn fod pob ANG a oedd yn defnyddio'r PDP rhwng 2017 a Mawrth 2020 (7,012) yn parhau i fod â chyfrifon PDP gweithredol ac wedi cwblhau eu cyfnod sefydlu erbyn mis Mawrth 2020, byddai'r rhain yn cyfrif am 59 y cant o'r holl athrawon cwbl gymwysedig sydd wedi creu eu PDP eu hunain. yn 2021.

**Ffigur 5. Nifer yr athrawon a greodd eu PDP eu hunain 2017-2021: ANG a'r holl athrawon eraill**





Ffynhonnell: Ystadegau Pasbort Dysgu Proffesiynol CGA ar gyfer Llywodraeth Cymru, 2021

4.13 Mae data ar weithwyr cymorth dysgu yn dangos bod y ganran sydd wedi creu eu PDP eu hunain wedi cynyddu o 12 y cant o'r holl unigolion cofrestredig yn 2018 i 27

y cant yn 2021. Mae'r cynnydd hwn o 13 pwynt canran yn llai na'r cynnydd i athrawon dros yr un cyfnod. Yn ystod y cyfnod hwn, cynyddodd nifer y gweithwyr cymorth dysgu sydd wedi creu eu PDP eu hunain o:

- 4,186 o blith 33,662 (12.4 y cant o'r holl weithwyr cymorth dysgu) yn 2018; i
- 10,652 o blith 38,594 (12.4 y cant o'r holl weithwyr cymorth dysgu) yn 2021.

**Ffigur 6. Nifer a chanran y gweithwyr cymorth dysgu sydd wedi creu eu PDP eu hunain**




Ffynhonnell: CGA

*Defnyddwyr yn mewngofnodi i'r PDP*

4.14 Dengys data gan CGA fod ychydig yn llai na hanner yr athrawon sydd wedi creu eu PDP eu hunain (41 y cant) wedi mewngofnodi i'r platfform yn ystod y deuddeg mis hyd fis Mawrth 2021. Roedd ychydig yn llai na chwarter yr athrawon sydd wedi creu eu PDP eu hunain (24 y cant) wedi mewngofnodi rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth 2021. Ymhlith gweithwyr cymorth dysgu sydd wedi creu eu PDP eu hunain, roedd 61 y cant wedi mewngofnodi yn ystod y deuddeg mis hyd fis Mawrth 2021, gydag ychydig yn llai na thraean yn mewngofnodi i'r platfform rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth

2021. Dengys y tabl isod sawl gwaith y bu i athrawon a gweithwyr cymorth dysgu fewngofnodi dros y deuddeg mis diwethaf. Mae'r ffigurau'n cynrychioli'r dyddiad mewngofnodi olaf ar gyfer ymarferwyr sydd wedi creu eu cyfrifon eu hunain dros y cyfnod o ddeuddeng mis fesul cyfrif unigol.

**Tabl 4. Nifer a chanran y troeon y bu i ymarferwyr sydd wedi creu eu PDP eu hunain fewngofnodi**

| Dyddiad mewngofnodi diweddaraf (ym mis Mawrth 2021) | Athrawon | Gweithwyr cymorth dysgu |
|---:|---:|---:|
| Ebrill - Mehefin 2020 | 865 (6.2%) | 1,075 (10.1%) |
| Gorffennaf - Medi 2020 | 904 (6.5%) | 1,025 (9.6%) |
| Hydref - Rhagfyr 2020 | 1,061 (7.6%) | 1,093 (10.3%) |
| Ionawr - Mawrth 2021 | 2,844 (20.4%) | 3,321 (31.2%) |
| **Cyfanswm y defnyddwyr a fewngofnododd i'r PDP Ebrill 2020 - Mawrth 2021** | **5,674 (40.8%)** | **6,514 (61.2%)** |
| **Cyfanswm y defnyddwyr sydd wedi creu eu PDP eu hunain** | **13,923 (100.0%)** | **10,652 (100.0%)** |


Ffynhonnell: CGA

*Asedau a uwchlwythwyd i'r PDP*

4.15 Gall ymarferwyr sydd wedi creu eu PDP eu hunain uwchlwytho tystiolaeth o'u gweithgaredd dysgu proffesiynol i'r platfform (y cyfeirir ato fel 'asedau') a mapio hyn yn erbyn y safonau. Mae'r siart isod yn dangos cyfanswm yr asedau a gafodd eu huwchlwytho neu eu creu gan ddefnyddwyr yr holl grwpiau cofrestredig. Ymhlith yr asedau mae dogfennau Word, tystysgrifau wedi'u sganio ar gyfer gweithgaredd dysgu proffesiynol a gwblhawyd neu eu proffil sefydlu. Nid oes data ar gael sy'n dangos nifer yr asedau a uwchlwythwyd gan ymarferwyr mewn gwahanol rolau a sectorau. Dengys y data asedau gan CGA fod nifer yr asedau a uwchlwythwyd ar y PDP rhwng y cyfnod Ebrill - Mehefin 2019 ac Ionawr - Mawrth 2021 wedi treblu o 429,541 o asedau ym mis Mehefin 2020, i 1,288,374 o asedau ym mis Mawrth

2021. Yn ogystal, mae nifer yr asedau a uwchlwythwyd fesul unigolyn cofrestredig sydd wedi creu ei PDP ei hun wedi cynyddu o 37 yn y cyfnod Ionawr - Mawrth 2020 i 52 yn y cyfnod Ionawr - Mawrth 2021.

**Ffigur 7. Cyfanswm yr asedau a uwchlwythwyd / a grëwyd gan ymarferwyr sydd wedi creu eu PDP eu hunain 2019-21**




Ffynhonnell: CGA

*Y defnydd o'r PDP gan y sector addysg*

4.16 Mae CGA yn cadw data ar y sector addysg y mae ymarferwyr sydd wedi creu eu PDP eu hunain yn cael eu cyflogi ynddo (os yw cofrestreion wedi nodi eu cyflogwr wrth gofrestru). Mae data ar gyfer 2021 ar athrawon sydd wedi creu eu PDP eu hunain yn dangos bod 37 y cant wedi'u cyflogi mewn ysgolion cynradd.[24] Mae hyn yn debyg i ganran yr holl athrawon ysgol cofrestredig sy'n cael eu cyflogi yn y sector cynradd (38 y cant).[25] Dengys y data fod 34 y cant o athrawon ysgol sydd wedi creu eu PDP eu hunain wedi'u cyflogi mewn ysgolion uwchradd, ychydig yn uwch na chanran yr holl athrawon a gyflogir yn y sector uwchradd (31 y cant). Roedd canran yr ymarferwyr a gyflogir mewn sectorau eraill sydd wedi creu eu PDP eu hunain

[24] Yn seiliedig ar ddefnyddwyr y PDP a oedd hefyd wedi darparu manylion am eu cyflogwr.
[25] Yn seiliedig ar Ystadegau Blynyddol y Gweithlu Addysg i Gymru 2021.

hefyd yn cynrychioli'r holl ymarferwyr yn fras; mae hyn felly'n dangos bod proffil defnyddwyr PDP yn ôl sector cyflogaeth yn weddol debyg i broffil y gweithlu cyfan.

4.17 O ran y defnydd o'r PDP yn ôl sector, awgryma'r tabl isod fod y defnydd o'r PDP, o ran y rhai sydd wedi creu eu PDP eu hunain, ar ei uchaf mewn ysgolion canol, lle mae 59 y cant o athrawon cofrestredig wedi creu eu PDP eu hunain ar y platfform. Mae rhwng 35 a 40 y cant o ymarferwyr ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig wedi creu eu PDP eu hunain ac ymddengys fod y ganran hon yn is ymhlith ymarferwyr Unedau Cyfeirio Disgyblion, ble mae 22 y cant o ymarferwyr cofrestredig wedi creu eu PDP eu hunain.

**Tabl 5. Nifer a chanran defnyddwyr y PDP yn ôl sector addysg***

| Sector | Nifer y defnyddwyr: Mawrth 2021 (Colofn 1) | Canran defnyddwyr y PDP: Mawrth 2021 (Colofn 2) | Cyfanswm yr athrawon ysgol sydd wedi'u cofrestru â CGA (2021) (Colofn 3) | Canran yr holl athrawon ysgol sy'n defnyddio'r PDP (Colofn 4 = Colofnau 1 ÷ 3) |
|---|---|---|---|---|
| Cynradd | 4,675 | 46.3% | 13,299 | 35.2% |
| Uwchradd | 4,277 | 42.3% | 11,246 | 38.0% |
| Arbennig | 317 | 3.1% | 812 | 39.0% |
| Canol | 713 | 7% | 1,208 | 59.0% |
| Uned Cyfeirio Disgyblion | 38 | 0.4% | 174 | 21.8% |
| Annibynnol | 81 | 0.8% | 186 | 43.5% |
| Arall | 35 | 0.3% | 4,956** | 0.7%** |
| **Cyfanswm** | **10,106*** | **100%** | **31,881**** | **31.7%**** |

*Yn seiliedig ar unigolion cofrestredig ar y PDP y mae CGA yn cadw data cyflogaeth ar eu cyfer, ac sy'n rhestru eu prif gyflogwr fel ysgol.

**Yn cynnwys athrawon cyflenwi ac 'Eraill sydd mewn swydd'. Mae 'Eraill sydd mewn swydd' yn cynnwys athrawon cyflenwi drwy awdurdod neu asiantaeth leol, athrawon peripatetig ac athrawon ymgynghorol. Nid yw'n cynnwys 2,885 a gategoreiddiwyd gan CGA fel 'Eraill nad ydynt mewn swydd'. Mae 'Eraill nad ydynt mewn swydd' yn cynnwys athrawon wedi ymddeol, cofrestreion a gyflogir mewn rolau cymorth neu addysg bellach a'r rheini heb gyflogaeth wedi'i chofnodi.

Ffynhonnell: CGA

*Cyfrifon PDP a grëwyd yn ôl lleoliad y cyflogwr*

4.18 Noda mwyafrif llethol (83 y cant) yr athrawon a'r mwyafrif o weithwyr cymorth dysgu (63 y cant) mai awdurdod lleol yng Nghymru yw eu prif gyflogwr.[26] Ymhlith yr ymarferwyr hyn, mae dadansoddiad o ganran yr athrawon sydd wedi creu eu PDP eu hunain yn ôl awdurdod lleol eu cyflogaeth yn dangos bod rhwng 32 y cant (y ffigur isaf, ym Mhen-y-bont ar Ogwr) a 54 y cant (yr uchaf, yn Sir Benfro) wedi gwneud hynny ym mhob awdurdod lleol. Ymhlith gweithwyr cymorth dysgu, mae rhwng 10 y cant (yng Ngwynedd) a 34 y cant (yn Nhorfaen) wedi creu eu PDP eu hunain.

*Sgiliau Cymraeg defnyddwyr PDP*

4.19 Dengys y data fod traean (33 y cant, 4,405 o blith 13,498) o'r rhai sydd wedi creu eu PDP eu hunain ac sy'n athrawon ysgol cofrestredig wedi datgan wrth gofrestru eu bod yn siaradwyr Cymraeg. Mae hyn yn debyg i ganran yr holl athrawon cofrestredig a nododd eu bod yn siaradwyr Cymraeg yn 2021 (34 y cant). Roedd dros chwarter (26 y cant) o'r rhai sydd wedi creu eu PDP eu hunain ac a oedd yn athrawon yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (3,456 o blith 13,498). Mae hyn yn debyg i'r 27 y cant o'r holl athrawon a ddywedodd y gallent addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2021.[27] Mae'r data felly'n dangos bod athrawon sydd wedi creu eu PDP eu hunain yn cynrychioli'r holl athrawon yn fras o ran eu sgiliau Cymraeg.

4.20 Dengys y data fod 18 y cant o'r gweithwyr cymorth dysgu sydd wedi creu eu PDP eu hunain (1,174 o blith 6,657) yn siaradwyr Cymraeg. Mae hyn yn debyg i ganran yr holl weithwyr cymorth dysgu cofrestredig a nododd eu bod yn siaradwyr Cymraeg yn 2021 (20 y cant). Yn ogystal, nododd 14 y cant o weithwyr cymorth dysgu sydd wedi creu eu PDP eu hunain y gallent weithio drwy gyfrwng y Gymraeg (1,174 o blith 6,657).[28] Mae hyn yn cyfateb yn fras i ganran yr holl weithwyr cymorth dysgu a

[26] Mae mwyafrif y bobl eraill yn nodi mai asiantaeth gyflenwi yw eu cyflogwr.
[27] Gweler Ystadegau Blynyddol y Gweithlu Addysg CGA ar gyfer Cymru 2021.
[28] Nid yw CGA yn cyhoeddi data ar nifer yr athrawon ysgol sy'n dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, dim ond y nifer sydd â'r gallu i wneud hynny.

nododd y gallent weithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2021 (17 y cant).[29] Dengys y data felly bod y rhai sydd wedi creu eu PDP eu hunain yn cynrychioli'n fras yr holl weithwyr cymorth dysgu o ran eu sgiliau Cymraeg.

**Sut y mae lleoliadau yn adrodd eu bod wedi defnyddio'r safonau**

4.21 Defnyddir y safonau mewn amrywiaeth o gyd-destunau gan ymarferwyr a rhanddeiliaid. Dywedodd y rhai a gyfwelwyd ym mhob lleoliad eu bod wedi ymgysylltu â'r safonau mewn rhyw ffordd, er bod maint y defnydd yn amrywio'n sylweddol. Darparodd y rhai a gyfwelwyd ystod o enghreifftiau o sut yr oeddent wedi ymgysylltu â'r safonau. Disgrifir y rhain yn yr adrannau isod, ac roeddent yn cynnwys defnyddio'r safonau:

- fel rhan o AGA a phrosesau sefydlu;
- fel rhan o'u gweithgaredd dysgu proffesiynol eu hunain;
- fel rhan o brosesau rheoli perfformiad neu ddatblygu ymarferwyr;
- wrth hunanwerthuso a myfyrio'n feirniadol;
- mewn cydweithrediad ag ysgolion eraill.

*Defnyddio'r safonau fel rhan o AGA a'r rhaglen sefydlu*

4.22 Disgrifiodd ANG, ymarferwyr ar gam cynnar yn eu gyrfaoedd, mentoriaid sefydlu a rhanddeiliaid mewn rolau sy'n gysylltiedig ag AGA, sut roeddent wedi defnyddio'r disgrifyddion ar gyfer Statws Athro Cymwysedig (SAC) o fewn y safonau fel rhan orfodol o brosesau gwerthuso cyrsiau AGA.

4.23 Yn gyffredinol, gwnaeth ymarferwyr a oedd wedi defnyddio'r safonau yn ddiweddar yn ystod eu cwrs AGA sylwadau cadarnhaol am y broses o'u defnyddio. Dywedodd rhai eu bod yn teimlo wedi eu 'gorlethu' i ddechrau, a'u bod wedi bod yn bryderus y byddai'n anodd bodloni rhai o'r disgrifyddion, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud ag arweinyddiaeth a chydweithredu.

[29] Gweler Ystadegau Blynyddol y Gweithlu Addysg CGA ar gyfer Cymru 2021.

4.24 Yn yr un modd, yn gyffredinol roedd barn ANG, mentoriaid sefydlu ac arweinwyr sefydlu yn gadarnhaol am eu profiadau o gasglu tystiolaeth yn erbyn y disgrifyddion fel rhan o gwblhau'r broses sefydlu statudol. Dywedodd rhai ANG y gallai'r broses o gasglu tystiolaeth yn erbyn y safonau fod yn 'llafurus' a'i bod yn ofynnol iddynt ymrwymo amser ac ymdrech i ymchwilio i sut i gasglu tystiolaeth briodol. Dywedodd ANG a mentoriaid sefydlu fod y safonau newydd, mewn rhai ffyrdd, yn fwy heriol i'w defnyddio na'r safonau blaenorol, gan fod angen mwy o waith meddwl a dehongli arnynt. Teimlai'r rhai a gyfwelwyd hefyd fod y broses hon o fyfyrio rheolaidd yn fuddiol a'i bod yn dod yn fwy hylaw dros amser. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o ANG a mentoriaid sefydlu o'r farn y byddai cael mwy o ddeunydd enghreifftiol yn fuddiol.

> *'Maen nhw'n glir ar y cyfan ond roedd yn rhaid i mi wneud rhywfaint o ymchwil i ddeall ystyr rhai o'r disgrifyddion ac i weld a allwn i ddod o hyd i enghreifftiau. Roeddwn i bob amser yn meddwl [pan oeddwn yn ANG] y byddai'n ddefnyddiol pe gallech glicio arnyn nhw [y safonau a'r disgrifyddion] a gweld enghreifftiau o'r hyn y mae pobl eraill wedi'i ddefnyddio.'* **(Athro, Ysgol Uwchradd Ddwyieithog)**

4.25 Dywedodd rhai ANG ac ymarferwyr a oedd ar gam cynnar yn eu gyrfaoedd fod y safonau'n 'teimlo'n llethol' iddynt i ddechrau, yn enwedig y disgrifyddion yn ymwneud ag arweinyddiaeth. Fodd bynnag, nododd yr ymarferwyr hefyd fod gorfod defnyddio'r safonau wedi eu gorfodi i ystyried yn fanylach sut y gallent ddangos arweinyddiaeth mewn gwahanol gyd-destunau (e.e. drwy arwain rhai cyfarfodydd gyda chydweithwyr).

> *'Pan welais i nhw gyntaf fel myfyriwr meddyliais i 'Sut ydw i i fod i wneud hyn i gyd? Sut ydw i i fod i arwain fel ANG?' Yna sylweddolais i mai fi oedd â'r wybodaeth orau yn yr adran am rai pethau, fi oedd yr unig arbenigwr cynradd, felly gallwn i arwain ar hynny.'* **(Athro, Ysgol Ganol Cyfrwng Saesneg)**

4.26 Dywedodd ymarferwyr a oedd ar gam cynnar yn eu gyrfaoedd eu bod wedi cyfeirio at y safonau yn llawer llai aml ers cwblhau'r broses sefydlu statudol. Nododd rhai o'r ymarferwyr hyn nad oeddent wedi defnyddio'r safonau ers dod yn gwbl

gymwysedig, a nododd eraill nad oeddent bellach yn teimlo bod ganddynt reswm i gyfeirio at y safonau.

> *'Ers cymhwyso, rwy'n dal i feddwl amdanynt yn eithaf aml ac yn meddwl eu bod yn berthnasol, ond dw i ddim yn cyfeirio atyn nhw'n benodol. Dydyn nhw ddim yn rhan fawr o'n sgyrsiau o ddydd i ddydd.'* **(Athro, Ysgol Uwchradd Ddwyieithog)**

4.27 Nododd y rhan fwyaf o'r mentoriaid sefydlu a gyfwelwyd mai eu prif ymgysylltiad â'r safonau oedd drwy weithio gydag ANG i adolygu'r dystiolaeth yr oeddent wedi'i chasglu yn ystod y broses sefydlu statudol. At ei gilydd, roedd barn mentoriaid sefydlu ar eu profiadau o weithio gydag ANG i adolygu eu tystiolaeth yn erbyn y disgrifyddion yn gadarnhaol, er bod rhai wedi nodi eu bod yn teimlo y gallai'r broses fod yn ailadroddus ac yn llafurus. Roedd mentoriaid sefydlu yn tueddu i fod wedi defnyddio'r safonau'n fwy helaeth nag athrawon eraill, ac yn ystyried bod y safonau'n berthnasol i ddatblygiad eu gyrfa eu hunain, yn ogystal â safonau ANG.

> *'Mae rili yn gwneud i ti feddwl ac mae'n ein helpu ni fel athrawon i weld pwysigrwydd cadw dysgu gydol oes – nid jyst rhywbeth yn y flwyddyn newydd gymhwyso yw'r safonau nawr'.* **(Uwch arweinydd, Ysgol Gynradd Dwy Ffrwd)**

*Defnyddio'r safonau mewn gweithgaredd dysgu proffesiynol*

4.28 Roedd i ba raddau yr oedd ysgolion, ymarferwyr a rhanddeiliaid yn defnyddio'r safonau fel rhan o'u dysgu proffesiynol yn amrywio'n sylweddol. Roedd rhanddeiliaid ac ymarferwyr mewn swyddi arweinyddiaeth ffurfiol yn fwy tebygol nag eraill o ddarparu enghreifftiau o sut yr oedd y safonau wedi bod yn ganolbwynt i'r cyrsiau yr oeddent wedi'u mynychu. Roedd ymarferwyr mewn lleoliadau lle roedd y safonau wedi'u hymgorffori'n llawnach mewn gweithgaredd datblygiad proffesiynol (gweler paragraff 4.29) hefyd yn fwy tebygol na'r rhai mewn lleoliadau eraill o ddarparu enghreifftiau o sut roedd eu dysgu proffesiynol yn gysylltiedig â'r safonau.

> *'Mae pob aelod o staff yn yr ysgol wedi cwblhau OTAP, ITP (CTP), neu OTP* [rhaglenni athrawon a CA] - *mae rhai wedi gwneud OLEP* [rhaglen

arweinyddiaeth] - *Mae'r rhaglenni hyn yn mynd law yn llaw ag addysgeg ac mae'r safonau a'r cysondeb a'r cydweithredu oll yn gweithio gyda'i gilydd.'* **(Athro, Ysgol Uwchradd Cyfrwng Saesneg)**

*'Maen ddefnyddiol eu cofio pan fyddwch chi'n cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd dysgu proffesiynol. Oherwydd eu bod yn gryno, gallwch chi wneud hynny.'*

**(Athro, Ysgol Uwchradd Ddwyieithog)**

4.29 Mewn rhai ysgolion, roedd y safonau wedi'u hymgorffori yn y broses o gynllunio gweithgaredd dysgu proffesiynol ar lefel sefydliad yn ogystal ag ar lefel unigol. Disgrifiodd rhai lleoliadau sut yr oeddent wedi defnyddio'r safonau fel strwythur i benderfynu ar themâu ar gyfer eu gweithgaredd HMS. Roedd gweithgaredd dysgu proffesiynol ysgol gyfan lleoliadau eraill yn canolbwyntio ar ar safon benodol (e.e. Addysgeg) yn ystod blwyddyn academaidd, gyda thargedau ar lefel sefydliad a lefel unigol yn cael eu gosod ond wedi'u cysylltu gan elfen gyffredin yn ymwneud â'r safonau. Disgrifiodd un ymarferydd mewn Uned Cyfeirio Disgyblion y budd canfyddedig o gael y gweithlu cyfan yn gweithio tuag at nod cyffredin, a nodwyd yng nghynllun strategol y lleoliad, gan nodi bod hyn yn fwy tebygol o gael effaith ar y cyd ar ymarfer ar lefel ysgol.

*'Rydyn ni i gyd yn sôn amdano ac yn symud i'r un cyfeiriad. Pe bai nodau gwahanol gan bawb yna byddai'n cyfyngu ar ein gallu i rannu cynnydd a phrofiadau'.* **(Uwch arweinydd, Uned Cyfeirio Disgyblion)**

4.30 Adroddodd uwch arweinwyr ac ymarferwyr eu bod wedi ymgymryd â chryn dipyn o weithgaredd dysgu proffesiynol mewn ymateb i'r heriau a achoswyd gan y pandemig COVID-19 (e.e. dysgu o bell a dysgu cyfunol, sgiliau digidol). Fodd bynnag, roedd yr ymarferwyr yn teimlo nad oeddent eto wedi cael cyfleoedd i fyfyrio ar yr hyn yr oeddent wedi'i ddysgu a'i gysylltu â'r safonau. Dywedodd nifer o ysgolion eu bod wedi 'gohirio' peth o'u gweithgaredd arfaethedig yn ymwneud â'r safonau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ond er hynny roeddent yn teimlo bod eu staff wedi gwneud cynnydd sylweddol yn erbyn agweddau ar y safonau ac roeddent

yn gobeithio gallu myfyrio ar hynny maes o law. Cyfeiriodd yr ymarferwyr yn aml at y safon arloesi yn y cyd-destun hwn.

> *'Arloesi, cydweithredu ac addysgeg ac arweinyddiaeth - mae'r cyfan wedi bod yno yn ystod Covid, ond dydyn ni ddim yn adrodd ar hynny. Mae'r arloesi a'r cydweithio rydyn ni'n ei wneud ar hyn o bryd yn aruthrol.'* **(Uwch arweinydd, Ysgol Gynradd Cyfrwng Saesneg)**

> *'Ni fu adran arloesi'r Safonau erioed yn fwy perthnasol, gan ein bod wedi bod yn ymateb fel ysgol i'r sefyllfa yr ydym ynddi [Covid]'.* **(Athro, Ysgol Uwchradd Cyfrwng Saesneg)**

4.31 Dywedodd rhai ymarferwyr eu bod yn teimlo bod y safonau'n ddefnyddiol yn ystod sgyrsiau mwy anffurfiol am eu dysgu proffesiynol, yn enwedig mewn perthynas â'r sgiliau sydd eu hangen i weithredu'r cwricwlwm newydd.

> *'Mae'n golygu y gallwn ni, fel athrawon, barhau i feddwl a myfyrio ac mae'n gwneud i ni ddechrau edrych ar ffyrdd newydd o ddysgu. Mae wedi ein cyffroi ni i gyd. Mae'n teimlo'n wahanol i sut oedd pethau o'r blaen. Rydyn ni'n dechrau ar gyfnod newydd cyffrous.'* **(Arweinydd canol, Ysgol Gynradd Dwy Ffrwd)**

> *'Maen nhw'n helpu'r sgyrsiau ynglŷn â sut mae angen i ni uwchsgilio ar gyfer yr MDaPh. Maen nhw bob amser ar eich meddwl wrth feddwl am eich DPP eich hun'.* **(Gweithiwr cymorth, Uned Cyfeirio Disgyblion)**

4.32 Dywedodd ymarferwyr mewn rhai ysgolion fod y safonau wedi dechrau dod yn rhan 'naturiol' o drafodaethau wrth rannu eu myfyrdodau a'u profiadau gyda chydweithwyr (e.e. mewn cyfarfodydd tîm rheolaidd). Dywedodd ambell ymarferydd fod y safonau'n dechrau cael eu defnyddio fel rhan o sgyrsiau a myfyrdodau anffurfiol ar wahanol lefelau yn yr ysgol.

> *'Mae iaith trafodaeth broffesiynol wedi newid, ac mae'r safonau wedi gwneud i ni feddwl am y newidiadau hynny. Bellach mae trafodaethau'n digwydd ynglŷn â chydweithio ac addysgeg.'* **(Athro, Ysgol Uwchradd Cyfrwng Saesneg)**

*'Mae'r safonau'n cael eu cynnwys yn fwy naturiol mewn sgyrsiau nawr. Mae'n fwy organig, rydyn ni'n nodi gweithgaredd dysgu proffesiynol ac yn nodi'r egwyddorion ar draws yr ysgol. Mae arweinyddiaeth wedi digwydd yn organig dros amser.'* **(Uwch arweinydd, Ysgol Ganol Cyfrwng Saesneg)**

4.33 Disgrifiodd rhai ymarferwyr sut roedd defnyddio'r safonau wedi arwain at fyfyrio'n fwy strwythuredig ar eu gweithgaredd dysgu proffesiynol eu hunain. Dywedodd rhai uwch arweinwyr yn yr ysgolion hyn fod staff bellach yn cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu gweithgaredd dysgu proffesiynol eu hunain, a bod y ffocws ar y safonau wedi annog yr ethos hwn o berchnogaeth.

*'Fe wnes i gwrs llwybrau dysgu yn ddiweddar ac yna roedd yn rhaid i mi ddod yn ôl a hyfforddi'r cynorthwywyr cymorth dysgu eraill. Felly cefais gip ar y maes arweinyddiaeth i weld beth oedd ynddo ac roeddwn i'n gallu gweld fy mod i'n cyflawni ambell un o'r pethau hynny. Mae'n gwneud i chi sylweddoli eich bod chi'n gwneud pethau pan fyddwch chi'n ei weld ar ddu a gwyn.'* **(CA, Ysgol Ganol Cyfrwng Saesneg)**

*'Roedden nhw'n* [y staff] *arfer dweud - ydy hi'n iawn i mi wneud yr hyn a'r llall? Nawr mae'r iaith yn wahanol. Maen nhw'n dweud wrtha i "Dw i wedi trefnu hyn a'r llall, ydy hynny'n iawn?". Mae hyn wedi eu grymuso i gymryd perchnogaeth, i ddefnyddio eu blaengaredd i drefnu pethau eu hunain. Rwy'n fodlon caniatáu iddyn nhw fentro - nid pawb fyddai'n fodlon gwneud hynny - ond oherwydd ein bod yn cyd-lunio'r cynllun datblygu ysgol - mae gennym rwyd ddiogelwch o'n cwmpas'.* **(Uwch arweinydd, Ysgol Gynradd Cyfrwng Saesneg)**

4.34 Mewn ysgolion eraill, ystyriwyd bod y safonau'n rhan o'r 'cefndir' dysgu proffesiynol, ond roeddent yn llai canolog i'r broses o gynllunio a nodi anghenion datblygiad proffesiynol. Roedd y rhain yn tueddu i fod yn ysgolion lle roedd ymgysylltiad â'r safonau wedi'i gyfyngu i raddau helaeth i ddarparu gwybodaeth am y safonau mewn cyfarfodydd staff neu sesiynau HMS.

4.35 Mewn rhai lleoliadau, defnyddiwyd y safonau i nodi themâu a phynciau ar gyfer ymchwil a gweithgaredd ymholi proffesiynol. Disgrifiodd yr ymarferwyr sut yr oedd eu lleoliad wedi nodi themâu (yn aml y rhai sy'n codi amlaf fel blaenoriaethau wrth hunanwerthuso) sy'n gysylltiedig â'r safonau i grwpiau o ymarferwyr ganolbwyntio arnynt. Mewn rhai lleoliadau, roedd ymholi proffesiynol yn broses fwy sefydledig a oedd wedi'i chysylltu â'r safonau yn ddiweddar. Mewn lleoliadau eraill, roedd ymholiadau gweithredol yn ddatblygiad cymharol ddiweddar, ac roeddent o'r farn bod y safonau'n ddefnyddiol ar gyfer hynny.

> *'Bu newid enfawr yn y ddeialog broffesiynol. Roedd yn rhaid i bawb weithio ar eu hymholiad a'u maes twf eu hunain. Gorfod cynnal ymholiad a fyddai o fudd i chi, a'r hyn yr oeddech am ei ddatblygu. [Roedd yn] Menter ysgol gyfan. Roedd pobl yn mwynhau hynny gan eu bod yn gallu gweld ei effaith. Cafodd y cyfan ei wneud ar y cyd, rhoddwyd blaenoriaeth i ddysgu proffesiynol, roedd addysgeg yn sail i'r cyfan, ac roedd yn arloesol.'* **(Uwch arweinydd, Ysgol Uwchradd Cyfrwng Saesneg)**

*Y defnydd o'r safonau mewn trefniadau rheoli perfformiad a hunanasesu*

4.36 Mewn rhai ysgolion, nododd uwch arweinwyr eu bod wedi ymgorffori'r safonau yn eu cynllun datblygu ysgol ac wedi nodi safonau y byddent yn canolbwyntio arnynt yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf. Roedd hyn yn cynnwys gosod targedau, wedi'u mapio i safonau penodol, ar lefel sefydliad, lefel adran neu gyfadran a lefel unigol.

> *'Dwi'n defnyddio'r safonau gyda fy athrawon i wrth drafod targedau unigol – ac yn eu plethu gyda'r safonau... Mae'r safonau'n dweud y dylech wneud e - ac yn rhoi syniadau i staff ar le i ffocysu eu datblygiad'.* **(Uwch arweinydd, Ysgol Gynradd Dwy Ffrwd)**

4.37 Roedd y lleoliadau ar wahanol gamau yn eu taith tuag at ymgorffori'r safonau yn eu prosesau rheoli perfformiad. Mewn rhai lleoliadau, roedd arfarniadau rheolaidd neu 'sgyrsiau proffesiynol' rhwng ymarferwyr a'u rheolwyr llinell (2-3 gwaith y flwyddyn) yn seiliedig ar y safonau, neu'n cynnwys cwestiynau ansoddol yn ymwneud â'r

safonau. Mewn rhai achosion, roedd hyn yn cynnwys neilltuo rhan o dempledi rheoli perfformiad ysgolion i'r safonau.

> *'Rydyn ni wedi newid ein templed rheoli perfformiad i'n galluogi i feddwl mwy am y safonau wrth drafod datblygiad staff. Ond mae'n ddyddiau cynnar o hyd; rydym yn tueddu i ganolbwyntio ar nodi sgiliau a gosod targedau.'* **(Uwch arweinydd, Ysgol Arbennig)**

4.38 Mewn ambell ysgol, gofynnwyd i ymarferwyr gwblhau offer hunanasesu (Gweler Adran 4.47 isod) yn seiliedig ar y safonau cyn eu harfarnu; byddai rhan o'r drafodaeth â'u rheolwr llinell wedyn yn myfyrio ar hunanasesiad ymarferwyr yn erbyn y safonau. Roedd uwch arweinwyr ac ymarferwyr o'r farn bod hwn yn fodel effeithiol ar gyfer cyflwyno'r safonau mewn ffordd 'ddiriaethol' i ymarferwyr. Roedd uwch arweinwyr ac arweinwyr canol hefyd yn teimlo y gallai hyn eu helpu i gynllunio datblygiad staff a gweithgaredd dysgu proffesiynol ar lefelau strategol ac unigol:

> *'Mae gwneud yr hunanadolygiad yn rhoi ymreolaeth i chi edrych ar ble'r ydych chi, y bylchau yn eich datblygiad ac yna gosod targedau ar gyfer yr hyn y mae angen i chi weithio arno yn fewnol neu drwy'r consortiwm.'* **(Uwch arweinydd, Ysgol Ganol Cyfrwng Saesneg)**

> *'Mae'r ffordd y mae'r adolygiad 360 wedi'i drefnu ar [Enw'r platfform] yn weledol iawn ac fel arweinydd cyfadran gallech chi gael 12 ohonyn nhw [hunanasesiadau staff] o'ch blaen i edrych ar feysydd y mae pobl yn teimlo bod angen iddyn nhw eu datblygu.'* **(Arweinydd Canol, Ysgol Ganol Cyfrwng Saesneg)**

4.39 Dywedodd rhai arweinwyr ysgol fod ganddynt gynlluniau ar gyfer gweithredu proses debyg i'r uchod o hunanwerthuso, ond bod hyn wedi'i ohirio oherwydd COVID-19. Er enghraifft, roedd un ysgol wedi defnyddio teclyn hunanwerthuso ar gyfer cynnal arfarniadau eu harweinwyr canol cyn y pandemig; fodd bynnag, nid oedd yr ysgol hon wedi ymestyn y broses i staff eraill eto yn unol â'r cynllun oherwydd nad oeddent wedi cael cyfle i fyfyrio'n llawn ar y broses hon.

4.40 Gwnaeth ymarferwyr sylwadau ar fanteision trafod eu datblygiad proffesiynol yn erbyn y safonau fel hyn, gan nodi ei bod yn ddefnyddiol myfyrio ar bob safon. Dywedodd yr ymarferwyr fod y safonau'n darparu mwy o strwythur ar gyfer rheoli perfformiad, a bod y trafodaethau hyn yn gyfle i 'ddehongli' y safonau yng nghyd-destun rôl ymarferydd. Roedd hyn yn ddefnyddiol i uwch arweinwyr er mwyn cynllunio gweithgaredd dysgu proffesiynol, a chanfu ymarferwyr fod hyn yn 'normaleiddio' y defnydd o rai o'r termau a allai fod yn anghyfarwydd iddynt.

> *'Roedd y trafodaethau'n fwy manwl, yn fwy proffesiynol ac roedd mwy o ffocws iddynt. Fel Pennaeth, fe wnes i ganfod eu bod yn ffordd well o lawer o gael gwybodaeth am ble roedd fy staff wedi cyrraedd a pha feysydd yr oedd angen iddyn nhw eu datblygu'.* **(Uwch Arweinydd, Ysgol Gynradd Cyfrwng Saesneg)**

4.41 Roedd rhai ymarferwyr o'r farn bod defnyddio'r safonau wedi eu helpu i gael eglurder ynghylch eu llwybr gyrfa yn y dyfodol, oherwydd bod y disgrifyddion yn nodi'r disgwyliadau ar gyfer ymarfer addysgu ac arweinyddiaeth effeithiol.

> *'Fel dirprwy, fy ngham nesaf yw dod yn bennaeth, ond mae'r safonau wedi gwneud i mi feddwl am hynny ac ystyried pa opsiynau eraill sydd ar gael i mi'* **(Uwch arweinydd, Ysgol Gynradd Cyfrwng Saesneg)**

4.42 Mewn ymateb i gwestiynau am eu defnydd o'r safonau, nododd ambell ymarferydd fod y safonau wedi'u hymgorffori mewn disgrifiadau swydd a manylebau person. Teimlai ymarferwyr y byddai ANG, a oedd yn fwy cyfarwydd â defnyddio iaith y safonau, yn elwa o'u hadnabyddiaeth o'r safonau yn ystod eu gyrfa wrth wneud cais am rolau neu gyfrifoldebau newydd.

> *'Maen nhw [ANG] mewn sefyllfa well o lawer i wneud cais am gyfrifoldebau rheoli nawr.'* (**Uwch arweinydd, Ysgol Ganol Cyfrwng Saesneg)**

4.43 Mewn ambell leoliad, nododd uwch arweinwyr fod defnyddio'r safonau wedi bod yn arbennig o werthfawr i CA. Cyfeiriodd uwch arweinwyr a chynorthwywyr cymorth yn y lleoliadau hyn at 'newid sylweddol' yn eu proses rheoli perfformiad o'i gymharu â'r hyn a fyddai o'r blaen wedi bod yn drafodaethau mwy ad hoc. Teimlai uwch

arweinwyr a CA fod hyn wedi helpu i gynyddu hyder CA drwy ddarparu llwybr gyrfa mwy strwythuredig a phroffesiynol iddynt.

> *'Yn ein 'Sgyrsiau Proffesiynol' [trafodaethau datblygiad proffesiynol], rydym wedi trafod rhai o'r safonau, ac mae'n gwneud i chi sylweddoli ein bod yn ymdrin â llawer o'r pethau hyn yn naturiol yn ein gwaith.'* **(CA, Ysgol Uwchradd Ddwyieithog)**

> *'Ar lefel CA, roedd rheoli perfformiad ychydig yn chwit chwat cynt [cyn iddyn nhw ddechrau defnyddio'r safonau] a bod yn onest.'* **(Uwch arweinydd, Uned Cyfeirio Disgyblion)**

4.44 Mewn rhai lleoliadau, nid oedd y safonau mor ganolog i reoli perfformiad a gosod targedau unigol; nododd uwch arweinwyr yn y lleoliadau hyn eu bod yn ystyried sut i ymgorffori'r safonau yn y prosesau hyn. Yn yr ysgolion hyn, roedd ymgysylltiad ymarferwyr â'r safonau hyd yma wedi cynnwys gweithgaredd codi ymwybyddiaeth (e.e. dosbarthu deunyddiau i staff, cyflwyniadau yn ystod sesiynau HMS).

*Y defnydd o'r safonau ar gyfer ymarfer myfyriol*

4.45 Y defnydd o'r safonau ar gyfer ymarfer myfyriol Nododd rhai lleoliadau fod y safonau wedi darparu mwy o ffocws ar gyfer trafodaethau am ddatblygiad proffesiynol a myfyrio beirniadol, gyda'r safonau'n darparu 'iaith gyffredin' ar gyfer y trafodaethau hyn. Teimlai rhai ymarferwyr fod y safonau'n cefnogi prosesau hunanwerthuso ac y gallent eu helpu i nodi pa agweddau ar eu gwaith oedd yn bwysig a chryfderau a meysydd i'w datblygu.

> *'Maen nhw [y safonau] yn eich tynnu chi'n ôl at yr hyn y dylech chi fod yn ei wneud - maen nhw'n eich atal rhag bod yn hunanfodlon. Rydyn ni'n edrych ar y safonau wrth reoli perfformiad - ac mae'n dod â chi'n ôl i ble y gallech chi wella. Mae mor hawdd colli golwg ar eich datblygiad personol pan fyddwch chi yn y dosbarth yn dysgu ddydd ar ôl dydd'.* **(Uwch arweinydd, Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg)**

4.46 Mewn rhai lleoliadau, disgrifiodd uwch arweinwyr bod y ffaith bod staff yn myfyrio ar sut yr oeddent yn bodloni'r disgrifyddion yn gallu rhoi hwb i hyder ymarferwyr a'u

helpu i werthfawrogi a mwynhau eu gwaith. Pwysleisiwyd hyn yn arbennig mewn perthynas â CA ac ymarferwyr mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion, lle roedd ymarferwyr yn teimlo nad oeddent wedi cael fframwaith ar gyfer trafodaeth fyfyriol o'r blaen.

> *'Maen nhw wedi rhoi rhywbeth i staff 'hongian eu het' arno, gan eu gwneud yn fwy myfyriol ac mae wedi rhoi mwy o hyder iddyn nhw farnu eu hunain yn erbyn eu targedau unigol eu hunain.'* **(Uwch arweinydd, Uned Cyfeirio Disgyblion)**

> *'Mae'n 'fframwaith' defnyddiol ar gyfer cynllunio [dysgu proffesiynol] a hunanwerthuso.'* **(Ymarferydd, Uned Cyfeirio Disgyblion)**

4.47 Disgrifiodd rhai ysgolion eu hymdrechion i integreiddio'r safonau o fewn trefniadau monitro ysgolion megis arsylwi gwersi, craffu a throeon dysgu. Disgrifiodd rhai ysgolion sut yr oeddent wedi ceisio sicrhau bod cyfarfodydd staff a chyfarfodydd adrannol yn ogystal â grwpiau ymholi gweithredol yn seiliedig ar y safonau. Croesawodd yr ymarferwyr y pwyslais ar addysgeg o fewn y safonau, ac roeddent yn teimlo bod hyn yn eu galluogi i gael eu defnyddio'n fwy naturiol fel rhan o weithgaredd monitro o ddydd i ddydd.

> *'Maen nhw'n* [y safonau] *rhoi ffocws clir i ni...… yn naturiol, o safbwynt monitro a gwella ysgolion, addysgeg yw'r brif safon. Mae'r safonau'n eistedd o fewn gweithgareddau monitro.'* **(Ysgol Uwchradd Cyfrwng Saesneg)**

4.48 Fel y nodwyd yn Adran 4.37 uchod, roedd rhai ysgolion wedi datblygu neu fabwysiadu offer hunanwerthuso strwythuredig i ymarferwyr eu defnyddio i asesu eu hunain yn erbyn y disgrifyddion; roedd y rhain ar ffurf taenlen neu blatfform ar-lein lle y gallai ymarferwyr gofnodi a gweld eu hunanasesiad(au). Roedd ymarferwyr a oedd wedi defnyddio'r offer hyn yn gwerthfawrogi gallu gweld eu hunanasesiad, fel arfer ar ffurf 'diagram corryn' neu graff. Roedd ysgolion a Chonsortia Addysg Rhanbarthol wedi datblygu a rhannu enghreifftiau o daenlenni hunanasesu yn seiliedig ar y safonau. Mae ambell ysgol wedi buddsoddi mewn offer ar-lein a ddatblygwyd ac a addaswyd gan ddarparwyr masnachol.

*'[Gan gyfeirio at daenlen hunanasesu a ddatblygwyd gan ysgol arall] Yr offeryn yw'r 'bachyn' i wneud i chi eu defnyddio [y safonau] a meddwl am yr hyn maen nhw'n ei olygu i chi. Yna mae angen i hynny arwain at drafodaeth broffesiynol am yr hyn sy'n digwydd yn yr ystafell ddosbarth.'* **(Uwch arweinydd, Ysgol Uwchradd Cyfrwng Saesneg)**

*'Mae [enw'r offeryn hunanasesu masnachol] wedi rhoi cyfle i ni ymgysylltu â'r safonau mewn ffordd hygyrch - gan adlewyrchu arfer addysgu a rhoi cyfle i staff ymgysylltu a myfyrio arnynt eu hunain.'* **(Uwch arweinydd, Ysgol Ganol Cyfrwng Saesneg)**

4.49 Roedd gan ysgolion a oedd wedi dechrau defnyddio'r offer hunanasesu hyn farn gadarnhaol am eu defnydd. Roedd ymarferwyr yn gwerthfawrogi'r offer hyn oherwydd eu bod yn hwyluso ymgysylltiad cychwynnol â'r safonau, yn cynyddu adnabyddiaeth o'r iaith ac yna'n galluogi sgyrsiau dilynol manylach ac ystyrlon ar lefel adrannol ac ysgol gyfan. Teimlai rhai ymarferwyr yn yr ysgolion hyn eu bod bellach yn cymryd rhan mewn mwy o sgyrsiau a myfyrdodau ar ddysgu proffesiynol, gan gymryd rhan mewn dysgu proffesiynol mwy cydweithredol yn yr ysgol ac roeddent yn fwy agored i drafod eu nodau.

*'Maen nhw'n [y safonau] eich helpu chi i nodi cryfderau a gwendidau ac i ba gyfeiriad rydych chi eisiau mynd'.* **(CA, Ysgol Ganol Cyfrwng Saesneg)**

*'Rydym yn ei ddefnyddio mewn cyfarfodydd un-i-un [arfarniadau] ac mae'n ffordd fwy organig o edrych ar y safonau gan ganolbwyntio ar adrannau llai, a chynnydd i'w weld o fewn 3-4 wythnos. Gall mwy nag un person gael mynediad ato a gall pennaeth y gyfadran edrych ar gynnydd ei dîm.'* **(Uwch arweinydd, Ysgol Ganol Cyfrwng Saesneg)**

4.50 Wrth ddatblygu offer hunanasesu, roedd rhai cyfweleion yn teimlo y gellid ystyried bod y bwlch rhwng y disgrifyddion is ac 'ymarfer hynod effeithiol parhaus' yn rhy fawr, ac y gallai hyn o bosibl annog athrawon ar gam cynnar yn eu gyrfaoedd, yn ogystal ag athrawon profiadol nad ydynt eto'n arddangos lefel uchel o ymarfer, i roi'r gorau i ddefnyddio'r safonau.

4.51 Mewn ambell achos, roedd ysgolion wedi addasu eu hoffer hunanasesu i gynnwys mwy o lefelau dilyniant na'r disgrifyddion is ac uwch a ddefnyddir yn y safonau (h.y. dyfarnu SAC, cwblhau rhaglen sefydlu statudol, cynnal ymarfer hynod effeithiol). Er enghraifft, roedd un ysgol wedi datblygu pedair 'lefel' o ddisgrifyddion yn erbyn pob elfen o'r safonau: 'Ansicr ac mae angen hyfforddiant', 'Maes i'w ddatblygu', 'Hyderus' a 'Hyderus iawn a gallant arwain eraill'. Mewn ysgol arall, roedd graddfa sgorio 1-5 (1-6 ar gyfer y safonau arweinyddiaeth) yn cael ei defnyddio ar gyfer pob elfen o'r pum safon. Pwysleisiodd uwch arweinwyr ac ymarferwyr nad oedd y sgoriau wedi'u safoni na'u cymedroli, ond roeddent yn teimlo eu bod yn hwyluso ymgysylltiad â'r safonau ac yn eu helpu i archwilio cynnydd ar lefel unigol.

> *'Nid yw'r sgoriau'n cael eu cymedroli felly mae'n ymwneud yn fwy â'r unigolyn. Rhaid i'r disgwyliadau fod yn wahanol ar gyfer staff gwahanol.'* **(Uwch arweinydd, Ysgol Ganol Cyfrwng Saesneg)**

> *'Byddai dehongliad pawb o [sgôr hunanasesu o] 3 yn wahanol, ond mae'n ymwneud â'ch taith a'ch myfyrdod eich hun. Mae'n eich llywio i gyfeiriad hunanfyfyrio.'* **(Arweinydd canol, Ysgol Ganol Cyfrwng Saesneg)**

4.52 Gwnaeth rhai ymarferwyr sylwadau ar risg bosibl rhoi gormod o bwyslais ar offer hunanwerthuso, heb gynnal trafodaethau i gyd-fynd â hynny ar ddatblygiad staff a dysgu proffesiynol, a'r safonau'n cael eu defnyddio fel strwythur ar gyfer y trafodaethau hyn. Fodd bynnag, roedd y mwyafrif yn teimlo bod y mathau hyn o offer yn eu helpu i ymgyfarwyddo â'r iaith a ddefnyddir yn y disgrifyddion.

*Pasbort Dysgu Proffesiynol*

4.53 Roedd yr ymarferwyr a oedd wedi bod yn rhan o AGA a phrosesau sefydlu yn fwy cyfarwydd â defnyddio'r PDP nag eraill ac yn fwy tebygol o fod wedi defnyddio'r platfform. Yn gyffredinol, roedd yr ymarferwyr yn gwerthfawrogi cludadwyedd y PDP ac yn croesawu'r egwyddor o gael teclyn a oedd yn galluogi ymarferwyr i gofnodi eu gweithgaredd dysgu proffesiynol mewn un lle.

> *'Mae cael y PDP a'r safonau ar-lein wedi helpu gyda fy llesiant - ei gael mewn un lle, a pheidio â gorfod cario llwyth o ffeiliau a phoeni am golli tystiolaeth,*

*bydd yno bob amser a gallwch gael mynediad iddo o unrhyw le.'* **(ANG, Ysgol Uwchradd Cyfrwng Saesneg)**

4.54 Fodd bynnag, roedd yr ymarferwyr a gafodd eu cyfweld, nad oeddent wedi bod yn rhan o brosesau sefydlu yn ddiweddar, yn tueddu i beidio â defnyddio'r PDP yn weithredol (h.y. uwchlwytho tystiolaeth neu gael mynediad ato'n ddiweddar). Roedd yr ymarferwyr hyn yn tueddu i seilio eu barn ar gyflwyniadau neu wybodaeth a ddarparwyd iddynt beth amser yn ôl (e.e. tuag adeg lansio'r platfform). Roedd yr ymarferwyr a oedd wedi defnyddio'r PDP, a hynny'n aml ychydig flynyddoedd yn ôl, yn tueddu i ystyried ei fod yn llai hygyrch ac yn anoddach ei ddefnyddio na llwyfannau eraill yr oeddent wedi'u defnyddio i gofnodi eu profiadau dysgu proffesiynol neu ar gyfer hunanwerthuso yn erbyn y safonau. Dywedodd rhai ymarferwyr, ar sail eu harsylwadau eu hunain, fod defnyddwyr PDP yn tueddu i fod yn newydd-ddyfodiaid i'r proffesiwn, gyda llai o athrawon profiadol yn defnyddio'r platfform.

4.55 Roedd gan yr ymarferwyr a oedd fwyaf cyfarwydd â'r PDP (ANG a mentoriaid sefydlu) farn gymysg yn seiliedig ar eu profiad o'i ddefnyddio. Disgrifiodd rhai ei fod yn 'hawdd ei ddefnyddio' gan wneud sylwadau cadarnhaol ar newidiadau diweddar, fel y 'llithrydd symudol' ar gyfer hunanasesu yn erbyn y disgrifyddion, ond disgrifiodd eraill y broses o uwchlwytho tystiolaeth fel proses 'lafurus'. Teimlai rhai ANG a mentoriaid sefydlu y gellid symleiddio'r broses o ychwanegu tystiolaeth a'i mapio yn erbyn y safonau yn y gweithlyfr.

'*O ran ANG sydd wedi bod yn defnyddio PDP ers 4-5 mlynedd bellach, maen nhw'n ei ddefnyddio ac mae'n wych, mae mor hawdd ei ddefnyddio ac mae wedi addasu dros y blynyddoedd. Mae'n ffordd iddyn nhw allu cadw eu holl dystiolaeth mewn un lle.'* **(Mentor sefydlu, Ysgol Uwchradd Cyfrwng Saesneg)**

*'Roedd [defnyddio'r PDP i gofnodi tystiolaeth] yn teimlo'n ailadroddus, ni ddylai fod angen i chi ddangos tystiolaeth o bopeth, dylai bod modd ei grwpio gyda'i gilydd, ond mae'n system gyfleus i ddangos tystiolaeth o ddysgu.'* **(Athro, Ysgol Uwchradd Cyfrwng Saesneg)**

4.56 Gwnaeth ambell ANG sylwadau cadarnhaol am y newidiadau diweddar a wnaed i'r PDP, yn sgil ychwanegu'r 'gweithlyfr safonau proffesiynol', sy'n galluogi ymarferwyr i fapio eu profiad yn erbyn disgrifyddion is ac uwch y safonau, a'r nodweddion graff gweledol sy'n rhoi darlun o gynnydd ymarferydd yn erbyn y pum safon.

> *'Rwy'n credu fy mod i'n gweld y gwahaniaeth* [yn y PDP]*; gallwch chi weld yn hawdd beth yw eich cryfderau a'ch gwendidau ar y dudalen. Mae fel siart cylch a chod lliwiau a gall eich rhoi ar raddfa. Mae mewn un lle hawdd a gallwch gael mynediad iddo o unrhyw le, sy'n werthfawr ac yn ddefnyddiol.'* **(ANG, Ysgol Uwchradd Cyfrwng Saesneg)**

4.57 Prin oedd yr ymarferwyr a nododd eu bod wedi defnyddio'r PDP ers cwblhau eu cyfnod sefydlu statudol. Roedd llawer o'r ymarferwyr o'r farn ei fod yn offeryn ar gyfer y broses sefydlu yn bennaf yn hytrach nag ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.

> *'Mae'n braf edrych ar y dystiolaeth a gasglwyd o'r llynedd, a gweld pa mor bell rydw i wedi dod o ran fy natblygiad personol, ond ers gweithio yn yr ysgol hon dydw i ddim wedi teimlo'r angen i edrych ar y PDP - rwyf wedi cael fy nghyfarfodydd un-i-un, mae'r safonau'n offeryn myfyrio da.'* **(Athro, Ysgol Uwchradd Cyfrwng Saesneg)**

4.58 Dywedodd rhai ymarferwyr nad oeddent yn defnyddio'r PDP oherwydd eu bod yn ei ystyried yn llwyfan 'ychwanegol' i fewngofnodi iddo. Awgrymodd rhai y gallai integreiddio mewngofnodi i'r PDP â Hwb gynyddu eu tebygolrwydd o'i ddefnyddio i gofnodi eu profiadau dysgu proffesiynol. Awgrymodd eraill y byddent yn fwy tebygol o ddefnyddio'r PDP pe bai'n eu galluogi i gynnal hunanasesiad yn erbyn y disgrifyddion heb orfod uwchlwytho tystiolaeth yn eu herbyn. Awgrymodd rhai uwch arweinwyr mewn lleoliadau a oedd yn defnyddio llwyfannau neu daenlenni masnachol ar gyfer hunanasesu y byddent yn fwy tebygol o annog defnyddio'r PDP ar draws eu lleoliad pe bai'n eu galluogi i edrych ar ddata hunanasesu cyfanredol o'u gweithlu yn yr adran neu ar lefel lleoliad.

4.59 Roedd CA yn llai cyfarwydd â'r PDP fel platfform, gyda rhai'n nodi nad oeddent yn cofio derbyn gwybodaeth amdano. Dywedodd ambell un ei fod wedi cael ei gyflwyno iddo'n ddiweddar ond nad oeddent yn gyfarwydd â'i ddefnyddio.

> Maen nhw'n [y safonau] *dda ar gyfer datblygiad proffesiynol a chawsom ein cyflwyno i'r PDP, ond nid ydym wedi cael llawer o wybodaeth am sut i uwchlwytho pethau ac ati.'* **(CA, Ysgol Uwchradd Cyfrwng Saesneg)**

*Cydweithredu*

4.60 Roedd yr ymarferwyr yn croesawu'r ffaith bod y safonau yn annog lefelau uwch o gydweithredu rhwng adrannau ac ysgolion, ac yn teimlo bod hyn yn cyd-fynd yn dda â diwygiadau eraill. Teimlai rhai ymarferwyr fod y safonau'n helpu staff i weld gwerth cydweithredu a myfyrio mewn perthynas â'u dysgu proffesiynol. Er yr ystyriwyd bod cyfyngiadau COVID-19 wedi cyfyngu ar rai mathau o weithgaredd cydweithredu, roedd rhai ysgolion yn teimlo bod mabwysiadu mwy o blatfformau cyfarfod rhithiol yn golygu y byddai'n haws cydweithredu yn y dyfodol.

> '[Nawr bod athrawon yn defnyddio rhith-lwyfannau yn amlach] *gallant ganolbwyntio'n haws ar elfennau o'r safonau - a chydweithio ag ymarferwyr ledled Cymru'.* **(Uwch arweinydd, Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg)**

4.61 Roedd lleoliadau yn darparu enghreifftiau o gydweithio, megis trafod y safonau yn ystod cyfarfodydd ag ysgolion eraill. Roedd rhai lleoliadau wedi gwneud cyflwyniadau i ysgolion eraill ar ddefnyddio'r safonau; er enghraifft, sut yr oeddent wedi ymgorffori'r safonau yn y cynllun gwella ysgol ac ar draws prosesau rheoli perfformiad staff.

> *'Mae wedi bod yn dda iawn, ac yn braf codi proffil cyfarfodydd ymyrraeth. Trafodwyd y safonau yn ystod y cyfarfod diwethaf, ac yn y cyfarfod nesaf byddwn yn eu trafod yn fwy manwl. Roedd rhai ysgolion yn gwybod amdano, yn enwedig ysgolion sydd wedi bod yn rhan ohono.'* **(CA, Ysgol Uwchradd Cyfrwng Saesneg)**

4.62 Adroddodd ymarferwyr mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion fod y safonau wedi darparu set o ddisgwyliadau cyffredin ac iaith gyffredin ar gyfer cydweithredu â

lleoliadau ysgolion prif ffrwd. Roedd yr ymarferwyr yn gobeithio y byddai hyn yn helpu'r sector EOTAS i gael mwy o gydraddoldeb, a'u galluogi i ddod o hyd i fwy o nodweddion cyffredin, gydag ysgolion prif ffrwd. Teimlai rhai y gallai cael un set o safonau helpu i hwyluso symud ymarferwyr o Unedau Cyfeirio Disgyblion i leoliadau prif ffrwd, ac i'r gwrthwyneb.

*Gwahaniaethau yn y farn am y defnydd o'r safonau ymhlith ymarferwyr mewn gwahanol rolau*

4.63 Nododd ANG a mentoriaid sefydlu yn amlach nag ymarferwyr eraill eu bod wedi defnyddio'r safonau. Roedd uwch arweinwyr hefyd yn fwy tebygol nag ymarferwyr o nodi eu bod wedi defnyddio'r safonau, fel rhan o oruchwylio gwaith cynllunio strategol a rheoli perfformiad yn yr ysgol, neu drwy gymryd rhan mewn cyrsiau arweinyddiaeth ffurfiol. Mewn un ysgol roedd ANG yn cael eu hannog i rannu eu gwybodaeth a'u profiadau o ddefnyddio'r safonau gydag ymarferwyr mwy profiadol; nododd un uwch arweinydd fod gennym 'lawer i'w ddysgu gan ANG gan eu bod mor wybodus am y safonau'. Roedd ymarferwyr mwy profiadol nad oedd ganddynt gyfrifoldeb arweinyddiaeth ffurfiol yn tueddu i fod yn llai tebygol o adrodd eu bod wedi defnyddio'r safonau.

4.64 Adroddwyd bod y defnydd o'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Cynorthwyo Addysgu yn llai na'r defnydd o'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth. Dywedodd ymarferwyr a rhanddeiliaid fod CA yn cael llai o gyfleoedd i ddefnyddio'r safonau a bod llai o gymhellion iddynt wneud hynny. Myfyriodd y rhai a gyfwelwyd ar y ffaith bod y Safonau Proffesiynol ar gyfer Cynorthwyo Addysgu yn fwy newydd, a bod ysgolion yn llai tebygol o fod wedi cael amser i fyfyrio ar sut y byddent yn eu defnyddio o gymharu â'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth. Dywedodd rhai cyfweleion fod ysgolion yn 'dechrau gydag athrawon' cyn symud ymlaen i CA.

4.65 Adroddwyd bod y defnydd o'r safonau'n fach ymhlith llywodraethwyr, gydag uwch arweinwyr yn nodi mai ychydig o drafodaethau a gafwyd gyda llywodraethwyr am y safonau.

**Ffactorau sy'n galluogi ac yn cyfyngu'r defnydd o'r safonau**

*Ffactorau galluogol*

4.66 I'r rhai sy'n ymwneud ag AGA a sefydlu, roedd natur orfodol y safonau yn ffactor amlwg a oedd yn dylanwadu ar eu defnydd. At hynny, mae'r ffaith bod adnoddau ategol fel y PDP a'r gweithlyfr dysgu proffesiynol ar gael yn galluogi pobl i ymgysylltu â'r safonau. Ochr yn ochr â hyn, mae cymorth gan randdeiliaid megis darparwyr AGA ac arweinwyr sefydlu yn ffactorau sy'n cefnogi'r defnydd o'r safonau.

4.67 O ran ymarferwyr nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol ag AGA a threfniadau sefydlu, pwysleisiodd y rhai a gyfwelwyd rôl bwysig arweinyddiaeth ysgol o ran annog ymarferwyr i ddefnyddio'r safonau. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau bod y safonau'n rhan o gynlluniau datblygu a gwella ysgolion, a bod cyfeiriadau atynt mewn deunyddiau sy'n amlinellu blaenoriaethau dysgu proffesiynol yr ysgol neu adrannau. Nododd rhai arweinwyr ysgol na fyddai ymarferwyr, ar wahân i ANG a mentoriaid, yn defnyddio'r safonau oni bai bod arweinwyr ysgol yn eu cyfarwyddo i wneud hynny.

> *'Petai ni ddim yn ei wthio bydde athrawon ddim yn edrych arnynt'* **(Arweinydd ysgol, Ysgol Uwchradd Gymraeg)**

4.68 Yn gysylltiedig â hyn, pwysleisiodd rhai ymarferwyr a oedd yn defnyddio'r safonau bwysigrwydd eu harweinwyr ysgol yn neilltuo amser iddynt ymgysylltu â'r safonau (e.e. drwy ddyrannu amser ar gyfer ymarfer myfyriol, hunanasesu), a darparu cymorth (e.e. hyfforddiant i ddefnyddio offer hunanasesu).

> *'Mae rhwystrau i'w defnyddio, ond mae ein hysgol wedi bod yn drylwyr iawn wrth eu cyflwyno a rhoi amser a system i ni fyfyrio arnyn nhw.'* **(Arweinydd canol, Ysgol Ganol Cyfrwng Saesneg)**

4.69 Ystyriwyd bod cael diwylliant dysgu proffesiynol cadarnhaol mewn ysgol hefyd yn ffactor llwyddiant allweddol. Cyfeiriodd uwch arweinwyr ac ymarferwyr mewn rhai ysgolion at bwysigrwydd ymarferwyr yn teimlo perchnogaeth o'u dysgu proffesiynol eu hunain, ac yn cael eu hannog i fod yn arloesol. Nododd lleoliadau hefyd fod

cymryd rhan mewn partneriaeth AGA yn ffactor galluogol a oedd yn hyrwyddo ymgysylltiad â'r safonau.

> *'Mae cael y diwylliant a'r berchnogaeth honno'n hanfodol. Caniatáu i staff fentro, a pheidio â theimlo bygythiad yn sgil atebolrwydd a chael eu barnu. Gwneud yn siŵr bod staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn ffynnu. Rydym am iddyn nhw greu eu profiadau dysgu proffesiynol eu hunain. Rhoi'r amser iddyn nhw wneud yr hyn y maen nhw am ei wneud. Drwy sicrhau ei fod yn ystyrlon ac yn bwrpasol, ac wedi'i ymgorffori yn ein hysgol a bod pawb yn cymryd rhan.'* **(Uwch arweinydd, Ysgol Uwchradd Cyfrwng Saesneg)**

4.70 Teimlai'r ymarferwyr fod ymgorffori'r safonau mewn prosesau rheoli perfformiad yn ffactor galluogol pwysig. Dywedodd rhai fod defnyddio'r safonau fel strwythur ar gyfer templedi rheoli perfformiad wedi eu helpu i ymgyfarwyddo â'r iaith a ddefnyddir yn y safonau. Nododd ambell ymarferydd fod y trafodaethau hyn wedi gwneud iddo sylweddoli ei fod wedi mabwysiadu ymarfer a oedd yn bodloni'r disgrifyddion ond nad oedd yn ymwybodol o hynny ar y pryd.

> *'Drwy dwrio'n ddyfnach, gallech weld eu bod nhw'n gwneud y pethau hyn ond ddim yn cydnabod hynny. Ymgyfarwyddo â'r eirfa oedd y cam cyntaf'.* **(Uwch arweinydd, Ysgol Gynradd Cyfrwng Saesneg)**

*Ffactorau sy'n cyfyngu ar y defnydd o'r safonau*

4.71 Diffyg amser a phwysau'n gysylltiedig â gwaith oedd y prif rwystrau rhag defnyddio'r safonau y soniodd yr ymarferwyr amdanynt. Dywedodd uwch arweinwyr fod eu cynlluniau i ymgorffori'r defnydd o'r safonau ymhlith ymarferwyr wedi cael eu cyfyngu neu eu gohirio yn sgil COVID-19. Dywedodd sawl un fod eu huwch arweinwyr a / neu arweinwyr canol wedi bod yn trafod sut roeddent yn bwriadu defnyddio'r safonau yn fwy systematig, ond bod y cynlluniau hyn wedi'u gohirio yn ystod y pandemig, ac nad oedd gweithgareddau'n cael eu cynnal fel y bwriadwyd.

*'Mae'r safonau'n cynnig fframwaith clir iawn, roedd y cyfarfodydd eu hunain yn dda iawn. Mae'n drueni bod Covid wedi ein bwrw oddi ar ein hechel'* **(Arweinydd ysgol, Ysgol Gynradd cyfrwng Saesneg)**

*'Mae'n cymryd llawer o amser i ddarllen drwyddynt. Mae pawb angen y cyfle i eistedd i lawr a gwneud hynny. Mae'n rhywbeth ychwanegol eto'.* **(Athro, Ysgol Gynradd Dwy Ffrwd)**

4.72 Er bod COVID-19 wedi effeithio ar weithgaredd penodol yn ymwneud â'r safonau, roedd yr ymarferwyr hefyd o'r farn bod sgiliau ymarferwyr wedi datblygu'n sylweddol yn ystod y pandemig. Roedd hyn yn arbennig o wir mewn perthynas ag arloesi, cydweithredu ac arweinyddiaeth. Dywedodd llawer o'r rhai a gyfwelwyd nad oeddent wedi cael cyfle eto i fyfyrio ar y cynnydd hwn.

4.73 Roedd dehongli rhai o'r safonau yn un o'r heriau a nodwyd; nododd yr ymarferwyr fod rhai o'r safonau yn anoddach i'w dehongli ac i ddangos enghreifftiau ohonynt nag eraill. Soniwyd am hyn mewn perthynas â'r disgrifyddion yn ymwneud ag arweinyddiaeth a chydweithredu ar gyfer ANG, gan yr ystyriwyd bod ganddynt lai o gyfleoedd i ddangos enghreifftiau o'r rhain. Roedd rhai ymarferwyr o'r farn bod y disgrifyddion arloesi yn fwy heriol i athrawon a oedd yn canolbwyntio ar addysgu ac asesu yng Nghyfnod Allweddol 4.

*'Mae yna ddiffyg amser i arbrofi wrth ddysgu TGAU a Lefel A'*, **(Uwch arweinydd, Ysgol Uwchradd Gymraeg)**

4.74 Cyfeiriwyd at bryderon ymarferwyr ynghylch atebolrwydd a barn wrth gwblhau hunanasesiadau fel ffactor a allai gyfyngu ar y defnydd o'r safonau. Roedd rhai arweinwyr ysgol wedi gweld rhywfaint o amharodrwydd i ddechrau ymhlith y staff i nodi a thrafod gwendidau yn eu perfformiad eu hunain.

### Sut mae rhanddeiliaid wedi ymateb i'r safonau

4.75 Mae rhanddeiliaid wedi ymateb i'r safonau mewn sawl ffordd. Mae hyn yn cynnwys datblygu adnoddau a deunyddiau sy'n ymwneud â'r safonau, hyrwyddo eu defnydd a chefnogi lleoliadau i weithredu'r safonau, er enghraifft drwy hyfforddiant neu drwy hwyluso cydweithredu.

*Barn rhanddeiliaid ar y defnydd o'r safonau mewn AGA a gweithgaredd sefydlu*

4.76 Disgrifiodd y rhanddeiliaid sut yr oedd y safonau wedi'u hymgorffori mewn AGA a gweithgaredd sefydlu, gan gynnwys datblygu gweithlyfrau dysgu proffesiynol a'r PDP. Nododd y rhanddeiliaid fod y safonau'n rhan allweddol o'r meini prawf ar gyfer achredu AGA (Llywodraeth Cymru, 2018b) a disgrifiodd sut y bu'n ofynnol iddynt ymgorffori'r safonau ym mhob agwedd ar ddarparu ac asesu modiwlau cwrs AGA. Roedd hyn yn cynnwys datblygu 'gweithlyfrau dysgu proffesiynol', yn seiliedig ar y disgrifyddion, er mwyn i ymgeiswyr ddangos eu bod wedi cyflawni'r deilliannau sy'n ofynnol i gael SAC.

4.77 Fel y nodwyd yn Adran 3.29, fe wnaeth rhai rhanddeiliaid sylwadau ar rai o'r heriau sy'n gysylltiedig â defnyddio'r safonau mewn asesiad AGA. Teimlai'r rhanddeiliaid hyn fod y safonau'n fwy heriol i'w defnyddio wrth wneud penderfyniadau asesu oherwydd eu bod yn fwy agored i'w dehongli nag yr oeddent yn flaenorol.

> *'Yr her gyda'r safonau mewn AGA yw pan fyddwch chi'n eu defnyddio i wneud penderfyniad anodd e.e. pasio/methu SAC, dydyn nhw ddim yn ddefnyddiol iawn o ran sut maen nhw'n cael eu geirio, a'r iaith a ddefnyddir. Maen nhw'n eang iawn. Mae partneriaethau AGA yn canfod heriau wrth ddefnyddio'r safonau i wneud penderfyniadau yn seiliedig ar drothwy caled ar ddiwedd eu rhaglenni.'* **(Cyfweliad â rhanddeiliad)**

4.78 Disgrifiodd y rhanddeiliaid yr ymdrechion a wnaed i oresgyn yr heriau hyn. Adroddwyd bod y partneriaethau AGA wedi gweithio ar y cyd drwy'r Cyngor Prifysgolion ac Ysgolion ar gyfer Addysg Athrawon i greu gweithgor i edrych ar ddau beth; dangos enghreifftiau o gyrraedd y safonau a sut y gellid eu defnyddio o ran asesu (gweithdrefnau cymedroli). Dywedodd y rhanddeiliaid fod y gwaith hwn wedi'i ohirio yn ystod y pandemig COVID-19 ond y gallai fod yn werthfawr o bosibl o ran cynorthwyo pobl i ddefnyddio'r safonau yn y dyfodol.

4.79 Yn yr un modd, amlygodd y rhanddeiliaid 'densiwn' rhwng defnyddio'r safonau mewn ffordd 'ddatblygiadol' (h.y. i arwain trafodaethau ar eu taith datblygiad proffesiynol yn y dyfodol) ac fel ffordd o hunanwerthuso eu sgiliau a'u cymwyseddau cyfredol yn erbyn y safonau. Nododd rhai fod y safonau'n effeithiol fel 'offeryn datblygu', gan gynnwys gweithredu fel canllawiau ar gyfer llwybrau datblygu i

ymarferwyr, ond yn llai effeithiol o ran mesur gallu, oherwydd eu bod yn oddrychol. Teimlai'r rhanddeiliaid fod hyn yn golygu bod ysgolion yn tueddu i ddefnyddio'r safonau i nodi meysydd i'w datblygu, yn hytrach nag asesu eu sefyllfa bresennol.

> *'Maen nhw'n [y safonau] ddatblygiadol ac maen nhw'n sefyllfaol, felly o ran cael cysondeb rhwng penaethiaid mewn gwahanol sefydliadau... ... mae hynny'n her.'* **(Cyfweliad â rhanddeiliad)**

4.80 Dywedodd y rhanddeiliaid y bydd y PDP yn cael ei ddefnyddio i gofnodi tystiolaeth o ddysgu fel rhan o'r cwrs MA Addysg (Cymru), cwrs sydd wedi'i ddatblygu ar y cyd gan saith o brifysgolion Cymru. Bydd cyllid ar gyfer y cwrs hwn gan Lywodraeth Cymru yn canolbwyntio'n bennaf ar athrawon yn ystod chwe blynedd gyntaf eu gyrfa, ond bydd yn agored i bob athro, waeth faint o brofiad sydd ganddo. Mae llyfrau gwaith PDP wedi'u datblygu i'w defnyddio gan fyfyrwyr sy'n cymryd rhan yn y cwrs MA Addysg (Cymru), sy'n cael ei ddarparu drwy ddull cyfunol. Nododd y rhanddeiliaid fod hyn yn debygol o gynyddu'r defnydd o'r PDP ymhlith athrawon mwy profiadol.

*Barn rhanddeiliaid ar y defnydd o'r safonau mewn gweithgaredd dysgu proffesiynol*

4.81 Disgrifiodd y rhanddeiliaid sut yr oedd y safonau wedi'u hymgorffori mewn cyrsiau hyfforddi ffurfiol. Mae'r rhain yn cynnwys y Rhaglen Datblygu Darpar CALU uchelgeisiol, y Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol, y Rhaglen Genedlaethol i Ddatblygu Darpar Benaethiaid, y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth a'r Rhaglen Datblygu Penaethiaid Profiadol. Pwysleisiodd sawl rhanddeiliad bwysigrwydd y safonau fel fframwaith cyffredin ar gyfer y cyrsiau hyn, gan nodi y dylai ymarferwyr allu gweld y cysylltiadau rhwng cyrsiau wrth iddynt ymgysylltu â nhw ar wahanol gamau yn eu gyrfa. Nododd y rhanddeiliaid hefyd fod CGA a'r Consortia Addysg Rhanbarthol yn gweithio ar y cyd i ddatblygu gweithlyfrau dysgu proffesiynol i'w defnyddio gyda phob un o'r cyrsiau uchod o 2022 ymlaen.

> '[Gan gyfeirio at y safonau] *Dyma'r edefyn euraidd sy'n clymu popeth rydyn ni'n ei wneud gyda'i gilydd. Dylai hynny fod yr un peth i ysgolion o ran yr hyn maen nhw'n ei wneud, a'r un peth i'n ANG sy'n ceisio pasio eu cyfnod sefydlu*

*- byddan nhw'n edrych ar y safonau hynny fel edefyn y maen nhw'n symud ar ei hyd.'* **(Cyfweliad â rhanddeiliad)**

*'Breuddwyd i mi yw cyrraedd statws CPCP ar ôl dechrau fel ANG, pan fyddwch chi'n cyrraedd CPCP ac yn gorfod cyflwyno'ch holl ddogfennau, byddwch chi'n gweld eich cynnydd, yr holl ffordd drwy'r rhaglenni.'* **(Cyfweliad â rhanddeiliad)**

4.82 Nododd y rhanddeiliaid fod gweithlyfr PDP yn cael ei ddatblygu ar gyfer ymarferwyr sy'n dilyn llwybr dysgu proffesiynol 'cydnabyddedig' ADY. Roedd y rhanddeiliaid yn disgwyl y byddai hyn yn cynyddu ymgysylltiad â'r safonau ymhlith y garfan hon o ddysgwyr.

4.83 Y tu allan i gyrsiau dysgu proffesiynol ffurfiol, roedd barn rhanddeiliaid ynghylch sut yr oedd ymarferwyr yn defnyddio'r safonau ar gyfer myfyrio'n feirniadol yn gyson â barn yr ymarferwyr; ystyriwyd eu bod yn cael eu defnyddio amlaf gan ANG a chan uwch arweinwyr (neu arweinwyr uchelgeisiol), ac i raddau llai gan athrawon profiadol nad oes ganddynt rôl arwain ffurfiol.

*'Maen nhw'n cael eu defnyddio'n dda ar y dechrau ac ar y brig. Byddwn i'n dweud bod y grŵp canol yn gwneud llai o ddefnydd ohonyn nhw. Os ydych chi'n ymwneud ag unrhyw raglenni hyfforddi i arweinwyr canol, yna mae'n rhaid i chi ddechrau eu defnyddio. Mae'n debyg mai athro dosbarth heb unrhyw awydd i fynd i unman arall sy'n gwneud y defnydd lleiaf ohonyn nhw'.* **(Cyfweliad â rhanddeiliad)**

4.84 Roedd y rhanddeiliaid o'r farn bod enghreifftiau o leoliadau a oedd yn defnyddio'r safonau'n effeithiol fel fframwaith ar gyfer myfyrio parhaus a gweithgaredd hyfforddi gyda'u staff addysgu. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn cael ei ystyried yn arfer eang, ac nid oedd hynny'n digwydd mewn ysgolion sydd ar gam ymgysylltu cynharach â'r safonau.

*'Mae yna newid, ac mae pethau'n gwella yn sicr. Mae yna rwystr o hyd, sef ar ôl iddynt basio eu cyfnod sefydlu, eu bod bron yn eu gweld [y safonau] braidd yn ddiangen oni bai bod yr ysgolion yn annog y daith ddysgu unigol ar gyfer y*

*gweithiwr proffesiynol hwnnw, dydyn nhw ddim yn cael eu gwerthfawrogi cymaint ag y gallent.'* **(Cyfweliad â rhanddeiliad)**

4.85 Roedd rhai Consortia Addysg Rhanbarthol wedi cyflwyno sesiynau gyda'r nod o alluogi llywodraethwyr i feithrin y ddealltwriaeth a'r hyder i drafod y safonau gydag ymarferwyr. Ystyriwyd bod y math hwn o weithgaredd yn bwysig oherwydd, yn gyffredinol, ystyriwyd mai prin oedd ymgysylltiad llywodraethwyr ysgolion â'r safonau. Awgrymodd y rhanddeiliaid hefyd, er y gallai hyfforddiant i lywodraethwyr fod yn fuddiol, mai'r prif sbardun ar gyfer ymgysylltu ymhlith llywodraethwyr fyddai p'un a yw'r safonau wedi'u hymgorffori yn nhrefniadau rheoli perfformiad lleoliadau.

*Barn rhanddeiliaid ar y defnydd o'r safonau mewn trefniadau rheoli perfformiad a hunanasesu*

4.86 Roedd y rhanddeiliaid o'r farn bod defnydd lleoliadau o'r safonau mewn trefniadau rheoli perfformiad a hunanasesu yn amrywiol, gyda'r cyfweleion yn nodi eu bod wedi gweld ystod eang o ymgysylltiad. Myfyriodd y rhanddeiliaid ar ddefnydd lleoliadau o'r PDP, gan nodi bod ymgysylltiad ymarferwyr ag ef wedi lleihau ar ôl i ymarferwyr gwblhau eu cyfnod sefydlu statudol. Priodolwyd hyn i beidio â gorfodi ymarferwyr i barhau i'w ddefnyddio yn ogystal â'r ffaith bod ysgolion yn defnyddio offer eraill i gofnodi eu gweithgaredd dysgu proffesiynol ac i reoli perfformiad.

> *'Y diffyg ar hyn o bryd yw bod gan ysgolion eu cofnodion dysgu grŵp proffesiynol eu hunain, mae'r gweithgaredd eisoes yn cael ei gofnodi ar lefel ysgol ac efallai nad yw unigolion yn gweld yr angen i'w gofnodi ar lefel bersonol.'* **(Cyfweliad â rhanddeiliad)**

4.87 Roedd rhai rhanddeiliaid wedi bod yn rhan o ddatblygu offer hunanasesu i gynorthwyo ysgolion i ddefnyddio'r safonau. Cyfeiriodd rhai at restrau chwarae Hwb a oedd yn darparu enghreifftiau ymarferol o sut y defnyddiwyd y safonau mewn ysgolion, gan gynnwys templedi hunanasesu a ddefnyddiwyd gan yr ysgolion.[30] Gwnaeth rhai rhanddeiliaid sylwadau ar y risg bosibl y byddai ymarferwyr yn defnyddio offer hunanasesu lle roeddent yn 'sgorio' eu hunain yn erbyn y

[30] Gweler *Rheoli Perfformiad ac Ymchwil Un Dudalen - Rhestr Chwarae Hwb*

disgrifyddion, heb sicrhau bod eu trafodaethau eraill am ddatblygiad proffesiynol yn canolbwyntio ar y safonau yn fwy manwl. Teimlai rhai fod risg y byddai'r ymgysylltiad yn 'arwynebol' heb y trafodaethau cysylltiedig hyn.

> *'Mae rhai ysgolion yn gwneud defnydd effeithiol iawn ohonyn nhw, mae rhai yn meddwl bod nhw'n neud defnydd effeithiol ond dim ond yn cyfeirio atyn nhw mewn systemau rheoli perfformiad, a dyw rhai ddim mor effeithiol.'* **(Cyfweliad â rhanddeiliad)**

4.88 Mae dogfen ganllaw Llywodraeth Cymru *Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth: Defnyddio'r safonau,* yn awgrymu bod lleoliadau'n defnyddio'r PDP i gofnodi eu profiadau ac y dylent geisio '*osgoi… datblygu ffurflenni a systemau cofnodi'r ysgol'.*[31] Mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod ymarferwyr yn gwerthfawrogi defnyddio rhai o'r offer a'r ffurflenni sydd wedi'u datblygu neu eu mabwysiadu gan eu lleoliad. Ategwyd hyn gan rai rhanddeiliaid, a wnaeth sylwadau ar fanteision ysgolion yn defnyddio offer hunanasesu i annog ymgysylltiad cychwynnol ymarferwyr â'r safonau, fel llwybr i greu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ohonynt.

> *'Mae'n bwysig peidio â rhoi gormod o bwyslais ar eu deall [y safonau] ar unwaith. Mae angen i chi gael yr athrawon i ymgysylltu â nhw yn gyntaf, i fyfyrio a gweld 'ble maen nhw' ac yna cael sgwrs am hynny. Dydych chi ddim eisiau eu dychryn. Daw'r ddealltwriaeth drwy eu defnyddio.'* **(Cyfweliad â rhanddeiliad)**

4.89 Fe wnaeth y rhanddeiliaid sylwadau tebyg i'r ymarferwyr ar yr hyn yr oeddent yn ei ystyried yn fwlch mawr rhwng y disgrifyddion lefel is a lefel uwch. Cyfeiriodd rhai rhanddeiliaid at offer yr oeddent hwy (Consortia Addysg Rhanbarthol) neu eraill (cyflenwyr masnachol) wedi'u datblygu i geisio llenwi'r bwlch rhwng cwblhau rhaglen sefydlu statudol ac 'arfer hynod effeithiol parhaus'.

> *'Rhaid iddo fod yn hygyrch i bawb, nid yn gam mawr lle mae pobl yn awchu i gyrraedd y safon euraidd rydych chi'n gweithio tuag ati.'* **(Cyfweliad â rhanddeiliad)**

---

[31] Gweler Sut orau i ddefnyddio'r safonau (Hwb)

4.90 Roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid o'r farn bod angen mwy o ddeunydd enghreifftiol i gynorthwyo ysgolion i ddefnyddio a dehongli'r safonau. Pwysleisiwyd hyn yn arbennig mewn perthynas â lleoliadau a oedd ar gam cynharach o ran eu hymgysylltiad â'r safonau. Yn yr un modd â'u sylwadau ar dempledi hunanasesu uchod, roedd rhai rhanddeiliaid yn teimlo bod risg bosibl y byddai lleoliadau'n mabwysiadu templedi neu'n defnyddio enghreifftiau heb eu haddasu i'w lleoliad eu hunain. Fodd bynnag, roedd y mwyafrif o'r farn y byddai'r mathau hyn o ddeunyddiau, ochr yn ochr â chymorth priodol, yn helpu lleoliadau ac ymarferwyr i ddefnyddio'r safonau a dod yn fwy cyfarwydd â nhw.

*Barn rhanddeiliaid ar y defnydd o'r safonau: cydweithredu*

4.91 Roedd rhai Consortia Addysg Rhanbarthol wedi hwyluso sesiynau cydweithredol rhwng lleoliadau i ddangos sut y gellid defnyddio'r safonau'n effeithiol. Yn nodweddiadol roedd y rhain yn cynnwys ysgolion yn cyflwyno ac yn trafod sut yr oeddent wedi defnyddio'r safonau fel rhan o'u gweithgaredd datblygu ysgol a'u gweithgaredd dysgu proffesiynol.

4.92 Cyfeiriodd rhai rhanddeiliaid at enghreifftiau o rwydweithiau dysgu proffesiynol a oedd yn defnyddio'r safonau fel fframwaith ar gyfer eu gweithgareddau. Cyfeiriodd rhai rhanddeiliaid at fwy o weithgaredd cydweithredol yn rhai o'r rhwydweithiau hyn yn ystod y pandemig COVID-19, gan gynnwys rhwydweithiau sydd wedi'u hanelu at rolau penodol (e.e. CA). Teimlai rhai rhanddeiliaid fod y rhwydweithiau hyn yn atgyfnerthu gweithgaredd ymholi gweithredol mewn rhai lleoliadau.

*Barn rhanddeiliaid ar weithgaredd pellach i ymgorffori'r safonau*

4.93 Dywedodd un rhanddeiliad ei fod wedi datblygu templedi ar gyfer swydd-ddisgrifiadau ymarferydd yn ymwneud â gwahanol rolau gan ymgorffori'r safonau ynddynt. Y bwriad oedd rhannu'r rhain ag awdurdodau lleol ac ysgolion mewn ymgais i sicrhau bod swydd-ddisgrifiadau yn cyfeirio'n fwy cyson at y safonau.

4.94 Mynegodd y rhanddeiliaid ystod eang o safbwyntiau ynghylch a ddylid ymgorffori'r safonau ymhellach mewn swydd-ddisgrifiadau a chontractau cyflogaeth. Mynegodd rhai farn y byddai gwneud hynny yn rhoi mwy o statws ac amlygrwydd i'r safonau,

gan sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n fwy cynhwysfawr ar draws pob rôl a lleoliad. Fodd bynnag, roedd eraill yn teimlo bod natur y safonau yn golygu na fyddai hyn yn briodol; roedd y rhanddeiliaid hyn yn teimlo y byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r safonau gael eu diffinio'n gliriach ac yn fwy manwl a fyddai, yn eu barn hwy, yn creu'r perygl y byddai'r safonau'n cael eu hystyried yn llai datblygiadol, ac o bosibl yn annog dull 'ticio blychau'.

**Crynodeb o'r canfyddiadau: y defnydd o'r safonau**

- Mae i ba raddau y mae ymarferwyr yn defnyddio'r safonau yn amrywio ar draws a rhwng lleoliadau. Awgryma'r canfyddiadau fod hyn yn dibynnu ar nifer o ffactorau gan gynnwys:
    - y pwyslais a roddir arnynt gan arweinwyr lleoliadau;
    - i ba raddau y maent wedi'u hymgorffori mewn prosesau rheoli perfformiad gan gynnwys y templedi a'r offer hunanasesu sy'n cael eu defnyddio mewn lleoliadau;
    - a oes amser penodol yn cael ei ddyrannu i ymarferwyr fyfyrio ar y safonau (e.e. i gwblhau offer hunanasesu neu'r PDP);
    - a yw'r lleoliad a/neu ei ymarferwyr yn cymryd rhan mewn prosesau AGA neu sefydlu;
    - a yw ymarferwyr yn dilyn cyrsiau arweinyddiaeth ffurfiol.
- Mae lleoliadau sydd wedi ymgorffori'r safonau yn nhrefniadau datblygu eu hysgol a'u staff yn eu gwerthfawrogi ac yn eu hystyried yn fuddiol, er bod y defnydd o'r safonau'n amrywio yn ôl rôl yn yr ysgolion hyn.
- Defnydd cyfyngedig a wneir o'r safonau mewn rhai lleoliadau, gyda rhywfaint o weithgaredd codi ymwybyddiaeth cychwynnol wedi'i nodi ond llai o dystiolaeth bod y safonau'n cael eu hymgorffori mewn gweithgaredd dysgu proffesiynol a rheoli perfformiad.

- Mae'r safonau'n tueddu i gael eu defnyddio'n llai aml gan rai ymarferwyr, yn benodol CA ac athrawon mwy profiadol nad ydynt wedi dilyn cyrsiau arweinyddiaeth ffurfiol.
- Mae rhai lleoliadau wedi ymgorffori'r safonau yn eu gweithgaredd dysgu a datblygu proffesiynol; fodd bynnag, mae'r mwyafrif yn ystyried eu bod ar 'gam cynnar' o ran eu gweithredu.
- Mae COVID-19 wedi arwain at ohirio neu gyfyngu gweithgaredd a gynlluniwyd yn ymwneud â'r safonau yn ystod 2020 a 2021. Fodd bynnag, mae lleoliadau o'r farn bod llawer o gynnydd wedi'i wneud o ran datblygiad proffesiynol yn erbyn rhai o'r safonau, yn enwedig arloesi.
- Ystyrir bod y safonau yn offeryn effeithiol i nodi'r disgwyliadau ar gyfer ymarferwyr fel gweithwyr proffesiynol. Cânt eu gwerthfawrogi fel offeryn datblygu ond mae gwahaniaeth barn ynghylch eu defnyddio mewn strwythurau mwy ffurfiol fel swydd-ddisgrifiadau.
- Mae lleoliadau o'r farn ei bod yn bwysig bod y Safonau Proffesiynol ar gyfer Cynorthwyo Addysgu wedi'u datblygu gan eu bod yn helpu i ategu gweithgaredd dysgu proffesiynol ar gyfer staff cymorth.
- Mae'r safonau'n cael eu gwerthfawrogi gan ymarferwyr mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion gan eu bod yn teimlo eu bod yn rhoi mwy o statws i weithwyr proffesiynol yn y sector.
- Mae lleoliadau lle mae ymarferwyr yn credu bod y safonau'n cael eu defnyddio'n effeithiol yn tueddu i:
    - Fod ag arweinwyr sydd wedi rhoi cryn bwyslais ar y safonau, a hynny'n aml ers nifer o flynyddoedd;
    - Meddu ar ddiwylliant o ddysgu proffesiynol gyda chyfleoedd rheolaidd i staff drafod a dadansoddi agweddau ar y safonau mewn ffordd anfygythiol fel rhan o ddeialog broffesiynol;

- Meddu ar ddull dysgu proffesiynol cydweithredol sy'n annog ymarferwyr i gymryd perchnogaeth o'u gweithgaredd dysgu proffesiynol;
- Mabwysiadu offer i ymarferwyr hunanasesu yn erbyn y safonau, hyfforddi staff i'w defnyddio a defnyddio'r offer hyn (neu fwriadu eu defnyddio) fel rhan o brosesau rheoli perfformiad;
- Datblygu dulliau sy'n eu galluogi i sicrhau cydbwysedd rhwng defnyddio'r safonau ar gyfer myfyrio ar lefel unigol a chasglu data a all lywio'r gwaith o gynllunio dysgu proffesiynol ar lefel lleoliad.
- Annog ymarferwyr i ddefnyddio safonau fel rhan 'naturiol' o drafodaethau wrth rannu eu myfyrdodau a'u profiadau gyda chydweithwyr.

## 5. Y cymorth sydd ar gael i ddefnyddio'r safonau

5.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno'r canfyddiadau sy'n ymwneud â barn ymarferwyr a rhanddeiliaid am y cymorth sydd ar gael i ysgolion ac ymarferwyr ddefnyddio'r safonau. Gofynnwyd i'r rhai a gyfwelwyd hefyd sut y gellid gwella'r cymorth sydd ar gael iddynt ar draws y tair haen (cymorth ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol ac ysgol).

**Barn am y cymorth a ddarperir i ymarferwyr ddefnyddio'r safonau**

5.2 Roedd barn y cyfranogwyr am y cymorth a oedd ar gael iddynt hwy a'u cydweithwyr yn amrywio. Roedd hyn yn tueddu i fod yn ddibynnol ar y wybodaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i'r Consortia Addysg Rhanbarthol, gan y Consortia Addysg Rhanbarthol i bob ysgol, a chan uwch arweinwyr ym mhob ysgol i ymarferwyr ar wahanol lefelau.

5.3 Roedd yr amrywiad yn y cymorth a oedd ar gael yn amlwg gyda llawer o ymarferwyr yn nodi eu bod yn cael cymorth rhagorol gan eu hysgolion a'u Consortia Addysg Rhanbarthol, ond roedd eraill yn anghytuno, gan egluro y gallai'r Consortiwm Addysg Rhanbarthol a'r ysgol roi rhagor o gymorth iddynt. Ymhlith yr enghreifftiau o gymorth a ystyriwyd yn effeithiol gan y rhai a gyfwelwyd roedd:

- Diwrnodau HMS gyda'r consortia yn cyflwyno sesiynau ar y safonau;
- Cyfleoedd hyfforddi a seminarau arbenigol a ddarperir gan y consortia;
- Canllawiau a chymorth a ddarperir yn fewnol gan uwch arweinwyr ysgol;
- Consortia a CGA ar gael i siarad ag ymarferwyr dros yr e-bost neu'r ffôn os oes angen cymorth pellach;
- Gweminarau consortia sy'n awgrymu syniadau ar sut i ddangos tystiolaeth o'r safonau;
- Taenlenni hunanwerthuso ymarferwyr yn seiliedig ar y disgrifyddion o'r safonau wedi'u datblygu gan y consortia ac ysgolion;
- Gweithgareddau codi ymwybyddiaeth gan y consortia e.e. podlediad, sioe deithiol a llyfrynnau ar 'agweddau hanfodol i'w hystyried';

- Cymorth drwy raglenni ac offer allanol fel Xlence, Hwb, Teaching Continua, consortia ac offer taenlenni eraill.

5.4 Roedd yr ymarferwyr o'r farn bod mwy o gymorth a gwybodaeth ar gael pan lansiwyd y safonau i ddechrau, gydag ysgolion yn teimlo bod y cymorth hwn wedi lleihau ers hynny. Ni allai ambell uwch arweinydd gofio unrhyw gymorth neu hyfforddiant penodol ar y safonau a gafwyd drwy'r consortia neu gan Lywodraeth Cymru. Efallai fod yr amrywiad yn y cymorth sydd ar gael yn dangos y dylid darparu mwy o gymorth i ysgolion sydd wedi cymryd llai o ran mewn rhaglenni sydd wedi canolbwyntio ar weithgaredd dysgu proffesiynol a'r safonau (e.e. ysgolion nad ydynt yn Ysgolion Arloesi).

5.5 Soniodd rhai rhanddeiliaid fod cymorth da ar gael i ymarferwyr ac ysgolion ar gyfer cefnogi'r rhai ar ddechrau eu gyrfaoedd, ac yn yr un modd, pan ddaw ymarferwyr yn arweinwyr canol, drwy raglenni arweinwyr canol. Yn gyffredinol, rhoddodd arweinwyr canol adborth cadarnhaol ynghylch y cymorth a roddwyd iddynt gyda'r safonau. Roedd un cyfwelai wedi cael hyfforddiant gan y consortia ac roedd yn teimlo bod hynny wedi caniatáu iddo gefnogi'r ysgol yn llawn. Roedd y cymorth hwn yn benodol i'w rôl a'i gyfrifoldebau ac roedd yn 'gymorth da iawn, mae'r consortia yn darparu seinfwrdd da i ysgolion.'

5.6 Fel y nodwyd yn Adran 3.8, yn gyffredinol roedd y rhai a gyfwelwyd yn teimlo bod ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r safonau ymhlith ANG yn uchel. Mewn rhai ysgolion, cyfeiriodd ymarferwyr at enghreifftiau o ANG yn arwain sesiynau ac yn cyflwyno gwybodaeth am y safonau i staff eraill yn ystod diwrnodau HMS. Roedd ymarferwyr o'r farn bod hyn yn ffordd effeithiol o alluogi ANG i arddangos a dangos tystiolaeth o'u harweinyddiaeth yn ogystal â chefnogi staff eraill drwy rannu gwybodaeth am y safonau. Roedd uwch arweinwyr o'r farn ei bod yn fuddiol manteisio ar y lefelau uchel o ymwybyddiaeth o'r safonau ymhlith ANG, gydag un yn nodi *'mae lefel yr athrawon newydd wedi codi'r bar o ran addysgu a dysgu effeithiol'.* **(Uwch arweinydd, Ysgol Uwchradd Cyfrwng Saesneg)**

5.7 Nododd rhai rhanddeiliaid hefyd fod ANG yn fwy cyfarwydd â'r iaith a ddefnyddir yn y safonau, ac y gallai defnyddio ANG i ledaenu gwybodaeth i eraill am sut i

ddefnyddio'r safonau fod yn ffordd effeithiol o gynorthwyo staff eraill i ddefnyddio'r safonau.

**Barn am y cymorth a ddarperir i ymarferwyr ddefnyddio'r safonau**

5.8 Daeth themâu i'r amlwg yn ymwneud â'r cymorth sydd ar gael i ysgolion ac eraill sy'n gweithredu'r safonau. Roedd y themâu hyn fel a ganlyn:

- Yr angen am ganllawiau cliriach ar gyfer lefelau amrywiol o ymarferwyr/staff cymorth ar sut i ddehongli'r safonau ac ymgysylltu'n llawn â nhw, mae hyn yn cynnwys CA, ANG, llywodraethwyr ac arweinwyr canol;
- Byddai codi ymwybyddiaeth yn barhaus yn cefnogi ymgysylltiad pellach â'r safonau;
- Yr angen i raeadru cymorth mewn ffordd fwy strwythuredig ledled Cymru;
- Rhagor o amser a chapasiti i athrawon allu gweithio ar y safonau yn ystod cyfnodau hunanfyfyrio.

**Canllawiau ychwanegol a ffyrdd ymarferol o ddehongli'r safonau**

5.9 Esboniodd rhai ymarferwyr eu bod yn ei chael hi'n anodd cysylltu'r safonau â'u dilyniant gyrfa eu hunain. Teimlai ymarferwyr, er bod y safonau'n ddefnyddiol ac yn offeryn da ar gyfer hunanarfarnu, bod angen rhoi mwy o bwyslais arnynt fel eu bod yn cael eu defnyddio'n amlach. Soniodd ambell ANG yn benodol bod angen rhagor o arweiniad arnynt ynghylch sut i ddadansoddi'r safonau a'r disgrifyddion, er mwyn eu defnyddio o ddydd i ddydd.

5.10 Nododd y rhai a gyfwelwyd ystod o ffyrdd y gellid cefnogi ymarferwyr yn well i ddefnyddio a dehongli'r safonau yn ymarferol. Awgrymodd rhai ymarferwyr y gallai pob safon gysylltu ag enghreifftiau o arfer da gan ysgolion eraill, megis sut roeddent wedi cofnodi eu profiadau yn erbyn y disgrifyddion hyn. Cynigiodd ambell un a gyfwelwyd y gallai'r safonau gynnwys enghreifftiau o bapurau ymchwil sy'n ymwneud â'r safonau penodol hynny er mwyn rhoi enghreifftiau ymarferol i ymarferwyr o sut i ddehongli gwahanol elfennau o'r safonau.

5.11 Roedd enghreifftiau eraill o offer ymarferol a allai gysylltu â'r safonau yn cynnwys ffyrdd o gysylltu pob disgrifydd ag enghreifftiau o hyfforddiant y gallai ymarferwyr

fanteisio arno, a ffyrdd pellach o rannu'r hyn a ddysgwyd ac arfer gorau ag ysgolion eraill sydd wedi gweithio ar agwedd benodol ar y safonau.

5.12 Credai'r rhanddeiliaid hefyd mai cael teclyn rhyngweithiol, hawdd ei ddefnyddio oedd fwyaf effeithiol o ran caniatáu i ymarferwyr gymryd perchnogaeth o'r safonau.

> *'Yn y gorffennol, bu gormod o ddogfennau hir gan Lywodraeth Cymru, sy'n tueddu i fod yn ffeil ar silff sy'n casglu llwch - Yn achos y Safonau, mae'r wybodaeth sydd ar gael ar Hwb yn rhyngweithiol ac yn hawdd ei defnyddio.'* **(Cyfweliad â rhanddeiliad)**

5.13 Teimlai'r rhanddeiliaid hefyd y gallai hyn gael ei wella ymhellach drwy gael opsiynau ar ffurf cwymplenni gan gynnwys astudiaethau achos ac enghreifftiau o arfer da mewn ysgolion eraill. Soniodd y rhanddeiliaid fod angen rhagor o wybodaeth am sut mae'r safonau'n cefnogi gweithgareddau cysylltiedig gan gynnwys rheoli perfformiad, ymchwil weithredol a datblygu'r ysgol fel sefydliad sy'n dysgu.

5.14 Soniodd y rhai a gyfwelwyd o Unedau Cyfeirio Disgyblion y byddent yn gwerthfawrogi cymorth ac arweiniad ychwanegol i ddefnyddio'r safonau, ynghyd ag ystod ehangach o gyfleoedd datblygu proffesiynol cysylltiedig. Esboniodd y rhanddeiliaid sy'n darparu cymorth i ymarferwyr ac ymarferwyr fod datblygu a chynnal eu gweithgaredd dysgu proffesiynol mewn meysydd fel Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE), ymddygiad, ADY a llesiant disgyblion yn bwysig i ddatblygiad proffesiynol staff. Teimlai'r ymarferwyr y byddai sesiynau hyfforddi arbenigol ar bynciau'r cwricwlwm yn annog datblygiad proffesiynol pellach i staff mewn pynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau o ddydd i ddydd, ac yn cryfhau gwybodaeth a dealltwriaeth o'r safonau o fewn Unedau Cyfeirio Disgyblion.

*Canllawiau cliriach ar gyfer gwahanol lefelau o ymarferwyr - ANG*

5.15 Nododd ambell ANG y byddai cymorth ychwanegol ac arweiniad cliriach ar ddefnyddio'r safonau wedi bod yn werthfawr iddynt. Esboniodd yr ymarferwyr, er eu bod yn cael eu haddysgu am y safonau a bod disgwyl iddynt gasglu tystiolaeth yn eu herbyn, nid oedd yn amlwg ar unwaith iddynt sut y dylent wneud hyn, a pha fath o dystiolaeth a fyddai’n cael ei hystyried yn ddilys. Esboniodd un: *'Gallai fod yn*

*llethol i ddechrau, gan fod rhai yn eithaf tebyg i'w gilydd ac yn anodd eu deall.'* Teimlai rhai ymarferwyr y dylai darparwyr AGA roi arweiniad mwy penodol ar y safonau a sut i'w defnyddio'n ymarferol drwy gydol gyrfaoedd athrawon.

*Canllawiau cliriach ar gyfer gwahanol lefelau o ymarferwyr - CA*

5.16 Roedd ymarferwyr a rhanddeiliaid o'r farn bod diffyg arweiniad clir, hyfforddiant a chymorth ar ddefnyddio'r safonau sydd ar gael i Gynorthwywyr Addysgu mewn ysgolion. Nododd nifer o CA yr hoffent gael cymorth a gwybodaeth bellach ar ble i ddod o hyd i gyfleoedd hyfforddi sy'n benodol berthnasol i'w rolau, wedi'u cysylltu â'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Cynorthwyo Addysgu.

5.17 Esboniodd y CA a gafodd eu cyfweld fel rhan o'r gwerthusiad eu bod yn aml yn gorfod penderfynu a oedd hyfforddiant ar y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth (yn hytrach na'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Cynorthwyo Addysgu) yn berthnasol iddynt, gan fod 'ambell faes nad oeddent mor berthnasol nac yn ddefnyddiol iawn.' Soniodd ambell CA ei fod wedi mynychu hyfforddiant penodol wedi'i dargedu at ei rôl, ond roedd hwn yn ddatblygiad cymharol newydd.

> *'Pe byddem am wella maes neu ddisgrifydd, fyddwn i ddim yn gwybod pa hyfforddiant sydd ar gael na ble i ddod o hyd iddo. Roedd y consortia'n trefnu rhai cyfarfodydd am gyfnod, ond doedd dim digon o bobl yn bresennol, felly daethant i ben. Byddai mwy o wybodaeth am ble y gall CA ddod o hyd i hyfforddiant yn ddefnyddiol.'* **(CA, Ysgol Uwchradd Cyfrwng Saesneg)**

5.18 Nododd rhanddeiliaid, oherwydd nad yw CA o reidrwydd ymuno â'r proffesiwn drwy'r llwybr AGA, sy'n cwmpasu'r safonau'n fwy manwl, bod angen hyfforddiant a chymorth ychwanegol arnynt er mwyn i ymarferwyr newydd sy'n ymuno â'r proffesiwn ddeall ac ymgysylltu'n llawn ag iaith ac egwyddorion y Safonau Proffesiynol ar gyfer Cynorthwyo Addysgu. Fe wnaethant sôn hefyd y byddai cynnwys rhai enghreifftiau ymarferol yn 'dangos yn well yr hyn y mae'r mesurau ffurfiol yn ei olygu yn ymarferol.' Soniodd un rhanddeiliad fod y Safonau Proffesiynol ar gyfer Cynorthwyo Addysgu 'bron yn teimlo fel ôl-ystyriaeth', gyda llawer o randdeiliaid yn nodi y bu llai o gymorth yn gyffredinol i CA o ran y safonau.

Awgrymodd rhanddeiliad arall y dylai'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Cynorthwyo Addysgu gyfateb yn fwy clos â threfniadau rheoli perfformiad CA.

> *'Os ydym am i'r safonau hyn gael eu trosglwyddo i gynorthwywyr addysgu, mae angen iddynt fod yn hygyrch, mae angen cyllid... ac mae angen i ni edrych ar Gymru i annog cynorthwywyr addysgu i gymryd perchnogaeth o'u gyrfaoedd a'u datblygiad proffesiynol.'* **(Cyfweliad â rhanddeiliad)**

*Canllawiau cliriach ar gyfer ymarferwyr profiadol nad ydynt yn dilyn llwybrau arweinyddiaeth ffurfiol*

5.19 Cododd y rhanddeiliaid y ffaith bod 'bwlch allweddol' yn y cymorth sydd ar gael i ymarferwyr nad ydynt efallai am gamu ymlaen yn eu gyrfaoedd i swydd uwch, ond a hoffai barhau i weithio ar eu datblygiad proffesiynol.

> *'Efallai bod llesgedd ymhlith athrawon hŷn, gyda rhywfaint o amharodrwydd i ymgysylltu. Mae hyn yn gofyn am waith parhaus i godi ymwybyddiaeth ac annog ymgysylltiad ag ysgolion.'* **(Cyfweliad â rhanddeiliad)**

5.20 Yn yr un modd, nododd y rhanddeiliaid y gallai fod angen cymorth ychwanegol ar gyfer yr ysgolion hynny sy'n ymwneud i raddau llai â'r safonau, er enghraifft, y rhai nad ydynt yn ymwneud ag unrhyw waith ymchwil yn seiliedig ar ymholi neu nad ydynt yn ysgolion partner AGA.

*Canllawiau cliriach i gefnogi staff - llywodraethwyr*

5.21 Roedd rhai rhanddeiliaid o'r farn bod angen rhagor o gymorth a hyfforddiant pellach i lywodraethwyr er mwyn codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r safonau. Awgrymodd ambell randdeiliad y gellid darparu'r math hwn o gymorth drwy'r consortia addysg rhanbarthol, gydag un rhanddeiliad yn awgrymu y gallai rhwydweithiau llywodraethwyr lleol fod yn rhan o'r broses o ledaenu gwybodaeth am y safonau. Disgrifiodd un rhanddeiliad ei rwydwaith llywodraethwyr lleol 'fel fforwm da [i lywodraethwyr] i wyntyllu syniadau a seinfwrdd da.' Efallai y bydd angen cyfleoedd hyfforddi pellach i sicrhau bod llywodraethwyr yn cael gwybodaeth lawn am y safonau ac yn gallu cefnogi eu hysgolion mor effeithiol â phosibl.

**Byddai codi ymwybyddiaeth yn barhaus yn cefnogi rhagor o ymgysylltu â'r safonau**

5.22 Disgrifiodd y cyfranogwyr amrywiaeth o weithgareddau codi ymwybyddiaeth a drefnwyd gan eu consortia a chan uwch arweinwyr yn eu hysgolion. Soniwyd bod y mwyafrif o sesiynau codi ymwybyddiaeth wedi digwydd pan lansiwyd y safonau gyntaf, a bod llai o weithgaredd yn ddiweddar. Nododd ambell randdeiliaid fod y gweithgareddau codi ymwybyddiaeth hyn wedi newid i fod yn ganllaw a chyngor ymarferol i arweinwyr ysgol ar sut i ymgorffori'r safonau mewn datblygiad proffesiynol.

5.23 Pan ofynnwyd iddynt sut y gellid gwella'r cymorth sydd ar gael, soniodd yr ymarferwyr a'r rhanddeiliaid y byddai parhau i godi ymwybyddiaeth o'r safonau yn sicrhau y byddai staff yn teimlo eu bod yn cael cymorth i ymgysylltu â'r safonau yn eu hysgolion *'i sicrhau bod ymarferwyr yn cael eu hatgoffa o'r safonau ac yn parhau i feddwl amdanynt.'* **(Cyfweliad â rhanddeiliad)**

5.24 Teimlai ambell randdeiliad ac ymarferydd fod cyfle i Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid 'ail-lansio'r' safonau ar ôl cyfnod heriol i ysgolion yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oherwydd COVID-19, pan oedd mwy o ffocws gweithredol ar y pandemig, a llai ar gynllunio strategol. Teimlai'r cyfweleion hyn y byddai atgoffa, atgyfnerthu ac ailennyn diddordebau ac ymrwymiad ymarferwyr tuag at y safonau 'yn cael ei groesawu, er mwyn ad-drefnu pethau a chychwyn o'r newydd.' Roedd y rhai a gyfwelwyd hefyd o'r farn y byddai angen ystyried amseriad a chynnwys unrhyw weithgaredd codi ymwybyddiaeth yn ofalus o ran yr amseriad a'r negeseuon a rennir.

> *'Mae angen i Lywodraeth Cymru werthfawrogi bod ymarferwyr wedi bod yn gweithio'n ddwys iawn felly bydd cywair yr iaith yn bwysig. Dylai'r sector gydgreu'r ymdrechion.'* **(Cyfweliad â rhanddeiliad)**

5.25 Soniodd yr ysgolion hefyd eu bod yn teimlo eu bod wedi 'colli ychydig o fomentwm' gyda'r safonau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac awgrymwyd y byddai sesiynau atgoffa ac ymarferion codi ymwybyddiaeth yn adfer eu ffocws, gan fod *'llawer o*

*bethau wedi symud i lawr y rhestr flaenoriaethau eleni.'* Soniwyd hefyd y dylai hyfforddiant a chyfleoedd codi ymwybyddiaeth barhau i gefnogi ymarferwyr yn llawn a chynnal momentwm.

Rhaeadru cymorth mewn ffordd fwy strwythuredig ledled Cymru

5.26 Roedd y rhanddeiliaid hefyd yn teimlo y byddai dull gweithredu mwy cyson ledled Cymru yn sicrhau bod pob ysgol yn teimlo ei bod yn cael cefnogaeth lawn yn ei hymdrechion i drwytho ei hun yn y safonau. Eglurwyd bod y cymorth yn amrywio ar draws y consortia, ac yr hoffent gael mwy o eglurder gan eu consortia ynghylch y safonau. Soniwyd y byddai dull mwy cydweithredol ledled Cymru drwy lwyfannau digidol yn sicrhau digon o gymorth a darpariaeth i ymarferwyr.

> *'Nid yw lefel y cymorth yn iawn, mae yna bwysau gan Lywodraeth Cymru i sicrhau cymorth 'cyson' ond dwi i ddim yn siŵr bod y negeseuon yn cael eu cyfleu yn glir ac yn gyson.'* **(Cyfweliad â rhanddeiliad)**

> *'Mae perfformiad ac ansawdd yn wahanol iawn rhwng rhanbarthau.'* **(Cyfweliad â rhanddeiliad)**

5.27 Roedd ymarferwyr a rhanddeiliaid yn tueddu i ddisgrifio hyfforddiant fel hyfforddiant 'ad hoc' gan y consortia; roedd un enghraifft o hyn yn cynnwys y llwybr addysgu a dysgu. Roedd hyfforddiant 'ad hoc' arall yn cynnwys hyfforddiant gan yr Undebau, y Brifysgol Agored a chwmnïau allanol. Teimlai rhai ymarferwyr a rhanddeiliaid fod amrywiaeth eang o sefydliadau yn darparu hyfforddiant ac nid oedd yn amlwg iddynt pwy oedd yn gyfrifol am ddarparu pa fath o gymorth ar gyfer defnyddio'r safonau. Gyda nifer fawr o ddarparwyr yn barod i rannu eu cymorth a'u hyfforddiant gydag ysgolion, *'nid oes neb yn gwybod pa lwybr i'w ddilyn.'*

**Rhagor o amser a chapasiti i athrawon allu gweithio ar y safonau yn ystod cyfnodau hunanfyfyrio**

5.28 Awgrymodd yr ymarferwyr a'r rhanddeiliaid fod angen mwy o amser ar athrawon a staff i flaenoriaethu'r safonau a deall y disgrifyddion. Canfyddir bod hyn yn gysylltiedig â diffyg cyllid, sy'n cael effaith ar allu ysgolion i ryddhau staff i ymgymryd â hyfforddiant, datblygiad proffesiynol a hunanfyfyrio. Cymharodd un cyfranogwr ei

brofiadau fel ymarferydd, â’i flwyddyn ANG ac esboniodd, oherwydd cyfyngiadau amser, nad yw’n gallu myfyrio ar y safonau yn rheolaidd, *'yn ystod y flwyddyn ANG fe wnaethom lawer o ddefnydd ohonynt felly rydych chi'n dod yn gyfarwydd â nhw ac yn meddwl amdanyn nhw o ddydd i ddydd... does dim amser gennym i dwrio drwy'r wybodaeth'.* **(**Arweinydd canol, Ysgol Cyfrwng Saesneg)

5.29 Dywedodd yr ymarferwyr a'r rhanddeiliaid fel ei gilydd y gall Unedau Cyfeirio Disgyblion ei chael hi'n arbennig o anodd rhyddhau staff er mwyn ymgymryd â gweithgareddau dysgu proffesiynol oherwydd anawsterau ychwanegol yn dod o hyd i staff cyflenwi. Awgrymodd y rhanddeiliad fod Unedau Cyfeirio Disgyblion o bosibl yn ymgysylltu â'r safonau i raddau llai oherwydd y rhwystrau ychwanegol hyn.

**Crynodeb o'r canfyddiadau: cymorth**

- Roedd amrywiad yn y cymorth a oedd ar gael i ymarferwyr gyda rhai yn nodi eu bod wedi cael cymorth rhagorol gan eu hysgol a'u consortia, ac eraill yn dweud nad oeddent wedi cael hynny.
- Roedd ymarferwyr o'r farn bod mwy o gymorth a gwybodaeth ar gael pan lansiwyd y safonau i ddechrau, a dywedwyd bod llai o gymorth ar gael yn fwy diweddar. Dywedodd yr ymarferwyr fod y pandemig wedi effeithio ar fomentwm wrth ymgysylltu â'r safonau, gan nodi bod angen cynyddu'r cymorth a'r wybodaeth sydd ar gael.
- Adroddwyd bod cymorth da ar gael i ymarferwyr ac ysgolion i gefnogi'r ymarferwyr hynny ar ddechrau eu gyrfaoedd a'r rhai ar raglenni arweinwyr canol.
- Roedd nifer o enghreifftiau o ANG yn arwain sesiynau ar y safonau i staff eraill yn ystod diwrnodau HMS, gan fod ANG yn fwy cyfarwydd ag iaith y safonau a'r defnydd ohonynt.
- Mae'r ymarferwyr a'r rhanddeiliaid o'r farn bod diffyg arweiniad a hyfforddiant clir wedi'u hanelu'n benodol at Gynorthwywyr Addysgu, a bod angen mwy o gymorth i gynyddu'r defnydd o'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Cynorthwyo Addysgu mewn ysgolion.

- Byddai cymorth ychwanegol i ymarferwyr ar ddefnyddio'r safonau yn cael ei werthfawrogi. Roedd hyn yn cynnwys:
    - Canllawiau cliriach ar gyfer gwahanol lefelau o ymarferwyr / staff ategol ar sut i ddehongli'r safonau;
    - Gweithgareddau codi ymwybyddiaeth parhaus i gefnogi rhagor o ymgysylltu â'r safonau;
    - Yr angen i raeadru cymorth mewn ffordd fwy strwythuredig ledled Cymru i sicrhau cysondeb o ran y cymorth sydd ar gael i ymarferwyr / staff cymorth;
    - Rhagor o amser a chapasiti i athrawon allu gweithio ar y safonau yn ystod cyfnodau hunanfyfyrio.

## 6. Effaith ganfyddedig a disgwyliedig

6.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno'r canfyddiadau sy'n ymwneud â'r effeithiau y mae ymarferwyr a rhanddeiliaid yn eu hystyried sy'n deillio o'r safonau a barn am yr effeithiau y maent yn disgwyl i'r safonau eu cael yn y dyfodol.

6.2 Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymarferwyr a'r rhanddeiliaid a gyfwelwyd na fyddai effeithiau'r safonau i'w gweld am nifer o flynyddoedd. Esboniodd y cyfweleion fod hyn, yn eu barn nhw, oherwydd bod y rhan fwyaf o ysgolion ar gam ymgysylltu cynnar â'r safonau, a bod hyn yn golygu nad oedd pob ymarferydd yn defnyddio'r safonau mor helaeth ag yr oeddent yn gobeithio yn y dyfodol. Yn gysylltiedig â hyn, esboniodd y rhai a gyfwelwyd fod y defnydd o'r safonau ar ei uchaf ymhlith ANG, ac y byddai'n cymryd amser i'r ymarferwyr ar gam cynnar yn eu gyrfa symud drwy'r system addysg ac i'r holl weithlu addysg ddod yn gyfarwydd ac yn gyfforddus â defnyddio'r safonau. Roedd rhai yn rhagweld y byddai effeithiau'n fwy tebygol o gael eu gweld ar ôl i'r Cwricwlwm i Gymru gael ei roi ar waith. Fodd bynnag, soniwyd am rai enghreifftiau o effaith sy'n dod i'r amlwg, yn enwedig mewn lleoliadau lle yr ystyriwyd bod y safonau wedi bwrw gwreiddiau i raddau mwy mewn gweithgaredd dysgu a datblygiad proffesiynol.

> *'Mewn egwyddor, dylent fod yn cael effaith - ond mae'n rhy gynnar i ddweud.'* **(Uwch arweinydd, Ysgol Uwchradd Cyfrwng Saesneg)**

> *'Rwy'n credu y gwelwn y gwahaniaeth mwyaf pan fydd y Cwricwlwm newydd ar waith. Pan fydd hynny'n digwydd, bydd y dull gweithredu hwn - gweithio'n thematig ar draws y chwe maes dysgu allweddol - yn tynnu popeth at eil gilydd'.* **(Uwch arweinydd, Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg)**

6.3 Ystyriwyd bod priodoli effeithiau i'r safonau yn anodd, yn enwedig yng nghyd-destun diwygiadau addysg ehangach. Disgrifiodd yr ymarferwyr a'r rhanddeiliaid y safonau yn aml fel rhan o 'ddarlun mwy' a dim ond un o lawer o ffactorau sy'n ysgogi newid, ochr yn ochr â diwygio'r cwricwlwm a threfniadau asesu a'r polisïau galluogi.

> *'Mae'n bwysig gweld egwyddorion ymhlith y pecyn ehangach... ... Gall y safonau fod yn bwerus os cânt eu defnyddio'n gywir i ysgogi deialog*

*broffesiynol. Mae popeth yn dechrau disgyn i'w le, gydag egwyddorion trosfwaol o bob maes yn ein hysgol.'* **(Arweinydd canol, Ysgol Uwchradd Cyfrwng Saesneg)**

**Barn ymarferwyr am yr effeithiau canfyddedig a disgwyliedig**

6.4 Mae rhai ymarferwyr o'r farn bod y safonau wedi darparu fframwaith ac iaith gyffredin ar gyfer trafod eu hymarfer eu hunain a myfyrio arno. Teimlai CA ac ymarferwyr mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion yn arbennig fod hyn wedi bod o fudd iddynt, gyda llawer yn nodi bod hyn wedi helpu i 'broffesiynoli' trafodaethau ynghylch gweithgaredd dysgu proffesiynol. Yn gysylltiedig â hyn, gwnaeth rhai ymarferwyr sylwadau ar y safonau sy'n darparu 'ffocws' neu 'nod' ar gyfer eu datblygiad proffesiynol. Teimlai'r ymarferwyr a'r rhanddeiliaid fod y fframwaith a gynigiwyd gan y safonau yn annog ymarferwyr i fod yn fwy myfyriol am eu dysgu proffesiynol, ac roedd rhai yn teimlo bod hyn yn helpu i gynyddu hyder ymarferwyr.

> *'Hoffwn feddwl y byddent yn parhau i fy annog i fyfyrio a bod yn atebol am fy ymarfer fy hun gan fod hynny'n bwysig iawn yn y proffesiwn hwn.'* **(ANG, Ysgol Uwchradd Cyfrwng Saesneg)**

6.5 Teimlai rhai uwch arweinwyr fod y safonau wedi eu helpu i wneud eu prosesau hunanasesu yn fwy cynhwysfawr a systematig, gan sicrhau bod ymarferwyr yn myfyrio ar bob agwedd ar eu hymarfer wrth osod nodau. Teimlai rhai uwch arweinwyr fod hyn wedi gwneud staff yn fwy agored i drafod eu gwendidau, a gosod targedau yn seiliedig ar y rhain.

> *'Roedd staff [cyn gweithredu offeryn hunanasesu seiliedig ar y safonau] yn gosod targedau ar gyfer pethe oedden nhw'n mwynhau …. o nhw ddim yn edrych ar eu gwendidau'..*[32] **(Uwch arweinydd, Ysgol Uwchradd Cyfrwng Cymraeg)**

6.6 Roedd uwch arweinwyr mewn rhai ysgolion wedi gweld bod eu staff yn cymryd mwy o berchnogaeth o'u gweithgaredd dysgu proffesiynol eu hunain, ac yn credu bod y

---

[32] Dyfyniad gwreiddiol yn Gymraeg: 'Roedd staff yn gosod targedau ar gyfer pethe oedden nhw'n mwynhau …. o nhw ddim yn edrych ar eu gwendidau'.

safonau wedi annog hyn. Adroddodd uwch arweinwyr eu bod wedi gweld hyn yn ystod y cyfnod 'clo', gyda staff yn cymryd mwy o gyfrifoldeb uniongyrchol dros wneud eu hymchwil eu hunain ar bethau fel llesiant disgyblion a dysgu cyfunol. Yn yr un modd, nododd rhai awydd cynyddol i ymgymryd â gweithgaredd dysgu proffesiynol yn yr ysgol.

6.7 Teimlai uwch arweinwyr y gallai staff sydd â mwy o ymreolaeth a pherchnogaeth o'u datblygiad proffesiynol helpu i wneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, a gwella eu llesiant. Awgrymodd ambell uwch arweinydd y gallai cyfraddau boddhad swydd, presenoldeb a chadw ymarferwyr fod yn rhai o fesurau llwyddiant neu fethiant y safonau (ochr yn ochr â diwygiadau eraill) yn y tymor hwy.

> *'Maen nhw wedi cael eu grymuso i ddatblygu eu hunain... bod yn gyfrifol am y DPP'.* **(Aelod o'r pwyllgor rheoli, Uned Cyfeirio Disgyblion)**

6.8 Roedd y rhan fwyaf o'r ymarferwyr o'r farn bod gan ymarferwyr nad oes ganddynt gyfrifoldebau arwain ffurfiol fwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o arweinyddiaeth bellach. Adroddwyd bod ymarferwyr yn treulio mwy o amser yn myfyrio ar yr hyn yr oedd arweinyddiaeth yn ei olygu yng nghyd-destun eu rolau eu hunain oherwydd y ffocws cynyddol ar hyn yn y safonau. Nododd rhai ymarferwyr fod myfyrio ar y safonau wedi gwneud iddynt feddwl mwy am eu llwybr gyrfa yn y dyfodol a'r opsiynau sydd ar gael iddynt. Awgrymodd ambell ymarferydd mai un o'r mesurau llwyddiant posibl fyddai a fydd mwy o ymarferwyr yn chwilio am rolau arwain yn y dyfodol.

> *'Mesur* [o lwyddiant] *fydd faint o bobl fydd yn mynd ymlaen i swyddi arweinyddiaeth. Mae hwn yn llwybr pendant o'r dechrau i'r diwedd, nid yw arweinyddiaeth i bawb - ond byddai'n ddiddorol gweld, os bu prinder penaethiaid yn hanesyddol, a fydd mwy o bobl yn manteisio ar CPCP yn y dyfodol - mae pobl yn ymdrechu i wella eu hunain.'* **(Uwch arweinydd, Ysgol Uwchradd Cyfrwng Saesneg)**

6.9 Dywedodd rhai uwch arweinwyr ac ymarferwyr eu bod yn teimlo'n fwy abl i 'roi cynnig ar bethau newydd' o ganlyniad i'r pwyslais ar arloesi a chydweithredu yn y safonau. Soniwyd am hyn yn arbennig yng nghyd-destun datblygu gweithgareddau

trawsadrannol newydd ar gyfer MDaPh a datblygu dysgu digidol. Roedd sawl uwch arweinydd yn credu y byddai'r ffocws ar arloesi yn helpu ysgolion i ddatblygu dysgwyr mwy annibynnol, uchelgeisiol a chreadigol.

> *'Mae ymddiriedaeth, arloesedd a rhagoriaeth yn allweddol i ni. Rydym yn cael ein hannog yn gyson i fentro, sydd yn ei dro yn annog yr HCA i fentro. Rydyn ni'n dweud, ewch i roi cynnig ar bethau, ac rydyn ni mewn amgylchedd ble y gallwch chi wneud hynny, gan rannu arfer da.'* **(Mentor sefydlu, Ysgol Uwchradd Cyfrwng Saesneg)**

6.10 Nododd uwch arweinwyr ac ymarferwyr mewn rhai ysgolion lefelau uwch o gydweithredu ers iddynt ddechrau defnyddio'r safonau. Ymhlith yr enghreifftiau roedd ymarferwyr yn rhannu ac yn trafod eu targedau dysgu proffesiynol ac yn cydweithio ar ymchwil yn seiliedig ar ymholi.

> *'... mae mwy o deimlad bod 'pawb yn yr un cwch' a diddordeb gwirioneddol yn yr hyn y mae eraill yn ei wneud: 'Byddwn i'n dweud bod deialog broffesiynol ar waith bellach ar draws yr ysgol'* **(Uwch arweinydd, Ysgol Gynradd Cyfrwng Saesneg)**

6.11 Mewn rhai lleoliadau, roedd gweithgaredd dysgu proffesiynol wedi canolbwyntio'n bennaf ar un neu ddwy o'r safonau; roedd uwch arweinwyr yn disgwyl y byddent yn gweld effaith yn y meysydd hyn.

> *'Byddem yn gobeithio gweld canlyniadau ac effaith yn y meysydd arloesi a chydweithredu yn gyntaf.'* **(Uwch arweinydd, Ysgol Uwchradd Cyfrwng Saesneg)**

6.12 Roedd yr ymarferwyr yn croesawu'r ffocws cynyddol ar addysgeg yn y safonau, gyda rhai o'r farn y byddai hyn yn arwain at welliannau yn ansawdd yr addysgu a'r dysgu, gan helpu yn y pen draw i ddylanwadu ar ddeilliannau i ddysgwyr. Roedd ambell ymarferydd yn rhagweld y byddai prosiectau ymchwil gweithredol yr oeddent yn ymwneud â hwy yn cael effaith ar ddisgyblion. Ymhlith yr enghreifftiau roedd ymchwil mewn perthynas ag ymddygiad a disgyblion ag ADY.

*'Doeddwn i ddim wedi gwneud darn ffurfiol o ymchwil o'r blaen - byddwn wedi gwneud rhywfaint o ymchwil a dysgu am y pwnc, ond fyddwn i ddim wedi ei gofnodi ac wedi myfyrio arno yn erbyn y safonau. Mae wedi gwneud i mi fabwysiadu arfer da na fyddwn i wedi'i wneud fel arall'.* **(Athro, Uned Cyfeirio Disgyblion)**

6.13 Roedd rhai ymarferwyr yn credu ei bod yn rhy gynnar i weld effeithiau a, hyd yn oed pe baent wedi bod yn defnyddio'r safonau, roeddent yn teimlo na allent briodoli effeithiau iddynt eto.

*'Alla'i ddim dweud fy mod yn gweld newid ynof fi fy hun ond gallai fod yn newid cynnil.'* **(Athro, Ysgol Ganol Cyfrwng Saesneg)**

*Gwahaniaethau ym marn ymarferwyr ar effeithiau canfyddedig a disgwyliedig y safonau*

6.14 Nid yw'n syndod bod yr uwch arweinwyr a'r ymarferwyr a gafodd eu cyfweld yn teimlo bod y safonau'n debygol o fod yn cael mwy o effaith ar y rhai a oedd yn eu defnyddio fwyaf, yn bennaf myfyrwyr AGA ac ANG. Dyma un o'r rhesymau pam roedd y cyfweleion yn teimlo na fyddai effaith y safonau yn dod yn amlwg am nifer o flynyddoedd, er bod uwch arweinwyr yn teimlo bod rhywfaint o dystiolaeth o newid mewn meddylfryd.

*'Mae cydnabyddiaeth ymhlith y rhai ohonom sydd wedi bod yma ers blynyddoedd, o'r angen i ddysgu i newid pethau. Mae pethau wedi newid yn llwyr yn y gorffennol a byddant yn newid eto. Mae'r Safonau yn ffordd adeiladol iawn o gefnogi dysgu gydol oes'.* **(Uwch arweinydd, Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg)**

6.15 Pwysleisiodd uwch arweinwyr effeithiau cadarnhaol y safonau gan ddarparu llwybr dysgu proffesiynol ar gyfer CA, gan nodi bod hyn yn rhywbeth a allai helpu i wneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'n fwy. Yn yr un modd, roedd uwch arweinwyr yn teimlo bod y safonau'n helpu i roi mwy o statws i ymarferwyr mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion.

6.16 Awgrymodd rhai uwch arweinwyr fod y safonau'n fwy tebygol o gael effaith ar ddatblygiad ymarferwyr a oedd â mwy o gymhelliant i gymryd rhan mewn gweithgaredd dysgu proffesiynol.

> *'Rwy'n credu ei fod yn cael effaith - ond mae gan rai staff fwy o hunangymhelliant naturiol i wella eu hunain ac yn fwy tueddol o fyfyrio ar eu hymarfer eu hunain nag eraill, maen nhw'n fwy agored ynglŷn â lle maen nhw'.* **(Uwch arweinydd, Uned Cyfeirio Disgyblion)**

**Barn rhanddeiliaid am yr effeithiau canfyddedig a disgwyliedig**

6.17 Roedd barn rhanddeiliaid ynghylch effeithiau newydd a disgwyliedig y safonau yn adlewyrchu barn ymarferwyr i raddau helaeth. Roedd mwyafrif y rhanddeiliaid yn credu ei bod yn rhy gynnar i asesu effaith y safonau a gwnaeth llawer ohonynt sylwadau ar yr angen i archwilio effaith y safonau dros amserlen hwy.

> *'Bydd gennym genhedlaeth o athrawon newydd a fydd wedi cael eu trwytho yn y Safonau .... wedi eu trwytho'n fwy yn ysbryd y safonau, fel y cwricwlwm newydd.'* **(Cyfweliad â rhanddeiliad)**

6.18 Cynigiodd y rhanddeiliaid rai enghreifftiau, ansoddol yn bennaf, o'r hyn yr oeddent yn ei ystyried yn effeithiau sy'n dod i'r amlwg yn sgil y safonau. Roedd y rhain yn cynnwys:

- mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o sgiliau arwain ymhlith ANG ac ymarferwyr ar gam cynnar yn eu gyrfa, ac awydd cynyddol am gyfrifoldeb yn gynnar yn eu gyrfaoedd;
- mwy o ymwybyddiaeth o lwybrau dilyniant gyrfa a dyheadau uwch ymhlith ANG;

> *'mae'r rhai sy'n gweithio gyda'r safonau wedi ymgymryd â'u rolau mewn ffordd uchelgeisiol iawn. Maen nhw wedi gallu dweud 'dw i eisiau bod yn bennaeth adran'...gan ddangos hunanymwybyddiaeth gynyddol ddiriaethol.'* **(Cyfweliad â rhanddeiliad)**

- ymarferwyr, yn enwedig ANG ac athrawon ar gam cynnar yn eu gyrfa, yn cymryd mwy o berchnogaeth a chyfrifoldeb am eu dysgu proffesiynol eu hunain;

*'Mae'r safonau'n ei gwneud hi'n glir mai eich cyfrifoldeb chi yw dod o hyd i ffordd o fynd i'r afael â'r mater. Maen nhw'n rhoi ymreolaeth i ymarferwyr ac yn eich annog i gymryd perchnogaeth o'r mater.'* **(Cyfweliad â rhanddeiliad)**

- geirfa gyffredin ar gyfer gweithgaredd dysgu proffesiynol ar draws lleoliadau a sectorau;
- trafodaethau mwy ystyrlon ac amlwg ynghylch addysgeg ac ymchwil yn seiliedig ar ymholiadau;
- mwy o frwdfrydedd a chymhelliant i gymryd rhan mewn dysgu proffesiynol, yn enwedig ymhlith CA;

  *'Mae cymorthyddion wedi teimlo bod mwy o lwyfan iddyn nhw a'u gwaith nhw, mwy o balchder yn eu llwyddiannau nhw, a bod mwy o ddatblygiad proffesiynol fel bod llwybr i'w gyrfa.'* **(Cyfweliad â rhanddeiliad)**

- mwy o gydweithio yn digwydd rhwng ysgolion.

6.19 Fe wnaeth y rhanddeiliaid sylwadau ar anhawster asesu effaith y safonau, gan nodi bod eu dylanwad yn debygol o fod yn 'gynnil' yn hytrach nag yn fesuradwy ar ffurf feintiol. Roedd y rhanddeiliaid hefyd yn teimlo y byddai'n anodd priodoli'r newidiadau a welwyd i'r safonau, gan nodi y byddai llawer o ffactorau yn cyfrannu at ddeilliannau i ymarferwyr a dysgwyr.

6.20 Darparodd y rhanddeiliaid enghreifftiau o'r hyn y byddent yn ei ystyried yn dystiolaeth o p'un oedd y safonau'n cael effaith ai peidio. Roedd y rhain yn cynnwys:

- ymarferwyr yn myfyrio mwy ar eu hymarfer eu hunain ac ymarfer pobl eraill;
- lefelau uwch o gydweithredu rhwng ymarferwyr o ran eu gweithgaredd datblygiad proffesiynol;
- ymarferwyr yn fwy agored i rannu profiadau dysgu ag eraill, gan gynnwys uwch arweinwyr;
- mwy o arloesi a chreadigrwydd wrth addysgu a dysgu;

- mwy o bobl yn manteisio ar gyrsiau dysgu proffesiynol a mwy o ymdeimlad o gyflawniad
- mwy o eglurder yn y proffesiwn ynghylch llwybrau dilyniant gyrfa ac awydd cynyddol i symud ymlaen i swyddi uwch (e.e. CALU, Uwch arweinwyr);
- mwy o gysondeb yn ansawdd yr addysgu a'r dysgu ar draws lleoliadau;
- gwelliannau yn ansawdd yr arweinyddiaeth mewn ysgolion;
- mwy o ymarferwyr yn symud rhwng sectorau (e.e. cynradd-uwchradd, prif ffrwd-Uned Cyfeirio Disgyblion).

6.21 Gwnaeth y rhanddeiliaid sylwadau ar y potensial i'r safonau gael effaith anuniongyrchol ar ddysgwyr, yn enwedig drwy wella addysgeg ac, yn sgil hynny, ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Cyfeiriodd rhai rhanddeiliaid at enghreifftiau o ymchwil yn seiliedig ar ymholi yr oeddent yn teimlo eu bod wedi arwain at well profiadau i ddysgwyr. Gwnaeth eraill sylwadau ar y potensial ar gyfer mwy o arloesi yn yr ystafell ddosbarth i gefnogi creadigrwydd dysgwyr. Cyfeiriodd rhai rhanddeiliaid at y potensial i'r safonau gyfrannu at ddeilliannau tymor hwy i ddysgwyr fel gwell presenoldeb a chyrhaeddiad.

**Crynodeb o'r canfyddiadau: effeithiau canfyddedig a disgwyliedig**

- Mae ymarferwyr a rhanddeiliaid yn ystyried ei bod yn rhy gynnar i weld effaith y safonau ar lefel y gweithlu neu leoliad, ac mae'r mwyafrif yn teimlo na allant briodoli effeithiau iddynt eto. Fodd bynnag, darparodd ymarferwyr a rhanddeiliaid nifer o enghreifftiau o effeithiau sy'n dod i'r amlwg a welwyd ganddynt;
- Mae ymarferwyr a rhanddeiliaid yn disgwyl y bydd y safonau'n debygol o gael mwy o effaith ar y rhai sy'n eu defnyddio fwyaf, yn bennaf myfyrwyr AGA ac ANG. Mae rhanddeiliaid yn nodi eu bod wedi gweld gwell dealltwriaeth o sgiliau arwain a dilyniant gyrfa ymhlith ANG ac ymarferwyr sydd ar gam cynnar yn eu gyrfa yn ystod y blynyddoedd diwethaf;

- Dywed ymarferwyr fod y safonau wedi annog hunanfyfyrio drwy ddarparu fframwaith uchelgeisiol ac iaith gyffredin ar gyfer trafodaethau;
- Noda ymarferwyr mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion a CA fod y safonau wedi helpu i 'broffesiynoli' trafodaethau ynghylch dysgu proffesiynol gan nodi y gallai hyn gyfrannu at wella llesiant ymarferwyr. Roedd rhai yn rhagweld y byddai'r safonau'n gwella canfyddiadau o weithio mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion ac mewn rolau CA;
- Mae ymarferwyr mewn rhai lleoliadau yn nodi bod y safonau wedi helpu i wella eu prosesau hunanasesu ymarferwyr drwy ddarparu strwythur datblygiadol mwy uchelgeisiol i seilio'r prosesau hyn arnynt;
- Darparodd uwch arweinwyr a rhanddeiliaid enghreifftiau o ymarferwyr yn cymryd mwy o ymreolaeth a pherchnogaeth o'u dysgu proffesiynol;
- Dywed ymarferwyr a rhanddeiliaid eu bod wedi gweld enghreifftiau lle mae'r safonau wedi cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymarferwyr o arweinyddiaeth, ac wedi annog lefelau uwch o gydweithredu ac arloesi;
- Mae rhai ymarferwyr a rhanddeiliaid yn rhagweld y bydd y ffocws cynyddol ar addysgeg yn y safonau yn cyfrannu at welliannau yn ansawdd yr addysgu a'r dysgu.

# 7. Casgliadau

7.1 Datblygwyd y casgliadau isod yn seiliedig ar y canfyddiadau a nodir yn Adrannau 3-6. Fel y nodwyd yn Adrannau 2.15-2.21, mae natur ansoddol y fethodoleg yn golygu y dylid ystyried bod y casgliadau hyn yn arwydd o'r sampl o leoliadau ac ymarferwyr dan sylw ac ni ellir cyffredinoli'r canfyddiadau i'r boblogaeth ehangach o ymarferwyr.

**Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r safonau**

7.2 Mae'r canfyddiadau'n dangos bod ymarferwyr a gyfrannodd at yr astudiaeth yn cael mynediad at ystod eang o wybodaeth a chanllawiau sy'n ymwneud â'r safonau. Mae arweinwyr ysgol yn trosglwyddo llawer o'r wybodaeth am y safonau i ymarferwyr yn ystod cyfarfodydd staff a sesiynau dysgu proffesiynol. Mae ysgolion, a gefnogir yn aml gan randdeiliaid, wedi datblygu neu fabwysiadu eu hadnoddau eu hunain ar gyfer codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r safonau. Mae'r canfyddiadau'n dangos bod y pwyslais a roddir ar y safonau gan arweinwyr ysgol yn dylanwadu ar lefelau ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a defnydd ohonynt.

7.3 Roedd arweinwyr ac ymarferwyr ysgol a gyfrannodd at yr astudiaeth yn gyfarwydd iawn â'r safonau, er bod adborth gan randdeiliaid yn awgrymu bod lefelau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth yn fwy amrywiol nag ymysg sampl yr astudiaeth. Mae'n ymddangos bod ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r safonau ar eu huchaf ymhlith y rhai sy'n ymwneud ag AGA a phrosesau sefydlu (h.y. ANG, myfyrwyr AGA, mentoriaid sefydlu a dilyswyr allanol) a'r rhai sydd wedi dilyn cyrsiau arweinyddiaeth ffurfiol yn ddiweddar. Ymddengys mai staff cymorth ac athrawon mwy profiadol sydd leiaf cyfarwydd â'r safonau. Yn gysylltiedig â hyn, er bod ymarferwyr yn gwerthfawrogi'r Safonau Proffesiynol ar Gynorthwyo Addysgu, ymddengys fod ymwybyddiaeth ohonynt yn is na'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth.

7.4 Yn gyffredinol, mynegodd yr ymarferwyr farn gadarnhaol am iaith a chynnwys y safonau, ac mae llawer o'r farn eu bod yn fwy defnyddiol a hylaw na'r safonau blaenorol. Mae uwch arweinwyr ac ymarferwyr yn croesawu natur ddatblygiadol y safonau, gan eu hystyried yn fframwaith uchelgeisiol ar gyfer datblygiad proffesiynol

gydol gyrfa. Fodd bynnag, roedd rhai ymarferwyr, i ddechrau o leiaf, yn gweld yr iaith a'r derminoleg yn anghyfarwydd ac yn llethol braidd. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd cymorth i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r safonau, gan gynnwys enghreifftiau ymarferol o sut y gellir eu defnyddio.

7.5 Mae ymarferwyr a rhanddeiliaid o'r farn bod y safonau'n cyfateb yn dda i ddatblygiadau polisi allweddol eraill, yn enwedig y Cwricwlwm i Gymru. Fodd bynnag, mae canfyddiad bod y broses o'u hyrwyddo a'u gweithredu wedi cael ei bwrw i'r cysgod gan ddatblygiadau eraill. Mae hyn yn awgrymu y gallai fod achos dros weithgaredd codi ymwybyddiaeth pellach, wedi'i anelu'n benodol at yr ymarferwyr hynny â llai o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth (e.e. staff cymorth ac athrawon mwy profiadol).

7.6 Yn gyffredinol, mae rhanddeiliaid yn croesawu natur uchelgeisiol a datblygiadol y safonau, ond mae rhai hefyd yn nodi y gall hyn greu heriau wrth eu cymhwyso i 'benderfyniadau trothwy' sydd, yn eu barn hwy, yn gofyn am fwy o eglurder a manwl gywirdeb o ran yr iaith (Gweler 'Y defnydd o'r safonau' isod).

**Y defnydd o'r safonau**

7.7 Dywed yr ymarferwyr a'r rhanddeiliaid fod y defnydd o'r safonau yn amrywio'n sylweddol ar draws rolau a lleoliadau. Mae rhai lleoliadau yn nodi eu bod wedi ymgorffori'r safonau yn eu prosesau dysgu proffesiynol a rheoli perfformiad, a dywed rhai lleoliadau fod y safonau wedi dechrau dod yn rhan 'naturiol' o drafodaethau wrth rannu myfyrdodau a phrofiadau gyda chydweithwyr (e.e. mewn cyfarfodydd tîm rheolaidd). Mewn lleoliadau eraill, mae'r defnydd o'r safonau wedi'i gyfyngu i weithgaredd codi ymwybyddiaeth cychwynnol a thrafodaeth fwy cyffredinol amdanynt yn ystod trafodaethau ar ddysgu proffesiynol neu reoli perfformiad.

7.8 Mae'r rhan fwyaf o leoliadau yn ystyried eu bod ar 'gam cynnar' o ran gweithredu'r safonau gan ddweud bod COVID-19 wedi achosi oedi o ran eu cynnydd yn hyn o beth. Fodd bynnag, mae lleoliadau hefyd yn nodi bod y pandemig wedi arwain at effeithiau annisgwyl ar ddysgu proffesiynol, yn enwedig arloesi a chydweithio. Er

nad yw'r rhain yn effeithiau sy'n deillio o'r safonau, nododd rhai ymarferwyr eu bod yn disgwyl myfyrio ar y profiadau hyn yn erbyn y safonau maes o law.

7.9 Ymddengys fod nifer o ffactorau yn dylanwadu ar y graddau y defnyddir y safonau mewn lleoliadau, yn benodol y pwyslais a roddir arnynt gan arweinwyr lleoliadau ac a oes amser penodol yn cael ei ddyrannu i ymarferwyr fyfyrio arnynt. Ymddengys y gwneir mwy o ddefnydd o'r safonau ble mae arweinwyr ysgol wedi eu hymgorffori mewn prosesau rheoli perfformiad, er enghraifft drwy ddatblygu templedi ac offer hunanasesu ar gyfer y trafodaethau hyn sy'n seiliedig ar y safonau a'r disgrifyddion. Mae lleoliadau sydd wedi ymgorffori'r safonau yn nhrefniadau datblygu eu hysgol a'u staff yn eu gwerthfawrogi ac yn eu hystyried yn fuddiol, er bod y defnydd o'r safonau'n amrywio yn ôl rôl yn yr ysgolion hyn.

7.10 Gwneir mwy o ddefnydd o'r safonau ymhlith y rhai sy'n eu defnyddio fel rhan o AGA neu brosesau sefydlu yn ogystal ag ymhlith y rhai sy'n dilyn cyrsiau arweinyddiaeth ffurfiol. Dengys y canfyddiadau fod staff cymorth ac athrawon mwy profiadol nad ydynt wedi dilyn cyrsiau arweinyddiaeth ffurfiol yn gwneud llai o ddefnydd o'r safonau. Mae hyn yn awgrymu y gallai fod angen targedu mwy o gymorth ymarferol at y grwpiau olaf hyn o ymarferwyr.

7.11 Yn gyffredinol, ystyrir bod y safonau yn offeryn effeithiol i nodi'r disgwyliadau ar gyfer ymarferwyr fel gweithwyr proffesiynol. Fe'u gwerthfawrogir fel offeryn datblygu ond mae barn gymysg ynglŷn â'u priodoldeb ar gyfer prosesau mwy ffurfiol megis creu swydd-ddisgrifiadau neu wneud penderfyniadau i ddyfarnu SAC i fyfyrwyr. Er enghraifft, mae rhai rhanddeiliaid yn nodi bod cymhwyso'r safonau ar draws darpariaeth AGA wrth ddyfarnu SAC yn creu heriau i ddarparwyr. Mae'r rhanddeiliaid hyn yn teimlo bod y safonau'n rhy eang i'w defnyddio fel mecanwaith pasio neu fethu effeithiol.

7.12 Dengys y canfyddiadau, lle mae ymarferwyr o'r farn bod y safonau'n cael eu defnyddio'n effeithiol, bod lleoliadau'n tueddu i:

- fod ag arweinwyr sydd wedi rhoi cryn bwyslais ar y safonau, yn aml ers nifer o flynyddoedd;

- meddu ar ddiwylliant o ddysgu proffesiynol gyda chyfleoedd rheolaidd i staff drafod a dadansoddi agweddau ar y safonau mewn ffordd anfygythiol fel rhan o ddeialog broffesiynol;
- meddu ar ddull dysgu proffesiynol cydweithredol sy'n annog ymarferwyr i gymryd perchnogaeth o'u dysgu proffesiynol;
- mabwysiadu offer i ymarferwyr hunanasesu yn erbyn y safonau, hyfforddi staff i'w defnyddio a gwneud defnydd ohonynt (neu fwriadu eu defnyddio) fel rhan o brosesau rheoli perfformiad;
- datblygu dulliau sy'n eu galluogi i sicrhau cydbwysedd rhwng defnyddio'r safonau ar gyfer myfyrio ar lefel unigol a chasglu data a all lywio'r gwaith o gynllunio dysgu proffesiynol ar lefel lleoliad.
- annog ymarferwyr i ddefnyddio safonau fel rhan 'naturiol' o drafodaethau wrth rannu eu myfyrdodau a'u profiadau gyda chydweithwyr.

7.13 Mae ymarferwyr a rhanddeiliaid wedi cael profiadau cymysg o ddefnyddio'r PDP i gofnodi eu profiadau dysgu proffesiynol a myfyrio ar eu datblygiad mewn perthynas â'r safonau. Cyflwynodd ymarferwyr sy'n ymwneud ag AGA a phrosesau sefydlu safbwyntiau amrywiol ar y PDP, gyda rhai o'r farn ei fod yn hygyrch ac yn hawdd ei ddefnyddio, tra bod eraill yn teimlo y gallai fod yn llafurus ac yn ailadroddus. Awgryma'r canfyddiadau mai ychydig o ymarferwyr sy'n parhau i'w ddefnyddio ar ôl cwblhau eu cyfnod sefydlu, ac nid yw'r data yn darparu dadansoddiad manwl o'r defnydd yn ôl rôl a phrofiad (e.e. tystiolaeth a uwchlwythwyd i'r PDP gan athrawon mwy profiadol). Awgrymodd rhai y gallai integreiddio mewngofnodi i'r PDP â Hwb gynyddu eu tebygolrwydd o'i ddefnyddio i gofnodi eu profiadau dysgu proffesiynol. Mae rhai uwch arweinwyr a oedd wedi mabwysiadu offer hunanasesu eraill yn eu lleoliadau er mwyn i ymarferwyr gofnodi tystiolaeth o weithgaredd dysgu proffesiynol yn nodi y byddent yn rhoi mwy o werth ar y PDP pe bai'n eu galluogi i archwilio data cyfanredol adrannau a lleoliadau ar eu gweithlu.

**Cymorth i ddefnyddio'r safonau**

7.14 Awgryma'r canfyddiadau fod amrywiad yn y cymorth sydd ar gael i ymarferwyr ddefnyddio'r safonau; mae rhai ymarferwyr o'r farn eu bod wedi cael cymorth rhagorol i'w defnyddio gan eu lleoliad a'u consortiwm, ond roedd eraill yn anghytuno. Mae ymarferwyr mewn rhai lleoliadau yn ystyried bod mwy o gymorth a gwybodaeth am y safonau ar gael pan lansiwyd y safonau, a bod llai o gymorth ar gael yn fwy diweddar.

7.15 Dywed yr ymarferwyr a'r rhanddeiliaid fod cymorth da ar gael i fyfyrwyr AGA ac ANG ddefnyddio'r safonau, a bod cyrsiau arweinyddiaeth ffurfiol hefyd wedi'u strwythuro mewn ffyrdd sy'n cefnogi cyfranogwyr i ddatblygu dealltwriaeth dda ohonynt. Fodd bynnag, ymddengys fod ymarferwyr mwy profiadol mewn rolau heblaw arweinyddiaeth yn dibynnu mwy ar gymorth ar lefel ysgol i ddeall a defnyddio'r safonau, sy'n dibynnu ar y pwyslais a roddir arnynt gan uwch arweinwyr. Mae rhai lleoliadau yn nodi eu bod wedi ceisio manteisio ar adnabyddiaeth a dealltwriaeth ANG o'r safonau, drwy annog ANG i arwain sesiynau ar y safonau yn ystod diwrnodau HMS. Ystyriwyd bod hyn yn ffordd effeithiol o ledaenu gwybodaeth yn ogystal ag annog arweinyddiaeth ymhlith ANG a chydweithredu yn yr ysgolion hyn.

7.16 Darparodd ymarferwyr a rhanddeiliaid enghreifftiau o gymorth ychwanegol a fyddai, yn eu barn hwy, yn fuddiol o ran cynyddu a gwella'r defnydd o'r safonau. Awgrymodd rhai y dylid datblygu canllawiau cliriach ar gyfer gwahanol lefelau o ymarferwyr (e.e. staff cymorth) ar sut i ddehongli a defnyddio'r safonau; er enghraifft, datblygu deunyddiau enghreifftiol i ddangos sut roedd ymarferwyr yn bodloni'r disgrifyddion mewn gwahanol leoliadau. Awgrymodd rhai y byddai gweithgareddau codi ymwybyddiaeth parhaus yn cefnogi ymgysylltiad pellach â'r safonau, gan nodi y byddai hyn yn amserol wrth baratoi i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru. Awgrymodd rhai yr angen i raeadru cymorth mewn ffordd fwy strwythuredig ledled Cymru i sicrhau cysondeb o ran y cymorth i ymarferwyr/staff cymorth. Cynigiodd rhai ymarferwyr a rhanddeiliaid y dylid dyrannu amser a chapasiti i ymarferwyr fyfyrio ar y safonau.

**Effaith ganfyddedig a disgwyliedig**

7.17 Yn gyffredinol, mae'r ymarferwyr a'r rhanddeiliaid yn ystyried ei bod yn rhy gynnar i weld effaith y safonau ar lefel y gweithlu neu leoliad, ac mae'r mwyafrif yn teimlo na allant briodoli effeithiau iddynt eto. Fodd bynnag, darparodd yr ymarferwyr a'r rhanddeiliaid enghreifftiau o effeithiau sy'n dod i'r amlwg yr oeddent wedi'u gweld, ar sail eu profiadau eu hunain neu arsylwadau cydweithwyr. Roedd y rhain yn cynnwys:

- trafodaethau mwy myfyriol am weithgaredd dysgu proffesiynol sy'n digwydd ymhlith ymarferwyr;
- ymarferwyr yn cymryd mwy o berchnogaeth a chyfrifoldeb am eu dysgu proffesiynol eu hunain;
- mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o arweinyddiaeth, arloesedd a chydweithio ac enghreifftiau o ymarferwyr yn gwneud cynnydd yn erbyn yr elfennau hyn a'u disgrifyddion;
- gwell ymgysylltiad â phrosesau hunanwerthuso ymarferwyr a oedd wedi'u strwythuro i adlewyrchu'r safonau;

7.18 Mae ymarferwyr a rhanddeiliaid yn disgwyl y bydd y safonau'n debygol o gael mwy o effaith ar y rhai sy'n eu defnyddio fwyaf, yn bennaf myfyrwyr AGA ac ANG. Noda'r rhanddeiliaid eu bod wedi gweld gwell dealltwriaeth o sgiliau arwain a dilyniant gyrfa ymhlith ANG ac ymarferwyr ar gam cynnar eu gyrfa yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

7.19 Mae ymarferwyr mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion a CA yn nodi bod y safonau wedi helpu i 'broffesiynoli' trafodaethau ynghylch dysgu proffesiynol a bod hyn yn helpu saff i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'n fwy. Roedd rhai ymarferwyr yn rhagweld y gallai gweithio tuag at yr un safonau ag athrawon a staff mewn lleoliadau prif ffrwd helpu i wella canfyddiadau o statws rolau CA a gweithio mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion, ac arwain at wella llesiant ymarferwyr yn y tymor hwy.

7.20 Mae rhai ymarferwyr a rhanddeiliaid yn disgwyl y byddai'r ffocws cynyddol ar addysgeg yn y safonau yn cyfrannu at welliannau yn ansawdd yr addysgu a'r dysgu.

## 8. Materion i'w hystyried

8.1 Datblygwyd y materion canlynol i'w hystyried yn seiliedig ar y casgliadau a nodir uchod.

8.2 Dylid ystyried gweithgaredd pellach i godi ymwybyddiaeth o'r safonau, wedi'i anelu'n benodol at yr ymarferwyr hynny y dywedir bod ganddynt lai o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r safonau (e.e. staff cymorth ac athrawon mwy profiadol). Gallai hyn gynnwys deunyddiau sy'n darparu enghreifftiau ymarferol o sut y gellir eu defnyddio yn y rolau hyn.

8.3 Gall rhoi enghreifftiau ymarferol i uwch arweinwyr o sut mae lleoliadau tebyg i'w lleoliad hwy wedi ymgorffori'r safonau a'r disgrifyddion yn eu prosesau rheoli perfformiad eu helpu a'u hannog i ymgorffori'r safonau yn eu lleoliad eu hunain. Gallai hyn gynnwys rhannu templedi enghreifftiol ar gyfer trafodaethau rheoli perfformiad ac offer hunanasesu sydd wedi'u strwythuro o amgylch y safonau.

8.4 Dylid annog uwch arweinwyr i gynnwys eu staff sy'n ymwneud, neu a fu'n ymwneud yn ddiweddar, â phrosesau AGA a sefydlu yn y broses o godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r safonau ymhlith eu gweithlu. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod staff sy'n fwy cyfarwydd â defnyddio iaith a therminoleg y disgrifyddion yn cefnogi eraill i ddefnyddio'r safonau.

8.5 Dylai Llywodraeth Cymru a phartneriaid barhau i fonitro sut mae'r PDP yn cael ei ddefnyddio gan ymarferwyr, yn enwedig y rhai sydd wedi cwblhau eu cyfnod sefydlu statudol. Dylai hyn gynnwys archwilio i ba raddau y mae ymarferwyr mwy profiadol yn defnyddio'r PDP a barn ymarferwyr ar ei ymarferoldeb, gan ystyried newidiadau diweddar i'r PDP, a'i ddefnydd fel rhan o gyrsiau dysgu proffesiynol arfaethedig. Dylid hefyd ystyried barn uwch arweinwyr ac ymarferwyr ar ba mor ddymunol ac ymarferol yw datblygu'r PDP ymhellach i alluogi coladu data cyfanredol, ar lefel lleoliad. Dylai hyn gynnwys ystyried unrhyw faterion preifatrwydd a rheoli data a allai godi yn sgil datblygiadau o'r fath. Dylai Llywodraeth Cymru a phartneriaid hefyd ystyried dichonoldeb integreiddio mewngofnodi i'r PDP â Hwb.

8.6 Dylid annog uwch arweinwyr i ddyrannu amser i'w staff i fyfyrio ar eu datblygiad yn erbyn y safonau.

## Atodiad A: Offer ymchwil

Nodir isod y canllawiau pwnc a ddefnyddiwyd gyda phob un o'r grwpiau cyfranogwyr yn ystod gwaith maes Blwyddyn 1.

**Rhanddeiliaid strategol**

**Cefndir**

1. Rhowch drosolwg o'ch rôl a'ch cyfrifoldebau o ran dyluniad y Safonau Proffesiynol a'r defnydd ohonynt.

**Ymwybyddiaeth a gwybodaeth**

2. Beth fyddech chi'n ei ddweud yw'r egwyddorion sydd wedi llywio datblygiad y Safonau Proffesiynol?
    - Beth mae'r safonau'n anelu at ei gyflawni?
    - Ym mha ffyrdd, os o gwbl, y mae'r Safonau Proffesiynol yn wahanol i safonau blaenorol?
    - Awgrymiadau i'w defnyddio fel y bo'n briodol:
    - Dealltwriaeth o'r goblygiadau i sgiliau, gwybodaeth ac ymddygiadau ymarferwyr?
    - Ymwybyddiaeth o'r pum safon a'r gwerthoedd a'r ymagweddau cyffredinol
    - Ymwybyddiaeth o'r amserlen weithredu
3. Beth yw eich dealltwriaeth o'r cysylltiad rhwng y Safonau Proffesiynol a gweithgareddau ac ymyriadau cenedlaethol eraill?
    - Diwygio'r cwricwlwm, Ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu, y Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol, rheoli perfformiad, AGA, sefydlu, y PDP.
    - [Os yw'n briodol] Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth, y rhaglen CALU.

4. Yn eich profiad chi, i ba raddau y mae ysgolion yn ymwybodol o'r Safonau Proffesiynol?
    - I ba raddau y mae ysgolion yn deall goblygiadau'r Safonau Proffesiynol i sgiliau, gwybodaeth ac ymddygiadau ymarferwyr?
    - A oes unrhyw wahaniaethau mewn ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ar draws lefelau Uwch Dîm Arwain, arweinydd canol, athro sy'n gwasanaethu, ANG a CA/CALU?

**Ymgysylltiad**

5. Sut ydych chi a'ch sefydliad wedi ymgysylltu â'r Safonau Proffesiynol neu wedi ymateb iddynt?
    - Awgrymiadau: cynllunio strategol, rhaglen gymorth.
6. Hyd y gwyddoch, sut y mae ysgolion wedi ymgysylltu â'r Safonau Proffesiynol?
    - Awgrymiadau: cynllunio strategol, dysgu proffesiynol, HMS, Cynlluniau Datblygu Ysgol, rheoli perfformiad, polisïau ac arferion ehangach.
    - Hyd y gwyddoch, sut y mae'r ymarferwyr wedi defnyddio'r PDP i gefnogi defnydd o'r Safonau Proffesiynol (holi barn ar amlder a maint y defnydd, hygyrchedd a hyblygrwydd y PDP)?
    - A oes unrhyw wahaniaethau mewn ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ar draws lefelau'r Uwch Dîm Arwain, arweinydd canol, athro wrth ei waith, ANG a CA/CALU?
7. Hyd y gwyddoch, sut y mae ymarferwyr wedi ymgysylltu â'r Safonau Proffesiynol?
    - Awgrymiadau: llywio dysgu proffesiynol, cydweithredu, gofynion statudol, amlder y defnydd, amrywiad yn y defnydd rhwng safonau, defnydd o'i gymharu â safonau blaenorol.
    - A yw ymgysylltiad yn amrywio ar draws lefelau Uwch Dîm Arwain, arweinydd canol, athro wrth ei waith, ANG a CA/CALU? Os felly, sut?

8. Hyd y gwyddoch, sut y mae ymarferwyr wedi defnyddio'r Pasbort Dysgu Proffesiynol?

**Effeithiolrwydd y defnydd**

9. Pa mor effeithiol, yn eich barn chi, yw'r Safonau Proffesiynol o ran:
    - [Trafodwch ar gyfer myfyrwyr AGA, athrawon gweithredol, ANG, arweinwyr ysgol, CA a CALU] Gosod disgwyliadau clir ynghylch ymarfer effeithiol wrth ymuno â'r proffesiwn ac yn ystod gyrfa ymarferydd?
    - Darparu ysbrydoliaeth a ffocws ar gyfer gwelliant parhaus?
    - Sefydlu fframwaith i osod nodau ac asesu cynnydd ar gyfnodau gyrfa allweddol?
    - Annog ymarferwyr i gymryd cyfrifoldeb am eu safonau eu hunain?
    - Galluogi ymarferwyr i fyfyrio ar eu hymarfer?
    - Cefnogi ymarferwyr i nodi meysydd ar gyfer gweithgaredd dysgu proffesiynol a chefnogi prosesau rheoli perfformiad?
    - Pa dystiolaeth sydd ar gael i gefnogi'r uchod?
10. Pa mor effeithiol, yn eich barn chi, yw'r Safonau Proffesiynol o ran:
    - Cefnogi ysgolion a rhanddeiliaid addysg eraill i osod nodau, monitro cynnydd a nodi camau gweithredu?
    - Cefnogi prosesau gwella ysgolion?
    - Annog cydweithredu rhwng ysgolion ac ymarferwyr?
    - Cefnogi ysgolion i ddatblygu'r sgiliau a'r mathau o ymddygiad sy'n ofynnol i gyflawni'r cwricwlwm newydd?
    - Pa dystiolaeth sydd ar gael i gefnogi'r uchod?
11. Pa ffactorau ac amodau sy'n galluogi ac yn rhwystro ymgysylltiad effeithiol â'r Safonau Proffesiynol?
    - Ar lefel genedlaethol, lefel ranbarthol, lefel ysgol, lefel unigolyn neu lefel arall.

**Cymorth**

12. Beth yw eich barn am y cymorth sydd ar gael i chi a'ch sefydliad ddefnyddio'r Safonau Proffesiynol?
    - Cymorth ar lefel genedlaethol, ranbarthol a chlwstwr/ysgol
    - Sut y gellid ei wella?
13. Beth yw eich barn am y cymorth sydd ar gael i ysgolion ac ymarferwyr ddefnyddio'r Safonau Proffesiynol?
    - Y cymorth a ddarperir gan eich sefydliad eich hun [os yw'n berthnasol]
    - Cymorth ar lefel genedlaethol, ranbarthol a chlwstwr/ysgol
14. Sut y gellir gwella'r cymorth sydd ar gael i ysgolion ac ymarferwyr?
    - Cymorth ar lefel genedlaethol, ranbarthol a chlwstwr/ysgol

**Effeithiau disgwyliedig (a'r effeithiau cychwynnol a brofwyd)**

15. Pa effaith, os o gwbl, fyddech chi'n disgwyl i'r Safonau Proffesiynol ei chael ar:
    - Dysgwyr
    - Ymarferwyr (ymarfer addysgu, datblygu gyrfa, llesiant, boddhad swydd) [archwilio ar gyfer pob grŵp ymarferwyr]
    - Cydweithredu a gweithio mewn clwstwr
    - Ysgolion (arweinyddiaeth, cynllunio strategol, rheoli perfformiad, diwylliant)
    - Y system addysg ehangach (atebolrwydd, arolygu, strwythurau cymorth rhanbarthol a chenedlaethol).
16. Pa newidiadau neu ddeilliannau cychwynnol, os o gwbl, ydych chi wedi'u gweld ar lefel ymarferydd, lefel ysgol neu lefel y system addysg?
    - Pa dystiolaeth sydd o'r newidiadau neu'r deilliannau hyn?
17. Pa ffactorau ac amodau ydych chi'n disgwyl y byddant yn galluogi ac yn llesteirio effaith gadarnhaol yn sgil y Safonau Proffesiynol?

18. Sut y gall Llywodraeth Cymru fonitro gweithrediad, defnydd, datblygiad ac effaith y Safonau Proffesiynol yn y dyfodol?

- Beth yw'r dangosyddion allweddol ar gyfer defnydd, cynnydd ac effaith y gallai Llywodraeth Cymru ddisgwyl eu gweld?

**Penaethiaid ysgolion, Uwch Dîm Arwain, mentoriaid sefydlu ac arweinwyr canol**

**Cefndir**

1. Rhowch drosolwg o'ch rôl a'ch cyfrifoldebau o ran ymgysylltiad eich ysgol neu'ch lleoliad â'r Safonau Proffesiynol a'r defnydd ohonynt.

**Ymwybyddiaeth a gwybodaeth**

2. [Oni bai eich bod eisoes wedi cyfeirio at hyn mewn ymateb i Ch1] I ba raddau yr ydych yn ymwybodol o'r Safonau Proffesiynol a'r hyn y maent yn ceisio'i gyflawni? Trafodwch mewn perthynas â'r canlynol:
    - Y pum safon a'r gwerthoedd a'r ymagweddau cyffredinol
    - Eglurder a hygyrchedd y safonau
    - Yr amserlen weithredu
    - Dealltwriaeth o'r goblygiadau i sgiliau, gwybodaeth ac ymddygiadau ymarferwyr?
    - Sut y maent yn wahanol i safonau blaenorol (os yw'n berthnasol)
    - Eich rôl o ran defnyddio'r safonau o ran eich datblygiad eich hun ac o ran hwyluso datblygiad pobl eraill.
3. Yn eich barn chi, beth yw'r cysylltiad rhwng y Safonau Proffesiynol a gweithgareddau ac ymyriadau cenedlaethol eraill?
    - Diwygio'r cwricwlwm, Ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu, y Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol, rheoli perfformiad, AGA, sefydlu. y PDP.
    - [Os yw'n briodol] Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth, y rhaglen CALU.
4. Faint o ymwybyddiaeth o'r Safonau Proffesiynol sydd ymysg yr ymarferwyr yn eich ysgol neu'ch lleoliad?

- Yn eich profiad chi, a oes unrhyw wahaniaethau mewn ymwybyddiaeth ar draws lefelau Uwch Dîm Arwain, arweinydd canol, athro wrth ei waith, ANG a CA/CALU?
- I ba raddau y mae ymarferwyr yn deall goblygiadau'r safonau ar gyfer sgiliau, gwybodaeth ac ymarfer? (A oes unrhyw wahaniaethau ar draws lefelau'r Uwch Dîm Arwain, arweinydd canol, athro wrth ei waith, ANG a CA/CALU?

**Ymgysylltiad**

5. Sut y mae eich ysgol neu'ch lleoliad wedi ymateb i'r Safonau Proffesiynol ac wedi eu defnyddio?
    - Awgrymiadau: cynllunio strategol, dysgu proffesiynol, HMS, Cynlluniau Datblygu Ysgol, cynlluniau adrannol, rheoli perfformiad, polisïau ac arferion ehangach.
6. Sut mae ymarferwyr yn eich ysgol neu'ch lleoliad wedi defnyddio'r Safonau Proffesiynol?
    - Awgrymiadau: llywio dysgu proffesiynol, yn unigol, fel adrannau, cydweithredu - rhwng ysgolion ac ymarferwyr, gofynion statudol, amlder y defnydd, amrywiad yn y defnydd rhwng safonau, defnydd o'i gymharu â safonau blaenorol.
    - A yw ymgysylltiad/defnydd yn amrywio ar draws lefelau Uwch Dîm Arwain, arweinydd canol, athro sy'n gwasanaethu, ANG a CA/CALU? Os felly, sut?
    - Ydych chi'n monitro, neu'n cofnodi, eich cynnydd eich hun yn erbyn y safonau? Os felly, sut?
    - A yw cynnydd yn erbyn y Safonau Proffesiynol yn cael ei gofnodi ar lefel ysgol gyfan? Os felly, sut?
    - [I fentoriaid sefydlu] Sut ydych chi wedi defnyddio'r Safonau Proffesiynol i fonitro cynnydd ANG?
7. Sut y mae ymarferwyr wedi defnyddio'r Pasbort Dysgu Proffesiynol yn eich ysgol neu'ch lleoliad?

- Awgrymiadau: amlder a maint y defnydd (unrhyw amrywiadau yn y defnydd rhwng Uwch Dîm Arwain/ymarferydd profiadol/ANG?), hygyrchedd a hyblygrwydd y PDP.

**Effeithiolrwydd y defnydd**

8. Pa mor effeithiol yw'r Safonau Proffesiynol o ran:

[Holwch fyfyrwyr AGA, athrawon wrth eu gwaith, ANG, arweinwyr ysgol, CA a CALU]

- Gosod disgwyliadau clir ynghylch ymarfer effeithiol pan fydd ymarferydd yn ymuno â'r proffesiwn ac yn ystod gyrfa ymarferydd?
- Gosod disgwyliadau clir ynghylch ymarfer effeithiol yn ystod gyrfa ymarferydd?
- Darparu ysbrydoliaeth a ffocws ar gyfer gwelliant parhaus?
- Sefydlu fframwaith i osod nodau ac asesu cynnydd ar gyfnodau gyrfa allweddol?
- Annog ymarferwyr i gymryd cyfrifoldeb am eu safonau eu hunain?
- Galluogi ymarferwyr i fyfyrio ar eu hymarfer (yn unigol ac ar y cyd)?
- Cefnogi ymarferwyr i nodi meysydd ar gyfer gweithgaredd dysgu proffesiynol a chefnogi prosesau rheoli perfformiad?
- Pa dystiolaeth sydd ar gael i gefnogi'r uchod?

9. Pa mor effeithiol yw'r Safonau Proffesiynol o ran:

- Cynorthwyo eich ysgol neu'ch lleoliad (e.e. mentoriaid sefydlu/arweinwyr adrannau/cyfadrannau) i osod nodau, monitro cynnydd a nodi gweithredoedd?
- Cefnogi prosesau gwella eich ysgol neu'ch lleoliad?
- Annog cydweithredu rhwng ysgolion/lleoliadau ac ymarferwyr?
- Cefnogi ysgolion i ddatblygu'r sgiliau a'r mathau o ymddygiad sy'n ofynnol i gyflawni'r cwricwlwm newydd?
- Pa dystiolaeth sydd ar gael i gefnogi'r uchod?

10. Pa ffactorau ac amodau sy'n galluogi ac yn rhwystro defnydd effeithiol o'r Safonau Proffesiynol yn eich ysgol neu'ch lleoliad?
    - Ffactorau llwyddiant?
    - Heriau? (Sut y gellir goresgyn y rhain?)

**Cymorth**

11. Beth yw eich barn am y cymorth sydd ar gael i chi ddefnyddio'r Safonau Proffesiynol yn eich ysgol neu'ch lleoliad?
    - Y math o gymorth sydd ar gael?
    - Cymorth ar lefel genedlaethol, lefel rhanbarthol a lefel clwstwr/ysgol (e.e. consortia, Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgu, darparwyr AGA, Uwch Dîm Arwain)
    - Sut y gellid ei wella?
12. Sut ydych chi'n cefnogi ymarferwyr i ddefnyddio'r safonau yn eich ysgol neu'ch lleoliad?
    - Pa adborth, os o gwbl, ydych chi wedi'i gael ar y cymorth rydych chi'n ei ddarparu?

**Effeithiau disgwyliedig (a'r newidiadau cychwynnol a welwyd)**

13. Pa effaith, os o gwbl, fyddech chi'n disgwyl i'r Safonau Proffesiynol ei chael ar:
    - Dysgwyr
    - Ymarferwyr (ymarfer addysgu, datblygu gyrfa, llesiant, boddhad swydd) [holwch bob grŵp o ymarferwyr]
    - Cydweithredu a gweithio mewn clwstwr
    - Ysgolion a lleoliadau (arweinyddiaeth, cynllunio strategol, rheoli perfformiad, diwylliant)
    - Y system addysg ehangach (atebolrwydd, arolygu, strwythurau cymorth rhanbarthol a chenedlaethol).

14. Pa newidiadau neu ddeilliannau cychwynnol, os o gwbl, ydych chi wedi'u gweld yn eich ysgol neu'ch lleoliad?
    - Pa dystiolaeth sydd o'r newidiadau neu'r deilliannau hyn?
15. Pa ffactorau ac amodau ydych chi'n disgwyl y byddant yn galluogi ac yn llesteirio effaith gadarnhaol yn sgil y Safonau Proffesiynol?
16. Sut y gall Llywodraeth Cymru fonitro'r defnydd o'r Safonau Proffesiynol a'u datblygiad a'u heffaith yn y dyfodol?
    - Beth yw dangosyddion allweddol cynnydd ac effaith y gallai Llywodraeth Cymru ddisgwyl eu gweld?

**Athrawon, ANG, CA/CALU**

**Cefndir**

1. Rhowch drosolwg o'ch rôl.

**Ymwybyddiaeth a gwybodaeth**

2. [Oni bai eich bod eisoes wedi cyfeirio at hyn mewn ymateb i Ch1] I ba raddau yr ydych yn ymwybodol o'r Safonau Proffesiynol a'r hyn y maent yn ceisio'i gyflawni? Trafodwch mewn perthynas â'r canlynol:
    - Y pum safon a'r gwerthoedd a'r ymagweddau cyffredinol
    - Yr amserlen weithredu
    - Pa mor glir a hygyrch yw'r safonau?
    - Dealltwriaeth o'r goblygiadau i sgiliau, gwybodaeth ac ymddygiadau ymarferwyr?
    - Sut y maent yn wahanol i safonau blaenorol (os yw'n berthnasol)
3. Sut ydych chi'n cael mynediad at y Safonau Proffesiynol ac yn cael gwybodaeth amdanynt?
    - HMS ysgol gyfan neu leoliad, adran, consortia, mentor sefydlu

- PDP, Llwyfan dysgu proffesiynol arall, Adnoddau dysgu proffesiynol yr ysgol.

4. Yn eich barn chi, beth yw'r cysylltiad rhwng y Safonau Proffesiynol a gweithgareddau ac ymyriadau cenedlaethol eraill?
    - Diwygio'r cwricwlwm, Ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu, y Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol, rheoli perfformiad, AGA, sefydlu, y PDP.
    - [Os yw'n briodol] Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth, y rhaglen CALU.

**Ymgysylltiad**

5. Sut ydych chi wedi defnyddio'r Safonau Proffesiynol?
    - Awgrymiadau: datblygu eich dysgu proffesiynol a'ch ymarfer addysgu eich hun, cefnogi eich ymarfer myfyriol eich hun, gwerthuso eich cynnydd eich hun, cynllunio adrannol ac ymarfer adrannol, rhan o broses rheoli perfformiad yr ysgol neu'r lleoliad hwn, cydweithredu ag ymarferwyr eraill ac ysgolion neu leoliadau. A oes unrhyw amrywiad yn y defnydd o'r safonau o'i gymharu â safonau blaenorol?
    - Ydych chi'n cofnodi'ch cynnydd eich hun yn erbyn y safonau? Sut?
    - Ydych chi'n defnyddio'r Safonau Proffesiynol i reoli perfformiad ymarferwyr eraill?
    - [I fentoriaid sefydlu] Sut ydych chi wedi defnyddio'r Safonau Proffesiynol i fonitro cynnydd ANG?
6. Ydych chi wedi clywed am y Pasbort Dysgu Proffesiynol ac a ydych yn ei ddefnyddio?
    - Amlder, a maint y defnydd.
    - Dull o gael mynediad ato, h.y. gliniadur, llechen/i-pad, neu ap PDP ar android/i-phone

- Ydych chi'n ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw weithgaredd penodol? Gosod targedau, cofnodi profiad, cefnogi dilyniant gyrfa, dysgu proffesiynol.
- Beth yw eich barn ar ba mor hygyrch a hyblyg yw'r PDP i'w ddefnyddio?

**Effeithiolrwydd y defnydd**

7. Pa mor effeithiol yw'r Safonau Proffesiynol o ran:
    - Gosod disgwyliadau clir ynghylch ymarfer effeithiol wrth ymuno â'r proffesiwn (ar gyfer ANG) / drwy gydol eich gyrfa (ar gyfer athrawon sy'n ymarfer, CA a CALU)?
    - Darparu ysbrydoliaeth a ffocws ar gyfer gwelliant parhaus?
    - Sefydlu fframwaith i osod nodau ac asesu eich cynnydd ar gyfnodau gyrfa allweddol?
    - Eich annog i gymryd cyfrifoldeb am eich safonau eich hun?
    - Eich galluogi i fyfyrio ar ymarfer (yn unigol ac ar y cyd)?
    - Eich cefnogi i nodi meysydd ar gyfer gweithgaredd dysgu proffesiynol a chefnogi rheoli perfformiad?
    - Pa dystiolaeth sydd ar gael i gefnogi'r uchod?
8. Pa mor effeithiol yw'r Safonau Proffesiynol o ran:
    - Eich cefnogi i osod nodau, monitro cynnydd a nodi'r camau sydd eu hangen?
    - Eich cefnogi i wella ymarfer?
    - Eich annog i gydweithredu ag ysgolion/lleoliadau ac ymarferwyr?
    - Eich cefnogi i ddatblygu'r sgiliau a'r mathau o ymddygiad sy'n ofynnol i gyflawni'r cwricwlwm newydd?
    - Pa dystiolaeth sydd ar gael i gefnogi'r uchod?
9. Pa ffactorau ac amodau sy'n eich galluogi a'ch rhwystro i ddefnyddio a chyrraedd y Safonau Proffesiynol?

- Ffactorau llwyddiant?
- Heriau? (Sut y gellir goresgyn y rhain?)

**Cymorth**

10. Beth yw eich barn am y cymorth sydd ar gael i chi er mwyn cyrraedd y Safonau Proffesiynol?
    - Y math o gymorth sydd ar gael? Trafod natur a maint y cymorth a ddarperir gan gyfoedion.
    - Cymorth ar lefel genedlaethol, ranbarthol a chlwstwr/ysgol (e.e. consortia, Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, darparwyr AGA, Uwch Dîm Arwain yr ysgol neu'r lleoliad)
    - Sut y gellid ei wella?
11. Sut ydych chi'n cefnogi eraill i ddefnyddio'r safonau yn eich ysgol neu'ch lleoliad?
    - Pa adborth, os o gwbl, ydych chi wedi'i gael ar y cymorth rydych chi'n ei ddarparu?

**Effeithiau disgwyliedig (a'r newidiadau cychwynnol a welwyd)**

12. Pa effaith, os o gwbl, fyddech chi'n disgwyl i'r Safonau Proffesiynol ei chael ar:
    - Eich ymarfer addysgu, datblygu gyrfa, llesiant, boddhad swydd
    - Dysgwyr
    - Cydweithredu a gweithio mewn clwstwr
13. Pa newidiadau neu ddeilliannau cychwynnol, os o gwbl, ydych chi wedi'u gweld?
    - Yn eich ymarfer eich hun ac ymarfer pobl eraill?
    - Pa dystiolaeth sydd o'r newidiadau neu'r deilliannau hyn?
14. Pa ffactorau ac amodau ydych chi'n disgwyl y byddant yn galluogi ac yn llesteirio effaith gadarnhaol yn sgil y Safonau Proffesiynol?

15. A oes gennych unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y gellid monitro'r defnydd o'r Safonau Proffesiynol a'u datblygiad a'u heffaith yn y dyfodol?

- Beth yw'r dangosyddion allweddol o gynnydd ac effaith?

**Rhanddeiliaid sy'n cefnogi ymarferwyr: Staff AGA, Swyddogion sefydlu, Cynghorwyr herio y consortia addysg rhanbarthol**

**Cefndir**

1. Rhowch drosolwg o'ch rôl a'ch cyfrifoldebau a'r cysylltiad rhwng y rhain a'r Safonau Proffesiynol.

**Ymwybyddiaeth a gwybodaeth**

2. Beth fyddech chi'n ei ddweud yw'r egwyddorion sydd wedi llywio datblygiad y Safonau Proffesiynol?
    - Beth mae'r safonau'n anelu at ei gyflawni?
    - Ym mha ffyrdd, os o gwbl, y mae'r Safonau Proffesiynol yn wahanol i safonau blaenorol?
    - Dealltwriaeth o'r goblygiadau i sgiliau, gwybodaeth ac ymddygiadau ymarferwyr?
    - Ymwybyddiaeth o'r pum safon a'r gwerthoedd a'r ymagweddau cyffredinol
    - Ymwybyddiaeth o'r amserlen weithredu
3. Beth yw eich dealltwriaeth o'r cysylltiad rhwng y Safonau Proffesiynol a gweithgareddau ac ymyriadau cenedlaethol eraill?
    - Diwygio'r cwricwlwm, Ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu, y Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol, rheoli perfformiad, AGA, sefydlu. y PDP.
    - [Os yw'n briodol] Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth, y rhaglen CALU.
4. Yn eich profiad chi, i ba raddau y mae ysgolion/lleoliadau yn ymwybodol o'r Safonau Proffesiynol?
    - I ba raddau y mae ysgolion/lleoliadau yn deall goblygiadau'r Safonau Proffesiynol i sgiliau, gwybodaeth ac ymddygiadau ymarferwyr?

- A oes unrhyw wahaniaethau mewn ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ar draws lefelau Uwch Dîm Arwain, arweinydd canol, athro sy'n gwasanaethu, ANG a CA/CALU?

**Ymgysylltiad**

5. Sut ydych chi a'ch sefydliad wedi ymgysylltu â'r Safonau Proffesiynol neu wedi ymateb iddynt?
    - Awgrymiadau: cynllunio strategol, newidiadau i addysgu a dysgu, newidiadau i brosesau sefydlu, newidiadau i asesu.
6. Sut ydych chi a'ch sefydliad wedi sicrhau bod staff wedi'u paratoi'n addas i gefnogi ymarferwyr ac ysgolion neu leoliadau?
    - Hyfforddiant mewnol, adnoddau, gweithio ar y cyd.
7. Hyd y gwyddoch, sut y mae ysgolion/lleoliadau wedi ymgysylltu â'r Safonau Proffesiynol?
    - Awgrymiadau: cynllunio strategol, dysgu proffesiynol, HMS, Cynlluniau Datblygu Ysgol, rheoli perfformiad, polisïau ac arferion ehangach.
8. Hyd y gwyddoch, sut y mae ymarferwyr wedi defnyddio'r Safonau Proffesiynol?
    - Awgrymiadau: llywio dysgu proffesiynol, cydweithredu, gofynion statudol, amlder y defnydd, amrywiad yn y defnydd rhwng safonau, defnydd o'i gymharu â safonau blaenorol.
    - A yw ymgysylltiad yn amrywio ar draws lefelau Uwch Dîm Arwain, arweinydd canol, athro wrth ei waith, ANG a CA/CALU? Os felly, sut?
9. Hyd y gwyddoch, sut y mae ymarferwyr wedi defnyddio'r Pasbort Dysgu Proffesiynol?
    - Ym mha ffordd ydych chi a'ch sefydliad yn defnyddio'r PDP?

**Effeithiolrwydd y defnydd**

10. Pa mor effeithiol, yn eich barn chi, yw'r Safonau Proffesiynol o ran:

[Holwch fyfyrwyr AGA, athrawon wrth eu gwaith, ANG, arweinwyr ysgol, CA a CALU]

- Gosod disgwyliadau clir ynghylch ymarfer effeithiol pan fydd ymarferydd yn ymuno â'r proffesiwn ac yn ystod gyrfa ymarferydd?
- Darparu ysbrydoliaeth a ffocws ar gyfer gwelliant parhaus?
- Sefydlu fframwaith i osod nodau ac asesu cynnydd ar gyfnodau gyrfa allweddol?
- Annog ymarferwyr i gymryd cyfrifoldeb am eu safonau eu hunain?
- Galluogi ymarferwyr i fyfyrio ar eu hymarfer?
- Cefnogi ymarferwyr i nodi meysydd ar gyfer gweithgaredd dysgu proffesiynol a chefnogi prosesau rheoli perfformiad?
- Pa dystiolaeth sydd ar gael i gefnogi'r uchod?

11. Pa mor effeithiol, yn eich barn chi, yw'r Safonau Proffesiynol o ran:
    - Cefnogi ysgolion/lleoliadau a rhanddeiliaid addysg eraill i osod nodau, monitro cynnydd a nodi camau gweithredu?
    - Cefnogi prosesau gwella ysgolion?
    - Annog cydweithredu rhwng ysgolion/lleoliadau ac ymarferwyr?
    - Cefnogi ysgolion i ddatblygu'r sgiliau a'r mathau o ymddygiad sy'n ofynnol i gyflawni'r cwricwlwm newydd?
    - Pa dystiolaeth sydd ar gael i gefnogi'r uchod?
12. Pa ffactorau ac amodau sy'n galluogi ac yn rhwystro'r defnydd effeithiol o'r Safonau Proffesiynol?
    - Ar lefel genedlaethol, ranbarthol neu ysgol/lleoliad.

**Cymorth**

13. Pa gymorth ydych chi a'ch sefydliad yn gallu ei ddarparu i ysgolion/lleoliadau ac ymarferwyr i ddefnyddio'r Safonau Proffesiynol?
    - Sut mae'r cymorth a ddarperir wedi newid ar ôl cyflwyno'r Safonau Proffesiynol newydd

- Cymorth y maent yn ei ystyried yn arbennig o effeithiol a'r rhwystrau i ddarparu cymorth

14. Beth yw eich barn am y cymorth ehangach sydd ar gael i ysgolion/lleoliadau ac ymarferwyr ddefnyddio'r Safonau Proffesiynol?
    - Cymorth ar lefel genedlaethol, ranbarthol a chlwstwr/ysgol
15. Sut y gellir gwella'r cymorth sydd ar gael i ysgolion/lleoliadau ac ymarferwyr i ddefnyddio'r Safonau Proffesiynol?
    - Cymorth ar lefel genedlaethol, ranbarthol a chlwstwr/ysgol

**Effeithiau disgwyliedig (a'r newidiadau cychwynnol a welwyd)**

16. Pa effaith, os o gwbl, fyddech chi'n disgwyl i'r Safonau Proffesiynol ei chael ar:
    - Dysgwyr
    - Ymarferwyr (ymarfer addysgu, datblygu gyrfa, llesiant, boddhad swydd)
    - Cydweithredu a gweithio mewn clwstwr
    - Ysgolion/lleoliadau (arweinyddiaeth, cynllunio strategol, rheoli perfformiad, diwylliant)
    - Y system addysg ehangach (atebolrwydd, arolygu, strwythurau cymorth rhanbarthol a chenedlaethol).
17. Pa newidiadau neu ddeilliannau cychwynnol, os o gwbl, a welsoch ar lefel ymarferydd, ysgol/lleoliad neu system addysg?
    - Pa dystiolaeth sydd o'r newidiadau neu'r deilliannau hyn?
18. Pa ffactorau ac amodau ydych chi'n disgwyl y byddant yn galluogi ac yn llesteirio effaith gadarnhaol yn sgil y Safonau Proffesiynol?
19. Sut y gall Llywodraeth Cymru fonitro'r defnydd o'r Safonau Proffesiynol a'u datblygiad a'u heffaith yn y dyfodol?

- Beth yw dangosyddion allweddol cynnydd ac effaith y gallai Llywodraeth Cymru ddisgwyl eu gweld?

**Rhanddeiliaid sy'n cefnogi ymarferwyr: llywodraethwyr ysgolion**

**Cefndir**

1. Rhowch drosolwg o'ch rôl a'ch cyfrifoldebau o ran ymgysylltiad eich ysgol â'r Safonau Proffesiynol a'r defnydd ohonynt.

**Ymwybyddiaeth a gwybodaeth**

2. Beth fyddech chi'n ei ddweud yw'r egwyddorion sydd wedi llywio datblygiad y Safonau Proffesiynol?
    - Beth mae'r safonau'n anelu at ei gyflawni?
    - Eglurder a hygyrchedd y safonau
    - Ym mha ffyrdd, os o gwbl, y mae'r Safonau Proffesiynol yn wahanol i safonau blaenorol?
    - Dealltwriaeth o'r goblygiadau i sgiliau, gwybodaeth ac ymddygiadau ymarferwyr?
    - Ymwybyddiaeth o'r pum safon a'r gwerthoedd a'r ymagweddau cyffredinol
    - Ymwybyddiaeth o'r amserlen weithredu
3. Beth yw eich dealltwriaeth o'r cysylltiad rhwng y Safonau Proffesiynol a gweithgareddau ac ymyriadau cenedlaethol eraill?
    - Diwygio'r cwricwlwm, Ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu, y Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol, rheoli perfformiad, AGA, sefydlu. y PDP.
    - [Os yw'n briodol] Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth, y rhaglen CALU.
4. Faint o ymwybyddiaeth sydd gan yr ymarferwyr yn eich ysgol chi o'r Safonau Proffesiynol?

- A oes unrhyw wahaniaethau mewn ymwybyddiaeth ar draws lefelau Uwch Dîm Arwain, arweinydd canol, athro sy'n gwasanaethu, ANG a CA/CALU?
- I ba raddau y mae ymarferwyr yn deall goblygiadau'r safonau ar gyfer sgiliau, gwybodaeth ac ymarfer? (A oes unrhyw wahaniaethau ar draws lefelau'r Uwch Dîm Arwain, arweinydd canol, athro wrth ei waith, ANG a CA/CALU?

**Ymgysylltiad**

5. Sut y mae eich ysgol wedi ymateb i'r Safonau Proffesiynol ac wedi ymgysylltu â nhw?
    - Awgrymiadau: cynllunio strategol, dysgu proffesiynol, HMS, Cynlluniau Datblygu Ysgol, cynlluniau adrannol, rheoli perfformiad, polisïau ac arferion ehangach.
    - A yw ymgysylltiad/defnydd yn amrywio ar draws lefelau Uwch Dîm Arwain, arweinydd canol, athro sy'n gwasanaethu, ANG a CA/CALU? Os felly, sut?
    - A ydych yn monitro, neu'n cofnodi cynnydd penaethiaid ac ymarferwyr eraill yn erbyn y safonau? Sut?
6. [Os nad yw hyn wedi'i egluro eisoes] Beth yw eich rôl fel llywodraethwr wrth gefnogi'r ysgol i ymateb i'r Safonau Proffesiynol ac ymgysylltu â hwy?

**Effeithiolrwydd y defnydd**

7. Pa mor effeithiol yw'r Safonau Proffesiynol o ran:

[Holwch fyfyrwyr AGA, athrawon wrth eu gwaith, ANG, arweinwyr ysgol, CA a CALU]

- Gosod disgwyliadau clir ynghylch ymarfer effeithiol pan fydd ymarferydd yn ymuno â'r proffesiwn ac yn ystod gyrfa ymarferydd?
- Cynorthwyo eich ysgol (e.e. mentoriaid sefydlu/arweinwyr adran/cyfadran) i osod nodau, monitro cynnydd a nodi camau gweithredu?
- Darparu ysbrydoliaeth a ffocws ar gyfer gwelliant parhaus?
- Cefnogi prosesau gwella eich ysgol?
- Annog cydweithredu rhwng ysgolion ac ymarferwyr?

- Cefnogi ysgolion i ddatblygu'r sgiliau a'r mathau o ymddygiad sy'n ofynnol i gyflawni'r cwricwlwm newydd?
- Pa dystiolaeth sydd ar gael i gefnogi'r uchod?

**Cymorth**

8. Beth yw eich barn am y cymorth sydd ar gael i chi ymgysylltu â'r Safonau Proffesiynol yn eich ysgol neu'ch lleoliad?
    - Y math o gymorth sydd ar gael?
    - Cymorth ar lefel genedlaethol, lefel rhanbarthol a lefel clwstwr/ysgol (e.e. consortia, Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgu, darparwyr AGA, Uwch Dîm Arwain)
    - Sut y gellid ei wella?

**Effeithiau disgwyliedig (a'r newidiadau cychwynnol a welwyd)**

9. Pa effaith, os o gwbl, fyddech chi'n disgwyl i'r Safonau Proffesiynol ei chael ar:
    - Dysgwyr
    - Ymarferwyr (ymarfer addysgu, datblygu gyrfa, llesiant, boddhad swydd) [holwch pob grŵp o ymarferwyr]
    - Cydweithredu a gweithio mewn clwstwr
    - Ysgolion (arweinyddiaeth, cynllunio strategol, rheoli perfformiad, diwylliant)
    - Y system addysg ehangach (atebolrwydd, arolygu, strwythurau cymorth rhanbarthol a chenedlaethol).
10. Pa newidiadau neu ddeilliannau cychwynnol, os o gwbl, ydych chi wedi'u gweld yn eich ysgol?
- Pa dystiolaeth sydd o'r newidiadau neu'r deilliannau hyn?

## Llyfryddiaeth


Prifysgol Metropolitan Caerdydd (2018). Research to Support the National Professional Learning Approach for Wales. Area 9: Schools as Learning Organisations and the Welsh Government Professional Standards.

Donaldson, G. (2015). Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru Caerdydd: Hawlfraint y Goron 2015.

Cyngor y Gweithlu Addysg (2017). Arolwg Gweithlu Addysg Cenedlaethol: Adroddiad Ymchwil.

Cyngor y Gweithlu Addysg (2021). Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu, arweinyddiaeth a chynorthwyo addysgu yng Nghymru Heb ei gyhoeddi.

Estyn (2020). Estyn (2020) The National Evaluation and Improvement Resource (NEIR) update and guidance v1.3, appendix 1.

Furlong, J. (2015). Addysgu Athrawon Yfory.

GTC Scotland (2012). The Standard for Career-Long Professional Learning: supporting the development of teacher professional learning.

OECD (2015). Improving Schools in Scotland: An OECD Perspective.

OECD (2018). Datblygu Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu yng Nghymru.

OECD (2020). Achieving the New Curriculum for Wales

Tabberer, R. (2013). Adolygiad o Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru(2013)

Waters (2020). Dysgu bod yn athro yng Nghymru: sefydlu athrawon yn y proffesiwn.

Llywodraeth Cymru (2014). Cynlluniau datblygu ysgolion: Canllawiau Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

Llywodraeth Cymru (2017a). Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl Cynllun gweithredu 2017-21 Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

Llywodraeth Cymru (2017b). Ymgynghoriad - crynodeb o'r ymatebion: Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

Llywodraeth Cymru (2018a). Addysgu: Proffesiwn gwerthfawr. Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

Llywodraeth Cymru (2018b). Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru Addysgu athrawon yfory. Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

Llywodraeth Cymru (2019a). Manyleb ar gyfer: Gwerthusiad o'r Safonau Addysgu ac Arweinyddiaeth Broffesiynol. Heb ei gyhoeddi.

Llywodraeth Cymru (2019b). Ymgynghoriad - crynodeb o'r ymatebion: Safonau proffesiynol drafft ar gyfer cynorthwyo addysgu. Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

Llywodraeth Cymru (2019c): Buddsoddi mewn rhagoriaeth: Ein cynllun cenedlaethol i ddatblygu'r gweithlu 2019-21. Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

Llywodraeth Cymru (2020). Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl. Diweddariad Hydref 2020. Caerdydd: Hawlfraint y Goron.